




CANLLAWIAU ATHRAWON

CYNNWYS

Cyflwyniad		3
Deunyddiau rhyngweithiol		6
Yr Wyddor Gymraeg		8
Cysylltiadau trawsgwricwlaidd		9
Uned 1		15
Rhan 1	Bobl bach!	19
Rhan 2	Y llais	24
Rhan 3	Teithio	29
Rhan 4	Castell Henllys	32
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	37
Uned 2		41
Rhan 1	Hen, hen stori	44
Rhan 2	Dw i eisiau bwyd.	51
Rhan 3	Bara arbennig	57
Rhan 4	Yn y farchnad	60
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	64
Uned 3		69
Rhan 1	Tywyll a golau	73
Rhan 2	Cynnes ac oer	78
Rhan 3	Mynd i'r Arctig	84
Rhan 4	Bobl bach!	88
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	93
Uned 4		97
Rhan 1	Dathlu	100
Rhan 2	Addurniadau	105
Rhan 3	Hwyl a sbri	113
Rhan 4	Dewi Sant	117
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	122
Uned 5		125
Rhan 1	Hir a byr	127
Rhan 2	Hetiau	131
Rhan 3	Syrpreis	135
Rhan 4	Syrpreis arall	140
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	144
Uned 6		147
Rhan 1	Dw i eisiau mynd adre.	150
Rhan 2	Môr-ladron	155
Rhan 3	Ar y traeth	158
Rhan 4	Madog	161
Rhan 5	Mynd adre	166

CYFLWYNIAD

Y Pod-antur Cymraeg - P-aC₁

Mae'r pecyn hwn wedi'i baratoi ar gyfer dysgu Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Y nod yw adeiladu ar batrymau iaith a geirfa sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen, eu datblygu nhw ymhellach ac yna'u trosglwyddo nhw i gyd-destunau gwahanol, gan alluogi'r disgyblion i ddeall Cymraeg ysgrifenedig a llafar, i siarad ac i ysgrifennu mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol bwrpasau.

Anogir dysgwyr i "... siarad yn hyderus wrth weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp," gan "ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa, ymadroddion, brawddegau a chwestiynau"¹. Yn ogystal, "byddant yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithredol ac ymatebol, a byddant yn cael profiad o ystod eang o destunau, gan gynnwys deunyddiau dilys, wrth iddynt ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol ac effeithiol."²

Bydd sgiliau cyfathrebu'r disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu datblygu drwy'r pecyn a bydd cyfleoedd iddyn nhw

"... ysgrifennu mewn ymateb i ystod o symbyliadau gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o'r angen i siarad ac ysgrifennu yn unol â'r pwrpas a'r gynulleidfa. Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill."³

Yn ogystal â datblygu sgiliau iaith, mae'r pecyn yn darparu cyfleoedd dilys i gyflwyno meysydd eraill o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n galluogi'r disgyblion i ddefnyddio a gwella sgiliau datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Tynnir sylw at y cyfleoedd hyn ar ddechrau pob rhan.

Cynnwys

Mae'r pecyn aml-gyfrwng hwn yn cynnwys y canlynol:

DVD

Mae'r DVD yn cynnwys chwe uned, pob un wedi'i rhannu'n bum rhan. Mae'r bumed ran ym mhob uned yn adolygu'r patrymau a'r eirfa sydd wedi'u defnyddio yn y pedair rhan gyntaf ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i drafod sut y gallan nhw wella'u dysgu a'u sgiliau cyfathrebu.

Deunydd darllen

15 llyfr stori a llyfr ffeithiol

15 cerdyn darllen

Mae pob llyfr / cerdyn darllen yn berthnasol i ran benodol o'r DVD.

Geiriadur

Mae hwn yn cynnwys geiriau a glywir ar y DVD fel bod disgyblion / athrawon yn gallu chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd maen nhw'n eu clywed. Nid yw'n cynnwys pob gair sydd yn y deunydd darllen gan fod geirfa gynhwysfawr yng nghefn pob llyfr ac ar bob cerdyn darllen.

Sylwer: Caiff geiriau eu rhestru yn ôl yr wyddor Gymraeg. Fel gweithgaredd cychwynnol, gallech chi ddefnyddio'r wyddor sydd yn y canllawiau hyn a gofyn i'r disgyblion dynnu llun i gyd-fynd â phob llythyren. Gallen nhw gynnwys gair maen nhw'n ei wybod eisoes neu chwilio yn y geiriadur am air addas. Efallai na fyddan nhw'n gallu llenwi pob blwch ar hyn o bryd ond gallan nhw eu llenwi yn y dyfodol o bosib.

50 o gardiau trafod

Mae'r rhain yn berthnasol i'r unedau ac maen nhw'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD mewn gwahanol sefyllfaoedd, fel eu bod yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cyfathrebu. Mae pob cerdyn yn cynnwys cyfeiriad penodol ynglŷn â phryd y dylid ei gyflwyno, e.e. **P-aC₁: Uned 1, Rhan 1**.

Fodd bynnag, gellid rhoi detholiad o gardiau addas i'r disgyblion unrhyw bryd fel eu bod nhw'n gallu adolygu'r patrymau a'r eirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol sefyllfaoedd. Wrth i'r disgyblion fynd drwy bob pecyn, gellid ail-ddefnyddio cardiau trafod o becynnau blaenorol ar gyfer adolygu hefyd.

^{1, 2, 3} **Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru**, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, t. 34

Gweithgareddau rhyngweithiol

Cysylltir gweithgareddau gwahanol gyda'i gilydd mewn gêm ar y sgrin. Mae'r rhain yn gofyn i'r disgyblion gasglu llythrennau, ateb cwestiynau a llywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy storm o asteroidau ac ogof arallfydol.

Gweler yr adran **Deunyddiau rhyngweithiol** am fwy o fanylion.

Canllawiau athrawon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau sy'n cyd-fynd â phob uned, h.y.

- cysylltiadau trawsgwricwlaidd – gwybodaeth am sut mae'r unedau'n targedu meysydd penodol o'r cwricwlwm, sut mae patrymau iaith a geirfa'n cael eu cyflwyno o fewn uned a sut y gellir cymhwyso gwaith yr uned i feysydd eraill o'r cwricwlwm
- awgrymiadau ynglŷn â datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif
- nod pob uned
- rhestr o'r eirfa a'r patrymau a ddefnyddir ar y DVD – y ffurfiau newydd a'r rhai cyfarwydd
- awgrymiadau am sut y gellir trosglwyddo'r eirfa a'r patrymau i gyd-destun y dosbarth
- canllawiau dewisol sy'n cynnig cyfarwyddyd cam wrth gam ynglŷn â sut i ddefnyddio'r deunyddiau darllen a'r cardiau siarad ac yn y blaen. Gan fod gan wahanol athrawon ddulliau gwahanol o ddysgu a gan fod amgylchiadau'n amrywio o ddosbarth i ddosbarth, dylid addasu'r rhain yn unol â'ch anghenion chi eich hun.

Patrymau Iaith P-aC1

Yn y ddogfen hon, byddwch chi'n dod o hyd i eirfa a phatrymau iaith mae modd eu defnyddio mewn sefyllfaoedd pob dydd, e.e. wrth fynegi barn, wrth ofyn am wybodaeth neu ei chyflwyno yn y dosbarth, wrth gyflwyno llyfr neu gellir eu defnyddio nhw wrth gyfeirio at feysydd penodol o'r cwricwlwm, e.e. wrth ymgymryd â gwaith celf, addysg gorfforol, gweithgareddau cerddorol neu wrth ymgymryd â gwaith mwy penodol sy'n ymwneud â'r Celtiaid ac ati.

Defnyddiwch y patrymau Cymraeg hyn gymaint ag y gallwch chi - ar hap drwy gydol y dydd wrth gyflwyno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Anogwch y disgyblion i siarad Cymraeg mor aml â phosib, e.e. **Ga i help os gwelwch yn dda?; Esgusodwch fi!; Ga i dro?**. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod yr eirfa berthnasol, anogwch nhw i ddefnyddio patrymau Cymraeg, e.e. **Dw i eisïau file os gwelwch yn dda.**

Defnyddio'r pecyn

Mae canllawiau penodol wedi eu paratoi ar gyfer pob uned ac mae'r rhain yn dangos sut y gellid defnyddio'r deunyddiau ond dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

- Defnyddiwch y deunydd yn rheolaidd.
- Chwaraewch y DVD mor aml â phosib – bydd gwrandao a gwylio'n rheolaidd yn gwella ynganiad a dealltwriaeth.
- Paratowch y disgyblion cyn gwylio uned ar y DVD, e.e. cyflwynwch yr eirfa a'r patrymau iaith newydd. Bydd hyn yn gwneud y profiad yn un mwy ystyrlon a phleserus.
- Dylai'r disgyblion wylïo'r unedau sawl gwaith. Mae dangos unedau cynnar yn ffordd dda o adolygu patrymau a geirfa.
- Manteisiwch ar y cyfleoedd ar y DVD i'r disgyblion ryngweithio â'r cymeriadau, e.e. dylid eu hannog nhw i ateb y cwestiynau sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw.

Amrywiadau ieithyddol

Er mwyn ceisio sicrhau bod y pecyn yn berthnasol i ddisgyblion ledled Cymru, dewiswyd actor o Ogledd Cymru ac actores o Dde Cymru i gymryd rhan yn y ffilm. Mae Crad, felly, yn defnyddio ffurfiau gogleddol ond mae Ffion yn defnyddio ffurfiau sy'n gysylltiedig â De Cymru. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anhawster oherwydd caiff y ffurfiau hyn eu cyflwyno a'u hailadrodd drwy gydol y pecyn e.e.

Crad (Gogledd Cymru)	Ffion (De Cymru)
rŵan	nawr
Mae'n ddrwg gen i.	Mae'n flin 'da fi / gyda fi.
Tyrd.	Dere.
pres	arian

Y Pod-antur Cymraeg

Mae'r DVD a'r holl ddeunydd ychwanegol wedi'u seilio ar y Pod-antur Cymraeg, peiriant sy'n caniatáu i'r cymeriadau, Crad a Ffion, deithio o le i le a thrwy amser. Wrth iddo deithio i wahanol leoliadau daearyddol a chyfnodau hanesyddol, mae'n rhoi cyfleoedd i dargedu amryw feysydd y cwricwlwm a sgiliau gwahanol. Yn gryno, dyma'r 'stori':

- Uned 1: Mae Crad a Ffion yn cael eu cludo i'r Pod-antur Cymraeg. Yno, maen nhw'n dod i adnabod ei gilydd ac yn dod i ddeall gallu'r Pod-antur Cymraeg i'w cludo nhw o le i le a thrwy amser. Yn Rhan 4, maen nhw'n cael eu trosglwyddo i Gastell Henllys.
- Uned 2: Mae'r uned hon yn dechrau gyda hen chwedl Gymraeg, **Culhwch ac Olwen**. Mae'r chwedl hon yn debyg i'r rhai y byddai'r Celtiaid wedi gwrandao arnyn nhw o gwmpas y tân yng Nghastell Henllys, o bosib. Dilyniir hyn gydag ymgais Crad a Ffion i baratoi pryd o fwyd yn y Pod-antur Cymraeg. Ar ôl iddyn nhw fethu, maen nhw'n cael eu cludo i siop fara a marchnad, lle maen nhw'n prynu bwydydd amrywiol.
- Uned 3: Mae Crad a Ffion yn profi goleuni, tywyllwch a chysgodion yn y Pod-antur Cymraeg. Maen nhw hefyd yn trafod cynhesrwydd ac oerni ac mae Crad yn cael ei gludo i'r Cylch Arctig ble mae'n cwrdd â phobl yr Inuit. Wrth i Ffion golli cysylltiad ag e, mae hi'n treulio'i hamser yn gwneud darn o waith celf sy'n darlunio **Golau'r Gogledd** (neu'r Aurora Borealis). Pan mae Crad yn dychwelyd, mae'n dangos i Ffion sut i chwarae rhai o gemau'r Inuit.
- Uned 4: Gellir defnyddio'r uned hon adeg Gŵyl Dewi oherwydd gwelir Crad a Ffion yn paratoi i fynd i'r **Diwrnod o Hwyl a Sbri** ar Fawrth y cyntaf. Maen nhw'n penderfynu dathlu **Dydd Gŵyl Dewi** yn y Pod-antur Cymraeg ac yn cynllunio'r digwyddiad. Gan ddefnyddio'i sgiliau mathemategol, mae Ffion yn gwneud addurniadau ac mae Crad yn cael ei gludo i siop Gymraeg i brynu gwahanol eitemau Cymreig.
- Uned 5: Mae'r cymeriadau'n paratoi byrbrydau ac yn gwneud eitemau drwy ddefnyddio gwellt ond maen nhw'n teimlo'u bod nhw eisiau mynd allan. Maen nhw'n trefnu syrpreis ar gyfer ei gilydd. Mae Crad yn mynd â Ffion i'r cae pêl-droed ac mae Ffion yn mynd â Crad i'r pwl nofio.
- Uned 6: Mae'r ddau gymeriad yn teimlo ei bod hi'n bryd iddyn nhw ddychwelyd adref. Mae Sgrin yn dweud wrthyn nhw fod rhaid cwblhau tasg cyn y gallan nhw adael. Maen nhw'n dod ar draws môr-ladron ond maen nhw'n dychwelyd i Gymru yn y diwedd.

Sylwer:

DYLID YMGYMRYD Â PHOB GWEITHGAREDD YN UNOL Â PHOLISIÂU'R YSGOL A'R RHEOLIADAU IECHYD A DIOGELWCH PERTHNASOL.

Deunyddiau Rhyngweithiol

Y stori

Yn y gêm ryngweithiol, mae Crad yn teithio drwy'r ffair, yr Arctig, y traeth ac yn ôl i'r Pod-antur Cymraeg. Wrth iddo deithio, mae'n rhaid iddo gwblhau'r gweithgareddau ac mae angen i'r disgyblion ei helpu.

Gêm ryngweithiol - cyfarwyddiadau

Cliciwch ddwywaith ar eicon y gêm ryngweithiol.

Cliciwch **Dechreuwch**.

Bydd cyfarwyddiadau'n ymddangos ar waelod y sgrin, e.e.

Taflwch y dis.

Symudwch.

Eiconau

Bydd sawl eicon i'w gweld ar fwrdd chwarae'r gêm:

- **Eicon y llong goch**

Bydd yr eicon hwn yn arwain at gêm ryngweithiol, e.e. **Saethwr Sydyn**, **Glanlwr y Gofod** neu **Troellwr y Twannel**.

Dyma sut mae eu chwarae:

Saethwr Sydyn

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **llygoden** i lywio'r Pod-antur Cymraeg drwy storm o asteroidau gan chwilio, yr un pryd, am greigiau gwyrdd sy'n cynnwys llythrennau sy'n sillafu gair. Os ydyn nhw'n sillafu'r gair yn llwyddiannus, bydd Crad yn symud ymlaen (yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair a sillafwyd). Fodd bynnag, os yw'r Pod-antur Cymraeg yn taro asteroid, mae'r gêm yn dod i ben ac mae Crad yn symud yn ôl (ar sail nifer y llythrennau).

Glanlwr y Gofod

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lanio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel a thrwy hynny gwblhau gair. Bydd glanio'n rhy gyflym, neu ar ongl wael, yn crasio'r Pod-antur Cymraeg ac felly bydd y gêm yn dod i ben. Bydd cwblhau'r gêm yn llwyddiannus yn golygu bod Crad yn cael symud ymlaen yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair. Bydd peidio â chwblhau'r gêm yn symud Crad yn ôl yr un nifer o sgwariau.

Troellwr y Twannel

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy'r ogof arallfydol. Rhaid iddyn nhw geisio osgoi cyffwrdd ag ochrau'r ogof a chasglu'r swigod sy'n cynnwys llythrennau. Os yw'r Pod-antur Cymraeg yn crasio, daw'r gêm i ben a bydd Crad yn symud yn ôl. Bydd nifer y sgwariau mae'n symud yn cyfateb i nifer y llythrennau sydd yn y gair mae'n ceisio'i sillafu. Bydd e'n symud ymlaen yr un nifer o gamau os ydy e'n casglu digon o swigod i sillafu gair.

- **Cardiau**

Dylai'r disgyblion glicio ar **Dangoswch** i gael gweld ydyn nhw'n cael symud ymlaen neu'n ôl.

- **Gweithgaredd - melyn**

Mae'r gweithgaredd hwn yn profi gwybodaeth am y ffilm. Caiff cwestiwn ei ddarllen yn uchel ac ar ôl i'r ateb gael ei anfon, bydd adborth uniongyrchol ar gael.

Mewn rhai gweithgareddau, bydd rhaid i'r disgyblion gwblhau gweithgareddau ar ddwy neu dair sgrin. Pan fydd hyn yn digwydd, byddan nhw'n derbyn y cyfarwyddyd **Cliciwch ar y sgrin i symud ymlaen**. Caiff y geiriau hyn eu darllen yn uchel hefyd.

Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn anghywir, bydd Crad yn symud un sgwâr yn ôl. Os yw'r cwestiwn yn cael ei ateb yn gywir, bydd Crad yn symud un sgwâr ymlaen.

Er mwyn dychwelyd i'r prif fwrdd chwarae, dylai'r disgyblion glicio ar **'Nôl i'r gêm**.

Sylwer: Mae'r tasgau yn cyfeirio at unedau ar y DVD, e.e. gofynnir i'r disgyblion glicio ar **Cywir** neu **Anghywir** ar ôl darllen y frawddeg hon:

Mae Ffion a Crad yn mynd i mewn i'r tŷ crwn.

**Cywir
Anghywir**

Mae'r frawddeg hon yn cyfeirio at y ffaith eu bod nhw'n mynd i mewn i'r tŷ crwn yn Uned 2 ar y DVD.

- **Rhifau Positif a Negatif**

Os yw disgybl yn glanio ar sgwâr sy'n cynnwys rhif negatif neu positif, rhaid iddo symud yn ôl neu ymlaen, yn dibynnu ar y rhif a ddangosir ar y sgwâr.

- **Marc cwestiwn**

Bydd glanio ar farc cwestiwn yn golygu bod modd gofyn i'r disgyblion ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.

- **Sgwâr gwag**

Os ydy'r disgybl yn glanio ar sgwâr gwag, dylai rolïo'r dis unwaith eto.

Pryd i chwarae

Mae'r bwrdd chwarae wedi'i rannu'n dair rhan ac mae pob rhan yn gysylltiedig ag unedau penodol:

- Y ffair (unedau 1 a 2)
- Yr Arctig (unedau 3 a 4)
- Y traeth (unedau 5 a 6)

Gellid chwarae'r gêm ar ôl i'r disgyblion gwblhau'r ddwy uned berthnasol, neu gallen nhw chwarae rhan o'r gêm ar ddiwedd pob uned. Gellid chwarae'r tair rhan ar ôl i'r disgyblion gyrraedd diwedd Uned 6.

YR WYDDOR GYMRAEG

a	b	c	ch
d	dd	e	f
ff	g	ng	h
i	j	l	ll
m	n	o	p
ph	r	rh	s
t	th	u	w
y			

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Mae'r grid yn dangos sut mae'r unedau'n berthnasol i feysydd eraill yn y cwricwlwm. Ceir mwy o fanylion yn y canllawiau ar gyfer unedau unigol.

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
Celf a dylunio	• cynhyrchu darn o waith celf sy'n darlunio ffair / parc • cynhyrchu darn o waith celf sy'n darlunio cawr • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• darlunio golygfeydd o Culhwch ac Olwen • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• cysgod a thôn – tywyll a golau • darlunio Golau'r Gogledd gan ddefnyddio gwahanol ddulliau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion • astudio a chopio celf Inuit	• cynhyrchu darn o waith celf sy'n darlunio golygfa yn hanes Dewi Sant • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• tynnu lluniau a phatrymau hir a byr gan ddefnyddio gwahanol dechnegau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• dylunio a chreu gwaith celf sy'n gysylltiedig â môr-ladron ac â chwedl Madog, e.e. golygfeydd cyferbyniol – llong ar fôr tawel / môr stormus • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion
Dylunio a thechnoleg	• dylunio a gwneud model o bentref Celtaidd / tŷ crwn • ymgymryd â gweithgareddau gwehyddu • gwerthuso'u gwaith	• dylunio baneri, gwahoddiadau gan ddefnyddio meddalwedd addas • "cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol" e.e. salad pasta, pizza, bara, brechdanau • "rhoi negeseuon cyfredol ynghylch bwyta'n iach ar waith ... wrth ymgymryd â thasgau paratoi bwyd" • gwerthuso'u gwaith	• dylunio a gwneud pypedau ffon • dylunio a gwneud arteffactau sy'n gysylltiedig â'r Inuit, e.e. iglw, masg, slediau ac ati. • gwerthuso'u gwaith	• dylunio gwahoddiadau, baneri, cardiau - Dydd Gŵyl Dewi gan ddefnyddio meddalwedd addas • "cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol" • "rhoi negeseuon cyfredol ynghylch bwyta'n iach ar waith ... wrth ymgymryd â thasgau paratoi bwyd" • gwerthuso'u gwaith	• dylunio a chreu gwrthrychau gan ddefnyddio defnyddiau / dulliau o'u dewis, e.e. roced, ffrâm wedi'i gwneud o wellt • gwerthuso'u gwaith	• dylunio a chreu model o long • dylunio a chreu llyfr lloffion • gwerthuso'u gwaith

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
Saesneg	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau	• chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau
Daearyddiaeth	• astudiaeth o Landudno / Caerdydd a'r ardal leol • canfod a lleoli lleoedd ar glôb, atlas, map • defnyddio TGCh i ddarganfod a chyflwyno gwybodaeth • dilyn cyfarwyddiadau ar fap		• astudiaeth o'r Arctig / bywyd yn yr Arctig • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati	• canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati., e.e. lleoedd sy'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi – Paris, Gogledd America ac ati	• canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati, e.e. Gogledd America a'r Eidal	• adolygu'r gwaith a wnaethpwyd ar eu hardal yn uned 1, gan arwain at astudiaeth o'r ardal leol • darllen map syml • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati, e.e. Gogledd America • creu map
Hanes	• y Celtiaid • canfod y gwahaniaethau rhwng gwahanol ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau • gofyn ac ateb gwahanol gwestiynau perthnasol	• y cyfnod Celtaidd		• Bywyd Dewi Sant, agweddau ar fywyd mynachaid		• Barti Ddu – y môr-leidr enwog o Gymru

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
TGCh	• “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir,” e.e. gwybodaeth am Affrica a Chaerdydd • cynhyrchu darnau ysgrifenedig • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. i ffilmio'r ardal ac ati.	• dylunio baneri, gwahoddiadau, gan ddefnyddio meddalwedd addas • “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir” • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. ffilmio paratoi bwyd a gwneud cyflwyniad PowerPoint	• “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir” • cyflwyniad PowerPoint • chwilio am luniau • uwchlwytho gwybodaeth, e.e. dillad sy'n addas ar gyfer tywydd oer	• dylunio gwahoddiadau, baneri, cardiau Dydd Gŵyl Dewi gan ddefnyddio meddalwedd addas • “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir” • cynhyrchu taflen gan ddefnyddio meddalwedd addas	• “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir” • cyflwyniad PowerPoint	• “darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir” • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. ffilmio'r fersiwn newydd o chwedl Madog • creu bwrdd stori yn darlunio chwedl Madog
Mathemateg	• cyfrifo prisiau a gweithio gydag arian • dylunio a defnyddio holiaduron • creu graffiau • defnyddio cyfesurynnau i bennu lleoliad • ymchwilio i a dylunio patrymau Celtaidd	• cyfrifo prisiau a gweithio gydag arian	• mesur tymheredd - graddau • rhifau negatif • adio a thynnu • defnyddio cyfesurynnau i benodi lleoliad	• gwneud baneri bach drwy ddefnyddio “cymesuredd adlewyrchiad a chymesuredd cylchdro siapiau 2-D” • gweithio gydag arian • cyfrifo prisiau gwahanol eitemau mewn siop Gymraeg	• mesur a defnyddio mesuriadau addas: centimetr, metr • amcangyfrif mesuriadau • trosi unedau metrig o un i'r llall • cofnodi data • dewis mesuriadau amser addas	• siapiau geometrig - triongl, cylch, hanner cylch, pentagon, petryal • gweithio gydag arian • adio

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
Cerddoriaeth	• gwrando ar / gwerthfawrogi cerddoriaeth werin / Geltaidd	• cyfansoddi darn o gerddoriaeth i gyd-fynd â gwahanol olygfeydd yn Culhwch ac Olwen • gwerthuso'r gerddoriaeth hon • perfformio caneuon Cymraeg	• astudio cerddoriaeth ac offerynnau cerdd yr Inuit a chyfansoddi darn o gerddoriaeth wedi'i seilio ar ddrymio'r Inuit	• dysgu a pherfformio caneuon Cymraeg a gwerthfawrogi cerddoriaeth Gymraeg a Chymreig		• cyfansoddi cerddoriaeth i bortreadu llanw a thrai'r môr
Addysg gorfforol	• cynllunio / perfformio symudiadau sy'n cyfleu reidiau'r ffair, gan alluogi'r disgyblion i "gydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud" • sgiliau taflu	• "cydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud" – yn Culhwch ac Olwen	• dylunio symudiadau i gyfeiriad penodol • gemau'r Inuit • cyfle i ddysgu am ddawnsfeydd yr Inuit a'u perfformio	• cymryd rhan mewn rasys a gweithgareddau athletaidd amrywiol sy'n gysylltiedig â Diwrnod o Hwyl a Sbri • gemau parasiwt • dawnsio gwerin Cymreig	• sgiliau taflu • sgiliau pêl-droed • ymweliad â'r pwll nofio	• dawnsio: portreadu llanw a thrai'r môr gan sicrhau "amrywiadau mewn rhythm, cyflymder, siâp, lefel, cyfeiriad a llwybrau; cyfuno a chysylltu gweithgareddau; perthnasoedd â phartneriaid, cynulleidfa ... neu symbyliad"
Addysg grefyddol		• cyfle i astudio priodasau • dathliad teuluol sy'n gysylltiedig â chrefydd		• siarad am ddathliadau • darllen a dysgu am Dewi Sant		

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
Gwyddoniaeth	• sylweddoli "cyd-ddibyniaeth organebau byw" - sut mae dyn wedi gwneud defnydd o anifeiliaid (gan gyfeirio'n benodol at y Celtiaid) • sut mae planhigion yn tyfu	• yr angen am amrywiaeth o fwyd	• tywyllwch a goleuni / cysgodion • oerni a chynhesrwydd • yr haul fel ffynhonnell goleuni • llygaid – golau a diffyg golau • arbrawf i ddangos bod modd dadwneud newidiadau • sut mae rhai anifeiliaid yn addasu i oerni		• chwilio am wybodaeth am anifeiliaid (e.e. nadroedd, crocodeilod)	• adolygu diet iach / cytbwys • gwneud ymchwil i blanhigion ac anifeiliaid o wahanol gynefinoedd, e.e. ar y traeth • sylweddoli "sut y mae bodau dynol yn effeithio ar yr amgylchedd lleol, e.e. sbwriel"
Cymraeg Ail Iaith	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi barn; gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau ac ati. • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau, trafod gwybodaeth am y Cylch Arctig a'r Inuit • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol.	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi profiadau personol; chwarae rôl • Darllen: darllen amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau, e.e. stori, llyfr ffeithiol, taflenni ac ati	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; mynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus; chwarae rôl • Darllen: darllen amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau, e.e. stori, llyfr ffeithiol, taflenni ac ati	• nifer o weithgareddau sy'n datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: edrych, gwrandio ac ymateb i ddeunydd clywedol; mynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus; chwarae rôl • Darllen: darllen amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau e.e. stori, llyfr ffeithiol, taflenni ac ati

	Uned 1 Bobl bach! Y llais Teithio Castell Henllys Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Hen, hen stori Dw i eisiau bwyd. Bara arbennig Yn y farchnad Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Tywyll a golau Cynnes ac oer Mynd i'r Arctig Bobl bach! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Addurniadau Hwyl a sbri Dewi Sant Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Hir a byr Hetiau Syrpreis Syrpreis arall Ydych chi'n cofio?	Unit 6 Dw i eisiau mynd adre. Môr-ladron Ar y traeth Madog Mynd adre
Cymraeg Ail Iaith (parhad)	• Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. cyflwyno gwybodaeth, ysgrifennu am brofiad personol, posterï ac ati.	• Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ysgrifennu creadigol a ffeithiol, e.e. gwahoddiadau, posterï, negeseuon e-bost, llythyrau, stori ac ati.	• Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. negeseuon e-bost, dyddiadur, ysgrifennu ffeithiol, ysgrifennu disgrifiadol ac ati.	• Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. negeseuon e-bost, gwahoddiadau, ysgrifennu creadigol ac ati.	• Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig ac at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ysgrifennu ffeithiol, deialogau, dyddiaduron, llythyrau, negeseuon e-bost ac ati	• Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. cardiau post, gwahoddiadau, posterï, llyfr lloffion ac ati.

Uned 1

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Rhoddir cyfle i'r disgyblion wrando ar wahanol bobl yn siarad Cymraeg. Fe'u hanogir i ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd amrywiol ac i fynegi barn. Rhoddir cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl yn ogystal.

Anogir y disgyblion i ymateb i wahanol ddeunyddiau darllen. Rhestrir cwestiynau cyffredinol y gellir eu defnyddio mewn gwaith pâr / gwaith grŵp neu gwestiynau y gall athrawon eu gofyn yn y ddogfen **Patrymau Iaith Pa-C₁**. Yn ogystal, mae cwestiynau sy'n berthnasol i bob llyfr i'w gweld yng nghefn y llyfrau.

Mae cyfleoedd i'r disgyblion gasglu gwybodaeth o'r deunyddiau darllen ac i ymateb mewn modd priodol, e.e. drwy drafod yr atyniadau sydd yn Llandudno a Chaerdydd a thrwy ddychmygu mai nhw ydy Cai mewn sesiwn cadair goch.

Mae cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, proffiliau, disgrifiadau personol cryno a gwybodaeth ar gyfer poster ac i gadw cofnod o'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu yn ystod gweithgareddau ymchwilio, e.e. ymchwilio i fywyd yn Affrica.

Saesneg

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth am fywyd yn Affrica, am yr atyniadau yng Nghaerdydd ac am yr anheddiad Celtaidd yng Nghastell Henllys. Bydd llawer o'r gwaith yma'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Saesneg, o bosib. Gellid cofnodi rhai ffeithiau syml yn Gymraeg a gellir cofnodi gwybodaeth fanwl yn Saesneg.

Yn ogystal, mae rhan olaf yr uned hon (Uned 1, Rhan 5), sy'n adolygu'r gwaith a wnaethpwyd mewn rhannau blaenorol, yn annog y disgyblion i feddwl sut y gall y cymeriadau ar y DVD, eu cyfoedion a nhw eu hunain wella'u perfformiad yn y Gymraeg. Mae'n debygol mai yn Saesneg y bydd y drafodaeth hon yn digwydd.

Mathemateg

Yn y ffair, mae Crad yn prynu ci poeth sy'n costio dwy bunt. Gallai hyn arwain at adolygu ymadroddion Cymraeg sy'n gysylltiedig ag arian, e.e.

punt

dwy bunt

tair punt

pedair punt

pum punt

Gellid adolygu'r ymadroddion sy'n gysylltiedig â cheiniogau hefyd e.e.

deg ceiniog

dau ddeg ceiniog

tri deg ceiniog

pedwar deg ceiniog

pum deg ceiniog

chwe deg ceiniog

saith deg ceiniog

wyth deg ceiniog

naw deg ceiniog

Gallech chi ofyn cwestiynau fel:

Mae ci poeth yn costio dwy bunt.

Faint ydy dau gi poeth?

Faint ydy pedwar ci poeth?

a.y.b.

Mae dau o'r cardiau darllen yn gofyn i'r disgyblion weithio mewn parau wrth iddyn nhw ddefnyddio cyfesurynnau i chwilio am adeiladau a lleoedd penodol yn Llandudno a Chaerdydd.

Mae cyfleoedd i fesur amser, e.e. wrth amseru gweithgareddau amrywiol a chofnodi pa mor hir y gall aelodau o'r grŵp siarad am bwnc penodol:

pedwar deg eiliad

munud a dau ddeg eiliad

a.y.b.

Y geiriau allweddol yn y cyd-destun yma yw **eiliad** a **munud**.

Mae cyfleoedd i wneud a defnyddio holiaduron, e.e. wrth siarad am ddiddordebau ac wrth ddarganfod faint o'r dosbarth sy'n hoffi llysiau penodol. Gallai'r disgyblion lunio graff i ddangos eu canfyddiadau a gallen nhw eu hegluro ar lafar neu'n ysgrifenedig:

Mae deg yn hoffi ...

Mae chwech yn hoffi ...

Ar ôl gwylio'r clip o Crad a Ffion yn ymweld â Chastell Henllys ac ymgymryd â'r gweithgareddau sydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn (Uned 1, Rhan 4), gallai'r disgyblion wneud patrymau Celtaidd a fyddai'n golygu mesur, tynnu llinellau a gwneud siapiau a phatrymau penodol.

Gwyddoniaeth

Gellid ymgymryd â nifer o weithgareddau wrth i'r disgyblion ddysgu am Gastell Henllys (Uned 1, Rhan 4). Mae'r llyfr **Cai**, er enghraifft, yn egluro sut byddai'r Celtiaid yn defnyddio'u hanifeiliaid a gellid annog y disgyblion i feddwl pam byddai moch, gwartheg, defaid, gwenyn, ieir a gwyddau wedi bod yn ddefnyddiol i'r Celtiaid.

Yn ogystal, mae cyfeiriadau at ardd Geltaidd - mae mefus a pherlysiâu yn tyfu yn yr ardd ar y ffilm.

Gellid gofyn i'r disgyblion pa lysiau eraill roedd y Celtiaid yn eu tyfu - **Pa lysiau?** Gellid rhoi cyfle iddyn nhw dyfu'r llysiau hyn mewn gardd yn yr ysgol. Byddai hyn yn arwain at ystyried sut mae planhigion yn tyfu, beth yw eu hanghenion ac ati.

Daearyddiaeth

Wrth i Crad deithio, mae sawl cyfeiriad at wahanol nodweddion daearyddol e.e. **y môr, mynyddoedd, coed**. Gwelir hyn yn y gwaith sy'n gysylltiedig â Chastell Henllys hefyd, e.e. **bryn, afon, llwybr, cae, castell, pentref**.

Anogir y disgyblion i sylwi ar nodweddion sy'n gysylltiedig â mannau penodol wrth i Crad ddisgrifio Llandudno ac wrth i Ffion ddisgrifio Caerdydd. Maen nhw hefyd yn cyfeirio at y ffaith fod Llandudno **yn y gogledd** a bod Caerdydd **yn y de**. Yn Rhan 5, anogir y disgyblion i sylwi ar nodweddion yn eu hardal leol ac i siarad ac ysgrifennu'n syml amdany'n nhw. Gallen nhw gynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo'r ardal, e.e. taflen, poster neu sgript ar gyfer clip fideo a allai gael ei ffilmio a'i ddangos i weddill y dosbarth / ysgol. Gallen nhw lunio mapiau syml fel rhan o'r gwaith yma.

Gallai eu ffilm gynnwys ymadroddion fel:

Dyma ...

Mae ... yn y de / gogledd / gorllewin / dwyrain.

Dyma'r ...

Edrychwch ar y ...

Mae'n hardd.

Mae'n ffantastig.

Mae'n wych / grêt.

Mae cyfleoedd i ddefnyddio cyfesurynnau syml ar fap.

Cyflwynir peth gwybodaeth am Affrica. Gallech chi ofyn i'r disgyblion wneud ymchwil pellach er mwyn casglu gwybodaeth am y cyfandir. Gallen nhw ddod o hyd i'r cyfandir ar fap a dangos taith o Gymru i Affrica, gan gofnodi pa wledydd y byddai'n rhaid teithio drwyddyn nhw ar y ffordd.

Hanes

Yn yr uned hon, mae sawl cyfle i gyflwyno / atgyfnerthu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Celtiaid a'r Oes Haearn wrth i Crad a Ffion ymweld â Chastell Henllys, anheddiad o'r Oes Haearn yn Sir Benfro. Mae'r agweddau canlynol ar y bywyd Celtaidd yn cael eu cyfleu ar y ffilm:

- Mae'r pentref wedi'i osod yn strategol ar ben bryn.
- Mae gardd, lle maen nhw'n tyfu ffrwythau a pherlysiau.
- Mae'r bobl yn cadw anifeiliaid, fel moch.
- Maen nhw'n byw mewn tai crwn.
- Gwelir y tu mewn i dŷ crwn.

Mae'r llyfr **Cai** yn atgyfnerthu'r gwaith am ei fod yn rhoi darlun o fywyd yn ystod y cyfnod hwn, e.e.

- yr anheddiad ar ben y bryn
- y tai crwn
- tu mewn i dŷ crwn
- y bwyd
- tyfu bwyd a magu anifeiliaid
- cwrwgl
- eistedd o gwmpas y tân i wrando ar stori.

Celf a dylunio

Gellid defnyddio Cymraeg ar gyfer cyfathrebu yn ystod sesiynau celf a dylunio a cheir rhestr o eirfa a phatrymau iaith perthnasol yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₁**.

Yn yr uned hon, gallai'r disgyblion ddewis deunyddiau addas ar gyfer gwneud collage o'r parc neu'r ffair a gallen nhw ymchwilio a gwneud patrymau Celtaidd. Byddai'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio deunyddiau, offer a thechnegau addas yn ogystal â disgrifio beth maen nhw'n ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl cwblhau'r gwaith, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion. Gweler **Patrymau Iaith P-aC₁** am eirfa a phatrymau iaith perthnasol.

Addysg gorfforol

Gellid annog y disgyblion i symud fel gwahanol reidiau yn y ffair, e.e. y *roller coaster*, y ceffylau bach, y trên bach / trên sgrech a.y.b. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion feddwl am symudiadau a'u cynllunio, gan ddatblygu syniadau a strategaethau, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer "cydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud."

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth i gyfleu hwyl a symudiadau yn y ffair neu gerddoriaeth i gyd-fynd â gwahanol reidiau yn y ffair, e.e. y *roller coaster* yn codi ac yn disgyn, awyrgylch iasol y trên sgrech ac ati.

Ar ôl gwylio Rhan 4, gellid astudio cerddoriaeth werin Gymraeg neu gerddoriaeth Geltaidd o unrhyw un o'r gwledydd Celtaidd a gellid gofyn i'r disgyblion fynegi eu barn. Gallen nhw ganu caneuon gwerin Cymraeg a gellid gofyn i offerynwyr yn y dosbarth chwarae alawon gwerin syml.

TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth am Affrica, Caerdydd a Chastell Henllys ynghyd â lluniau a mapiau addas. Gellid eu hannog i ddefnyddio meddalwedd addas i gyflwyno'u gwaith.

Gallai'r disgyblion ddefnyddio camera fideo i ffilmio'u hardal neu i recordio'r gwaith llafar yn y dosbarth, e.e. gwaith grŵp.

Dylunio a thechnoleg

Yn Rhan 4, gellid tynnu sylw at y basgedi sydd tu mewn i'r tai crwn a gallai'r disgyblion ymgymryd â gweithgareddau gwehyddu. Gallen nhw ddylunio a gwneud model o dŷ crwn Celtaidd, neu bentref Celtaidd, neu emwaith Celtaidd, e.e. broetsh Geltaidd.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r uned hon yn annog y disgyblion i chwilio am wybodaeth er mwyn dysgu mwy am fywyd mewn rhannau eraill o'r byd, fel Affrica.

Os yw'n briodol, gallen nhw gymharu eu bywyd nhw gyda bywyd yn Affrica, gan ganolbwyntio ar fwyd, dillad, cartrefi, ysgolion, traddodiadau, caneuon ac anifeiliaid a.y.b.:

Dw i'n bwyta Mae pobl yn Affrica yn bwyta ...

Dw i'n gwisgo ... Mae pobl yn Affrica yn gwisgo ...

Gweler **Cerdyn Siarad 6** yn ogystal.

Cwricwlwm Cymreig

Mae'r uned hon yn mynd i'r afael â'r **Cwricwlwm Cymreig**, nid yn unig drwy ddatblygu sgiliau iaith y disgyblion ond hefyd drwy ganolbwyntio ar Gaerdydd a Llandudno. Mae'r adran sy'n canolbwyntio ar Gastell Henllys hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr am ein treftadaeth ac yn rhoi cyfle i astudio diwylliant Celtaidd a Chymreig, e.e. patrymau Celtaidd, cerddoriaeth werin, straeon hynafol.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith, patrymau a geirfa sydd wedi'u cyflwyno eisoes, gan sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Trwy gydol yr uned, rhoddir cyfle i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth a ddysgwyd eisoes. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. astudiaeth o'u hardal leol / deunyddiau i hyrwyddo'u hardal) a gofynnir iddyn nhw ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eu cyfoedion, i werthuso llwyddiant ac i ystyried sut i wella'r gwaith (e.e. yn yr uned adolygu).

Gofynnir iddyn nhw ystyried cliwiau (e.e. wrth i Crad deithio o Gymru i Affrica), dod i gasgliad a ffurfio a datblygu barn.

Datblygu cyfathrebu

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Mae nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac i ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a'i chyflwyno mewn ffordd briodol, gan ddefnyddio meddalwedd addas. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ffilmio'r ardal, recordio gwaith grŵp. Dylid eu hannog i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer drafftio ac ail-ddrafftio gwaith ysgrifenedig.

Datblygu rhif

Yn yr uned hon, bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif drwy ddefnyddio rhifolion, mesur amser, casglu gwybodaeth mewn amryw ffyrdd gan gynnwys holiaduron a chyflwyno data ar ffurf briodol.

Uned 1: Rhan 1 - Bobl bach!

Nodau

- Adolygu cyfarchion a chyflwyno'u hunain
- Adolygu mynegi barn, e.e. **Blasus!; Mae'n hwyl.; Mae'n hyfryd.; Mae'n wych.; Mae'n ffantastig.**
- Siarad am yr amgylchedd lleol. Adolygir geiriau sy'n gysylltiedig â'r parc a chyflwynir geiriau newydd sy'n gysylltiedig â'r ffair. Yn ogystal, bydd y disgyblion yn gyfarwydd â'r cwestiynau **Ble? a Ble wyt ti? / Ble ydych chi?** eisoes, ond nawr cyflwynir cwestiwn newydd, sef **Ble ydyn ni?**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Ble ydyn ni? Bois bach!	ffair ceffylau bach ceir bach reid arogli ci poeth byrgyr sos coch blasus tawel

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Mae'n bosib bod y patrymau iaith canlynol wedi cael eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? ... ydw i. Beth nesa? Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Dw i ddim yn gwybod. Ble? Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Ble mae'r ...? Hoffi Dw i'n hoffi ... Wyt ti'n hoffi'r parc? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi'r parc? Ydyn. / Nac ydyn. Eisiau Dw i eisiau rhedeg. Arall Bobl bach! Mawredd mawr! Mae'n hwyl. Gorchmynion Edrychwch. Edrycha.	punt cwningen parc cerdded rhedeg cadw'n heini darllen cael picnic coed blodau llyn siglen ffrâm ddringo

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?

Dw i ddim yn gwybod.

Bobl bach! / Mawredd mawr! / Bois bach!

Barod? Barod!

Edrycha.; Edrychwch.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Bobl bach!** (Uned 1, Rhan 1) yn ei chyfanrwydd a gofynnwch am farn y disgyblion, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Er mwyn annog y disgyblion i fynegi barn, gofynnwch **Pam?**:

Dw i'n hoffi'r DVD.

Pam?

Mae'n dda.

Mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi Crad.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Pam?

Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi Crad.

- Canolbwyntiwch ar ddechrau'r rhaglen drwy dynnu sylw at y patrwm:

... ydw i.

Adolygwch y cwestiynau a'r atebion canlynol:

Pwy wyt ti?

[Os yw'r disgyblion wedi dysgu **Beth ydy dy enw di?** eisoes, dylid defnyddio'r ffurf honno hefyd.]

... ydw i.

Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yn ...

Wyt ti'n hoffi byw yn ...?

Ydw. / Nac ydw.

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 1:**

Mae bachgen / merch newydd yn y dosbarth.

Dylai un ohonyn nhw chwarae rôl y bachgen neu'r ferch newydd. Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir uchod, dylen nhw geisio darganfod cymaint â phosib am ei gilydd. Os yw'n briodol, dylen nhw ymestyn y sgwrs drwy ddefnyddio geirfa a phatrymau maen nhw wedi'u dysgu o'r blaen.

- Dylid ail-ddangos y rhan sy'n dangos y ffair a gallech chi ofyn i'r disgyblion:

Wyt ti'n hoffi'r ffair?

Tynnwch sylw at yr eirfa:

ffair

ceffylau bach

ceir bach

reid

roller coaster

trên bach

ci poeth

byrgyr

Yn eu tro, gallai'r disgyblion ddychmygu mai Crad ydyn nhw a gallen nhw eistedd yn **y gadair goch**. Gallai'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau megis:

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti?

Wyt ti'n hoffi'r ceffylau bach?

Wyt ti'n hoffi'r ceir bach?

Wyt ti'n hoffi'r roller coaster?

Wyt ti'n hoffi'r trê'n bach?

Wyt ti'n hoffi'r ci poeth?

Wyt ti eisiau byrgyr?

- Gallai'r disgyblion chwarae rôl Crad yn prynu ci poeth:

Un ci poeth os gwelwch yn dda.

Ga i un ci poeth os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau un ci poeth os gwelwch yn dda.

Dyma chi ... dwy bunt / tair punt.

Diolch.

Gallen nhw feddwl am gwestiynau ychwanegol i'w gofyn, e.e.

Wyt ti eisiau sos coch?

Wyt ti eisiau sos brown?

Wyt ti eisiau winwns / nionod?

Gallen nhw brynu **byrgyrs** a newid y nifer maen nhw'n ei brynu. Drwy wneud hynny, byddai'n rhaid iddyn nhw gyfrifo'r pris am fwy nag un ci poeth / byrgyr.

- Yna, gellid cyflwyno'r llyfr **Y Ffair** a gallai'r disgyblion fynegi'u barn yn syml, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r llyfr?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r llyfr. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos dw i'n hoffi'r stori.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r llyfr.

Dw i ddim yn hoffi'r llyfr achos dw i ddim yn hoffi'r stori.

Awgrymir gweithgareddau addas yng nghefn y llyfr.

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 2**:

Rydych chi yn y ffair.

Dylen nhw ddychmygu eu bod nhw yn y ffair a'u bod nhw'n cyfarfod â ffrind yno. Gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a gyflwynwyd yn yr uned hon, a chynt, dylen nhw gynnal sgwrs gyda'r ffrind yma, e.e.

Helo.

Sut wyt ti?

Da iawn, diolch.

Wyt ti'n hoffi'r ffair / ceir bach / ceffylau bach?

Ydw. / Nac ydw.

Wyt ti eisiau reid ar y ...?

Wyt ti eisiau mynd ar y ...?

Beth am fynd ar y ...?

Syniad da. / Na, dim diolch.

- Gallech chi annog y disgyblion i symud fel reidiau'r ffair mewn sesiwn addysg gorfforol:

Symudwch fel ceir bach

ceffylau bach

roller coaster

trê'n bach

Symudwch fel roller coaster - yn gyflym

yn araf

i fyny ac i lawr

rownd a rownd

- Dylid chwarae'r rhan sy'n dangos y parc eto.

Yna, gallech chi gynnal cystadleuaeth lle mae'n rhaid i'r disgyblion wneud rhestr o eiriau sy'n gysylltiedig â'r parc. Gallen nhw ddefnyddio'r geiriau a gyflwynir ar y ffilm ac unrhyw eiriau eraill sy'n gyfarwydd. Gweithgaredd meddwl ydy hwn oherwydd mae'n rhaid i'r disgyblion gofio geiriau maen nhw wedi eu dysgu yn y gorffennol. Os yw'n briodol gallai'r disgyblion ddarllen unwaith eto rai o'r llyfrau ym mhecynnau **Fflic a Fflac**, e.e. Pecyn 3, **Hwyl yn y parc yn y gwanwyn, Hwyl yn y parc yn yr haf, Hwyl yn y parc yn yr hydref, Hwyl yn y parc yn y gaeaf**.

Dyma rai o'r geiriau y gallai'r disgyblion fod yn gyfarwydd â nhw eisoes:

cerdded	llwybr
rhedeg	llwybr beicio
neidio	coed
beicio	blodau
sgipio	adar
cicio pêl	toiledau
padlo	siop
dringo	ffrâm ddringo
cael picnic	pwll padlo
neidio	si-so
darllen	siglen
bwytia hufen iâ	
taflu'r dail	
cicio'r dail	

chwarae
chwarae gêm
chwarae cuddio
chwarae tennis
chwarae gyda'r cwch
chwarae yn y tywod
chwarae gyda barcud
chwarae yn yr eira
chwarae gyda'r dail

Er mwyn ychwanegu elfen o hwyl, gellid cyflwyno'r gweithgaredd hwn fel cystadleuaeth:
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Ar ôl caniatáu digon o amser iddyn nhw ysgrifennu, gallech chi ofyn i'r grwpiau, **Sawl un?** a gallech chi annog y disgyblion i gyfrif nifer y geiriau / ymadroddion maen nhw wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg. Yna, gallai grwpiau ddweud wrth weddill y dosbarth faint yn union o eiriau ac ymadroddion sydd ganddyn nhw ar eu rhestri. Gofynnwch:

Pwy sy wedi ennill?

ac ar ôl cymharu'r niferoedd eto, eglurwch pwy sy wedi ennill:

Grŵp (Sam) sy wedi ennill.

Gallech chi ddilyn y drefn hon yn rheolaidd pan fydd angen i'r disgyblion ysgrifennu rhestri ac ati. Bydd hyn yn eu helpu nhw i ddysgu'r patrymau Cymraeg ac yn eu cynorthwyo i gyfathrebu mewn sefyllfa realistig yn y dosbarth.

- Yna, gallai'r disgyblion ddefnyddio rhai o'u geiriau a'u hymadroddion mewn gweithgaredd gofyn ac ateb cwestiynau, e.e. gallen nhw ofyn i'w partner:

A: **Wyt ti'n hoffi chwarae yn y tywod?**

B: **Ydw. Wyt ti'n hoffi cicio'r dail?**

A: **Nac ydw. Wyt ti'n hoffi rhedeg?**

B: **Ydw. Wyt ti'n hoffi cael picnic?**

a.y.b.

Gellid amseru'r disgyblion yn y gweithgaredd hwn er mwyn gweld pwy sy'n gallu siarad Cymraeg am yr amser hiraf. Gellid cofnodi'r amseroedd ar y bwrdd gwyn, e.e.

Tri deg eiliad.

Munud.

Munud a dau ddeg eiliad.

Dwy funud. / Dau funud.

Tair munud. / Tri munud.

- Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau iaith a'r eirfa, gallai'r disgyblion ysgrifennu deialog fer sydd wedi'i lleoli yn y ffair neu'r parc a thynnu lluniau addas i gyd-fynd â'r gwaith ysgrifenedig.
- Gallai'r disgyblion wneud *collage* i ddarlunio parc neu ffair. Mewn grwpiau, gallen nhw siarad am y gwaith, e.e.

Dw i eisiau gwneud ...

Dw i ddim eisiau gwneud ...

Beth am gael ceir bach yma?

Dw i'n peintio / gludo.

Byddai gofyn y cwestiwn **Pa liw?** yn rhoi cyfle gwerthfawr i adolygu'r lliwiau yn Gymraeg, gan gynnwys y geiriau **tywyll** a **golau**, e.e.

glas tywyll

glas golau

Pa liw ydy'r roller coaster?

Glas tywyll a glas golau.

Ar ôl cwblhau'r *collage*, dylai'r disgyblion edrych ar eu gwaith eu hunain a gwaith grwpiau eraill a'i werthuso. Gallech chi gyflwyno un neu fwy o'r patrymau iaith yma, fel y bo'n briodol:

Mae'r (lliwiau)'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r (gwyrd) tywyll yma.

Dw i'n hoffi'r (patrwm) yma.

Mae'r (patrwm) yma'n ardderchog.

Mae'r (siâp) yma'n dda.

Wyt ti'n hoffi'r ...?

Gellid cyflwyno'r gair **effeithiol**:

Mae'r lliwiau'n effeithiol.

Mae'r patrwm yn effeithiol.

Mae'r siapiau'n effeithiol iawn.

- Canolbwyntiwch ar ran olaf y ffilm a thrafodwch ble gallai Crad a Ffion fod:

Ble mae Crad a Ffion?

Yn y ffair.

Mewn spaceship. (spaceship = **llong ofod**)

- Er mwyn mynd dros gynnwys y ffilm eto, gellid cynnal cwis, e.e. Cyfeiriwch at un o'r pethau mae'r cymeriadau ar y ffilm yn hoffi'i wneud a gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu am bwy rydych chi'n sôn, e.e.

Pwy sy'n dweud ...?

"Dw i'n hoffi rhedeg."

"Dw i'n hoffi mynd ar y roller coaster."

"Dw i'n hoffi darllen."

Ateb: Ffion.

Ateb: Crad.

Ateb: Ffion.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion chwarae rôl gan ddynwared y sefyllfa ar y ffilm, e.e. maen nhw'n cerdded yn y ffair / parc / rhywle arall, ac yn siarad Cymraeg wrth iddyn nhw fynd. Yna maen nhw'n taro i mewn i rywbeth ac yn cael eu cipio i rywle arall.

Uned 1: Rhan 2 - Y llais

Nodau

- Siarad am deimladau, e.e. **teimlo'n nerfus; teimlo'n ofnus**
- Mynegi barn, e.e. **Mae'n grêt! / Mae'n wych!; Mae'n ffantastig!; Mae'n cwl!**
- Siarad am wahanol ardaloedd, e.e. **Beth sy yn ...?** Mae'n bosib bod y patrwm hwn wedi ei gyflwyno eisoes yn ystod y Cyfnod Sylfaen, e.e. **Beth sy yn y bag?; Beth sy yn y bocs?** ond yma mae'n cael ei drosglwyddo i gyd-destun daearyddol.
- Rhoi cyfleoedd i'r disgyblion barhau i siarad amdanyn nhw eu hunain, e.e. beth maen nhw'n hoffi / ddim yn hoffi; diddordebau. Mae'n siŵr y bydd **Beth wyt ti'n hoffi?** eisoes yn gyfarwydd i'r disgyblion ond yn yr uned hon mae'r cwestiwn yn cael ei ymestyn i **Beth wyt ti'n hoffi wneud?**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n teimlo'n nerfus. Dw i'n teimlo'n ofnus. Beth sy yn (+ enw lle)? Beth wyt ti'n hoffi wneud?	y Pod-antur antur traeth prom Ych a fi! Stadiwm y Mileniwm Canolfan y Mileniwm parciau

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? ... ydw i. Beth ydy hwn? Ble? Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Ble mae(r) ...? Hoffi Dw i'n hoffi ... Wyt ti'n hoffi byw yn ...? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg? Ydyn. / Nac ydyn. Arall Bobl bach! Mawredd mawr! Gorchmynion Edrychwch ar y Edrycha.	o dan hwyl hwyl a sbri teithio cadw'n heini ffair trên bach pwll nofio sinema siopau golff nofio

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrychwch ar y ...!

Dyma'r ...

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin gyda fi.

Ych a fi!

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm, **Y llais** (Uned 1, Rhan 2), hyd at y darn ble mae Sgrin yn rhoi gwybodaeth am Crad.
- Gallai'r disgyblion actio'r olygfa ble mae **Sgrin** yn galw ar Crad a Ffion wrth iddyn nhw guddio tu ôl i'r bwrdd ac wrth iddyn nhw ddod i adnabod ei qilydd:

Pwy wyt ti? ... ydw i
Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ...

Yna, gellid cyflwyno / adolygu'r cwestiwn hwn:
Beth wyt ti'n hoffi wneud? Dw i'n hoffi ...

Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu ateb, gellid adolygu geiriau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hamdden. Gellid gwneud hyn drwy alw i gof rhai o'r berfau sy'n gysylltiedig â'r parc, a gyflwynwyd yn y rhan flaenorol, a gofyn i'r disgyblion feimio berfau penodol (gellid rhoi'r rhain ar gardiau) e.e.

dawnsio
beicio
sgipio
canu
neidio

**darllen
peintio
bowlïo deg
mynd i'r ffair
gwneud jig-so**

Gallech chi gyflwyno geirfa newydd yn ôl yr angen, e.e. os bydd disgybl yn dweud yn Saesneg ei fod yn mwynhau gwylio'r teledu, yna gallech chi gyflwyno **gwylio'r teledu**.

- Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau uchod, gallai'r disgyblion greu a defnyddio holiaduron, e.e.

Enw:
Byw:
Hobi:
Enw:
Byw:
Hobi:
Enw:
Byw:
Hobi:

Ar ôl gofyn i aelodau'r dosbarth, gallai'r disgyblion drafod eu canfyddiadau a llunio graffiau i ddangos hoff hobiau'r disgyblion. Yna, gallen nhw egluro'r graffiau ar lafar ac yn ysgrifenedig:

Mae deg yn hoffi ...
Mae saith yn hoffi ...

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 3: Siaradwch am hobïau.**

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn, gallen nhw siarad am hobiau gan fynegi barn os yn bosib, e.e.

Mae'n grêt. / Mae'n wych.
Mae'n ffantastig.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.

Yn ogystal, gellid cyflwyno'r ymadrodd **Mae'n ddiflas**.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddefnyddio patrymau iaith a geirfa maen nhw wedi'u dysgu eisoes er mwyn ymestyn y sgwrs, e.e.

Ble wyt ti'n ...?
Yn ... / Yn y ...

Pryd wyt ti'n ...?
Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu proffil amdanyn nhw eu hunain a chynnwys gwybodaeth am:
 - pwy ydyn nhw
 - ble maen nhw'n byw
 - beth maen nhw'n hoffi ei wneud.

Gallen nhw gynnwys lluniau a ffotograffau pwrpasol.

- Gallai'r disgyblion chwarae gêm iaith a fyddai'n golygu ysgrifennu a darllen ar goedd. Gallen nhw ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain ar ddarnau o bapur heb enwi eu hunain. Yna, gallen nhw blygu'r darnau papur a'u gosod ar ganol y bwrdd. Yn eu tro, gallai pob disgybl ddewis un darn o bapur a darllen ar goedd yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu arno. Gallai'r disgyblion eraill geisio dyfalu pwy sydd wedi ysgrifennu'r darn.
- Canolbwyntiwrch ar y rhan ble mae Sgrin yn cyflwyno'r wybodaeth am Crad a ble mae e'n byw – Llandudno.

Cyflwynwch y cwestiwn: **Beth sy yn Llandudno?**

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth sydd yn Llandudno:
Ydych chi'n cofio?

Dangoswch y rhan briodol o'r ffilm eto a gofynnwch iddyn nhw ganolbwyntio ar beth sydd yn Llandudno.

Rhestrwch beth sydd i'w weld yno, e.e.

traeth
prom
ffair
trên bach
pwll nofio
golff
siopau

Gofynnwch i'r disgyblion:

Wyt ti'n hoffi mynd i'r traeth?
Wyt ti'n hoffi mynd i'r ffair?
Wyt ti'n hoffi mynd i'r pwll nofio?
Wyt ti'n hoffi mynd i'r siopau?
Ydw. / Nac ydw.

- Yna, dylid cyflwyno'r cerdyn darllen **Llandudno – mae'n grêt!**

Nod y cerdyn hwn yw annog cyfathrebu ar lafar ond, yn ogystal, mae'n annog y disgyblion i ganfod lleoedd ar fap ac i ddefnyddio cyfesurynnau syml.

Dylai'r disgyblion edrych ar y map a gofyn cwestiynau i'w gilydd mewn parau, e.e.

Ble mae'r sgïo?

Ble mae'r orsaf?

Ble mae'r llwybr beiciau?

Ble mae'r siopau?

Dylai'r disgyblion gyfeirio at y grid yn eu hatebion e.e.

Yn sgwâr ...

Gallen nhw ofyn:

Beth sy yn sgwâr ...?

Oes ... yn Llandudno? Ble?

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 4**, h.y.
Rydych chi'n mynd i Landudno.

Dylen nhw drafod beth sydd yn Llandudno a beth hoffai eu partner wneud yno. Dylen nhw ofyn cymaint o gwestiynau â phosib i'w gilydd:

Wyt ti eisiau mynd i'r traeth?

Ydw. / Nac ydw.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddefnyddio patrymau iaith a geirfa maen nhw wedi'u dysgu eisoes er mwyn ymestyn y sgwrs, e.e.

Wyt ti'n hoffi ...?

Beth am ...?

Syniad da.

- Canolbwyntiwrch ar y rhan ble mae Sgrin yn cyflwyno'r wybodaeth am Ffion a ble mae hi'n byw - Caerdydd.

Cyflwynwch y cwestiwn: **Beth sy yng Nghaerdydd?**

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth sydd yng Nghaerdydd:

Ydych chi'n cofio?

Dangoswch y rhan briodol o'r ffilm eto a gofynnwch iddyn nhw ganolbwyntio ar beth sydd yn y ddinas e.e.

Bae Caerdydd

Stadiwm y Mileniwm

Canolfan y Mileniwm

y castell

parciau

trên bach

pwll nofio

sinema

siopau

Yna, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd:

Wyt ti'n hoffi mynd i'r parc?

Wyt ti'n hoffi mynd i'r sinema?

Wyt ti'n hoffi mynd i'r siopau?

Ydw. / Nac ydw.

- Mewn parau, gallai'r disgyblion addasu'r senario ar **Cerdyn Siarad 4**:
Rydych chi'n mynd i Gaerdydd.

Gallen nhw drafod beth sydd yng Nghaerdydd a beth hoffai eu partner wneud yno. Dylen nhw ofyn cymaint o gwestiynau â phosib i'w gilydd:

Wyt ti eisiau mynd i'r parc?

Ydw. / Nac ydw.

Dylai'r disgyblion ddefnyddio patrymau iaith a geirfa maen nhw wedi'u dysgu eisoes er mwyn ymestyn y sgwrs, e.e.

Wyt ti'n hoffi ...?

Beth am ...?

Syniad da.

- Er mwyn mynd dros gynnwys y ffilm eto, gellid cynnal cwis, e.e.

Ble mae Crad yn byw?

Ateb: **Yn Llandudno.**

Ble mae Ffion yn byw?

Ateb: **Yng Nghaerdydd.**

Ble mae Sgrin yn byw?

Ateb: **Yn y Pod-antur**

Cymraeg.

Oes castell yn Llandudno?

Ateb: **Nac oes.**

Oes castell yng Nghaerdydd?

Ateb: **Oes.**

Beth sy yn Llandudno?

Ateb: **Traeth, prom, ac ati.**

- Gellid creu Pod-antur Cymraeg yng nghornel yr ystafell. Byddai hynny'n caniatáu i'r disgyblion actio gwahanol sefyllfaoedd sy'n codi yn y pecyn. Gallen nhw drafod beth maen nhw eisiau ei gynnwys yn y Pod-antur Cymraeg, e.e.

cyfrifiadur

sgrin

bwrdd

cadair

- Gan fod Crad a Ffion wedi cyflwyno'u hunain yn yr uned hon, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau sydd wedi eu cyflwyno / hatgyfnerthu ar y ffilm er mwyn creu poster **Pwy ydy Pwy.**

Ar ddarn o bapur, gallen nhw:

- gynnwys ffotograff / llun ohonyn nhw eu hunain

- ysgrifennu'n syml amdanyn nhw eu hunain, e.e.

... ydw i.

Dw i'n byw yn ...

Dw i'n hoffi byw yn ...?

Mae'n grêt / wych!

Mae'n ffantastig!

Dw i'n hoffi ...

Yna, gellid arddangos y darnau ysgrifenedig ar gefndir lliwgar a allai gynnwys lluniau sy'n gysylltiedig â'r ffair neu'r parc.

Uned 1: Rhan 3 - Teithio

Nodau

- Adolygu geiriau sy'n gysylltiedig â'r parc a'r ffair a chyflwyno / adolygu terminoleg fwy daearyddol, **môr**, **mynyddoedd**, **Affrica**. Cyflwynir y cwestiwn **Beth wyt ti'n gallu gweld?** hefyd.
- Defnyddio Cymraeg wrth ganfod lleoedd ar glôb, map neu mewn atlas
- Adolygu **Oes ...?**
- Cyflwyno / adolygu **Es i i ...** ac **Es i i'r ...**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth wyt ti'n gallu gweld? Dw i'n gallu gweld ... Wyt ti'n gallu gweld ...? Nefi wen! Dyna antur! Peidiwch dihuono / deffro Llŷr Fawr! Es i i ... / Es i i'r ...	yno teithio môr mynyddoedd pobl dod 'nôl smotyn coch doniol rhywle arall crib hawdd dyn deffro / dihuono

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Ble? Ble wyt ti? Ble mae'r ...? Ga i weld ...? Cei. / Na chei. Hoffi Dw i'n hoffi ... Eisiau Dw i eisiau gweld yr anifeiliaid. Wyt ti eisiau mynd? Ydw. / Nac ydw. Arall Bobl bach! Mawredd mawr! Mae'n braf. Mae'n boeth. Mae'n heulog. Dim ots! Es i i ... Es i i'r ... Gorchmynion Chwiliwch am y Edrycha ar y ...	trên bach sosejis byrgyrs ffair siglen ffrâm ddringo coed llyn parc eliffant sebra hipo rhino gwallt tacluso cysgu cawr mawr

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha ar y sgrin.; Edrychwch ar y sgrin.

Beth wyt ti'n gallu gweld?; Dw i'n gallu gweld ...

Ga i weld? Cei. / Na chei.

Ga i fynd?; Cei. / Na chei.

Gofynna i (Sam).

Helpa (Sam).

Wyt ti'n siŵr?

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Teithio** (Uned 1, Rhan 3) hyd at y rhan ble mae Crad yn dychwelyd i'r Podantur Cymraeg.

Sylwer: Wrth i Crad deithio, mae'n rhestru'r hyn mae'n gallu ei weld. Mae Ffion yn crynhoi ac yn gofyn **Ble mae Crad?** Dylid stopio'r DVD bob tro a dylid annog y disgyblion i ddyfalu ble mae e:

Ble mae Crad?

Beth ydy'r cliwiau?

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r stori.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi'r stori.

- Canolbwyntiwch ar y dechrau, ble mae Crad yn 'teithio'.

Mewn parau, gallai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 5:**

A: Rwyf ti'n teithio ... teithio ... teithio ...

B: Gofynna gwestiynau i dy bartner di.

Dylai **Partner A** ddychmygu ei fod e'n / ei bod hi'n teithio, yn union fel y mae Crad yn teithio ar y DVD. Dylai **Partner B** ofyn cwestiynau i geisio darganfod ble mae e / hi. Gallen nhw ddynwared sefyllfa debyg i'r un ar y DVD, ble mae Ffion yn colli cysylltiad â Crad wrth iddo deithio:

Beth wyt ti'n gallu gweld?

Dw i'n gallu gweld ... a ...

Os nad yw'r disgyblion yn gwybod y geiriau Cymraeg am yr hyn maen nhw'n ei weld, gallen nhw ddefnyddio geiriau Saesneg o fewn y patrwm Cymraeg.

Sylwer: Gallech chi drosglwyddo'r cwestiwn a'r ateb yma o'r sefyllfaoedd sydd ar y DVD a'r cerdyn siarad i unrhyw sefyllfa lle mae lluniau, mapiau, posterï a gwaith celf ac ati'n cael eu trafod yn y dosbarth.

- Gellid darllen y llyfr **Teithio** a gellid ymgymryd â'r gweithgareddau sydd wedi'u rhestru yng nghefn y llyfr.

- Canolbwyntiwrch eto ar y rhan ble mae Crad yn disgrifio'r hyn mae e'n ei weld yn Affrica. Gofynnwch i'r disgyblion restru'r hyn mae e'n weld. Tynnwch sylw at y gair newydd: **mynyddoedd**.

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i Affrica ar fap o'r byd / glôb.

- Anogwch y disgyblion i chwilio am wybodaeth sylfaenol am Affrica, e.e. anifeiliaid, dillad, bwyd, cartrefi ac ati, gan ddefnyddio llyfrau addas, y rhwyngwrd a.y.b. Gallen nhw ysgrifennu'n syml am yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod:
Mae pobl yn bwyta ...
Mae pobl yn gwisgo ...
Mae'r (eliffant) yn byw yn Affrica.

Os yw'n briodol, gallen nhw gymharu eu bywyd eu hunain gyda bywyd yn Affrica, e.e.

Dw i'n bwyta Mae pobl yn Affrica yn bwyta ...
Dw i'n gwisgo ... Mae pobl yn Affrica yn gwisgo ...

Gellid atgoffa'r disgyblion sydd wedi dilyn y gyfres **Fflic a Fflac** o antur Lyn ac Alys yn Affrica ble y bwyton nhw amrywiaeth o ffrwythau a gwelon nhw wahanol anifeiliaid (Pecyn 4, Uned 5).

- Mewn parau, gallai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 6**, h.y.
A: Rwy't ti'n dod o Gymru.
B: Rwy't ti'n dod o Affrica.
Siaradwch.

Gan ddefnyddio'r patrymau sydd wedi'u rhestru ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw batrymau eraill maen nhw'n eu gwybod, gallai'r disgyblion ddarganfod mwy am fywyd ei gilydd, beth sydd yn Affrica a beth sydd yng Nghymru.

- **Beth mae Crad yn gallu gweld?**
Er mwyn adolygu'r eirfa, gallai'r disgyblion lunio rhestr o'r pethau mae Crad yn eu gweld ar ei daith. Gellid gosod y gwaith yma fel cystadleuaeth – y grŵp sy'n meddwl am y nifer mwyaf o eiriau sy'n ennill.

- Canolbwyntiwrch ar y rhan olaf ble mae Crad a Ffion yn chwilio am grib a ble mae Sgrin yn dweud wrthyn nhw am fod yn ofalus iawn yng Nghastell Henllys oherwydd bod Llŷr Fawr, dyn anferth neu gawr mawr, yn cysgu yno a rhaid iddyn nhw beidio â'i ddeffro. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu Llŷr Fawr a thynnu llun ohono. Os ydyn nhw wedi dysgu'r geiriau Cymraeg am rannau'r corff, gallen nhw labelu ei gorff. Gallen nhw labelu ei ddillad hefyd, e.e.
pen mawr
trwyn mawr
llygaid mawr
ceg fawr
breichiau mawr
dwyllo mawr
coesau mawr
traed mawr
trowsus coch
crys du
esgidiau mawr brown
ac ati.

- Er mwyn crynhoi cynnwys y ffilm eto, gellid cynnal cwis, e.e.
Ble mae Crad yn teithio? Ateb: **i'r ffair, i'r parc, i Stadiwm y Mileniwm / Caerdydd, Lloegr, Paris / Ffrainc, Pisa / Yr Eidal, Affrica.**
Ble mae Ffion? Ateb: **Yn y Pod-antur Cymraeg.**
Ble mae Sgrin? Ateb: **Yn y Pod-antur Cymraeg.**
Oes crib yn y drôr? Ateb: **Nac oes.**
Oes crib yn y cwpwrdd? Ateb: **Nac oes.**

Uned 1: Rhan 4 - Castell Henllys

Nodau

- Cyflwyno / adolygu terminoleg ddaearyddol a hanesyddol, e.e. **bryn, pentref, afon, cae, Celtaidd, Celtiaid.**
- Defnyddio'r Gymraeg i ddysgu am y Celtiaid a'u ffordd nhw o fyw

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dyma ble roedd y Celtiaid yn byw. I ffwrdd â ni. Wyt ti'n gallu gweld Castell Henllys? Wyt ti'n gallu clywed sŵn? Ydw. / Nac ydw.	pentref afon llwybr cae coed tŷ crwn, tai crwn crwn bryn hen moch mefus perlysiau cawr chwyrnu ffenest tân crochan basged, basgedi cig broetsh

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy ...? Ble mae'r ...? Ga i weld? Cei. / Na chei. Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw.	car bws tacsi lori roced crib - y grib cylch coch gardd hyfryd gwneud dillad cawr
Arall Dyma ni. Dyna ... Bobl bach! / Mawredd mawr! Dw i'n nerfus. Dw i'n ofnus. Mae'n ofnadwy! Gorchmynion Edrychwch ar y patrwm. Edrycha ar y coed. Gwranda! Brysia! Dere! / Tyrd! Rhaid ffeindio'r grib.	

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Hawdd!

Chwiliwch am y ...

Barod?; Barod!

Wyt ti'n gallu gweld ...?

Edrycha ar y ...; Hefyd: Edrychwch ar y ...

Dyma'r ...

Brysia!; Hefyd: Brysiwch!

Taclusa!; Hefyd: Tacluswch!

Dere! / Tyrd!; Hefyd: Dewch!

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Castell Henllys** (Uned 1, Rhan 4) yn ei chyfanrwydd a gofynnwch am farn y disgyblion.

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

- Dangoswch y rhan ble mae Sgrin yn dangos lluniau o Gastell Henllys eto. Gofynnwch i'r disgyblion restru'r hyn maen nhw'n ei weld ar y sgrin. Yna, gofynnwch iddyn nhw chwilio am wybodaeth am Gastell Henllys, ynghyd â lluniau. Dylen nhw labelu eu lluniau, e.e.

pentref

afon

llwybr

cae

coed

tŷ crwn

Oherwydd geirfa gyfyngedig, mae'n bosib y bydd y drafodaeth gyffredinol am y wybodaeth maen nhw'n ei darganfod am y pentref Celtaidd yn Saesneg. Er hynny, efallai y byddan nhw'n gallu siarad / ysgrifennu'n syml am Gastell Henllys, e.e.

Dyma Gastell Henllys.

Mae gardd yng Nghastell Henllys.

Mae mefus yn yr ardd.

Dyma'r tŷ crwn.

Mae tân / gwely / bwrdd / basged / crochan yn y tŷ crwn.

- Dangoswch y rhan ble maen nhw'n glanio eto – mor bell â'r rhan ble maen nhw'n gadael yr ardd. Gofynnwch:

Beth sy yn yr ardd?

Ateb: **mefus**

perllysiau

Rhestrwch eiriau Cymraeg am ffrwythau a llysiau y gallai'r disgyblion fod wedi'u dysgu, e.e.

Llysiau

tatws
moron
ffa
pys
letys

Ffrwythau

afalau
pêr
orennau
bananas
mefus

Cyflwynwch eiriau newydd, os oes angen

bresych
blodfresych
cennin
pannas
sgewyll

aeron

Eglurwch fod y Celtiaid yn arfer tyfu ffrwythau a llysiau a gofynnwch i'r disgyblion ddarganfod pa rai:

Pa llysiau?

Pa ffrwythau?

Dangoswch lun o ardd arall neu cyfeiriwch at ardd yr ysgol a gofynnwch:

Beth sy yn yr ardd?

Yna, gallai'r disgyblion wneud a defnyddio holiaduron sy'n cynnwys y geiriau uchod er mwyn darganfod ydy eu ffrindiau'n hoffi'r llysiau a'r ffrwythau hyn. Gallen nhw wneud graffiau i ddangos pa llysiau sydd fwyaf poblogaidd a gallen nhw egluro'r graffiau ar lafar ac yn ysgrifenedig, e.e.

Mae deg yn hoffi ffa.

Mae dau ddeg yn hoffi sgewyll.

Does neb yn hoffi blodfresych.

Os yw'n addas, ac os yw'n briodol o ran adeg y flwyddyn, gallai'r disgyblion hau hadau a thyfu llysiau. Byddai hyn yn gyfle da i adolygu gwaith a wnaed yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

- Dangoswch y rhan ble mae Ffion a Crad yn mynd i mewn i'r tŷ crwn eto. Gofynnwch i'r disgyblion restru'r hyn maen nhw'n ei weld, e.e.

wal

tân

perllysiau

gwely

blanced

crochan

basged, basgedi

bwrdd

llysiau

perllysiau

[Does dim ffenestri.]

Gofynnwch:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf? ac anogwch nhw i ysgrifennu rhestri.

- Yna, gellid cyflwyno'r llyfr **Cai** a gallai'r disgyblion ymgymryd â'r gweithgareddau sydd wedi'u rhestru yng nghefn y llyfr.

Ar ôl darllen y llyfr, gallai un o'r disgyblion chwarae rôl Cai. Dylid ei (g)wahodd i eistedd yn y gadair goch er mwyn i'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau iddo / iddi, e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Beth sy yng Nghastell Henllys?

Wyt ti'n hoffi byw yng Nghastell Henllys?

Beth wyt ti'n hoffi wneud?

Wyt ti'n hoffi chwarae pêl-droed?

Wyt ti'n mynd i'r ysgol?

Ble mae'r grib?

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 7**:

A: Rwy'ti'n byw yng Nghastell Henllys ac rwy'ti'n gweld Crad yn y pentref.

B: Crad wyt ti.

Siaradwch.

Dylen nhw actio'r sefyllfa. Rhaid i **Bartner A** gyfarch Crad a dod i'w adnabod ond rhaid i Crad ofyn cwestiynau hefyd er mwyn ceisio dod i adnabod **Partner A**, e.e.

Crad: Ble wyt ti'n byw?

A: Dw i'n byw mewn tŷ crwn.

Crad: Beth ydy tŷ crwn?

A: Tŷ crwn - edrycha ... wal ... drws mawr ...

A: Beth wyt ti'n hoffi fwyta?

Crad: Dw i'n hoffi bwyta salad.

A: Beth ydy salad? ...

- Canolbwyntiwch ar y rhan ble mae Crad a Ffion yn chwilio am y grib. Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid:

Caewch eich llygaid.

Dim pipo!

Yna, dewiswch un o'r disgyblion i guddio crib.

Heb symud o gwmpas, rhaid i weddill y dosbarth geisio dyfalu ble mae'r grib:

Ydy'r grib yn y ...?

ar y ...

o dan y ...

tu ôl i'r ...

Ydy. / Nac ydy.

Pan fydd un ohonyn nhw'n dyfalu'n gywir, caiff yntau / hithau gyfle i guddio'r grib.

- Dangoswch y rhan olaf eto, ble mae Ffion yn darganfod broetsh Geltaidd ar ddillad Crad. Tynnwch sylw at y cyfeiriad at y **patrwm Celtaidd** - ac edrychwch am fwy o enghreifftiau ar y rhyngwryd.

Gallai'r disgyblion ddylunio patrymau Celtaidd a gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn Gymraeg, e.e.

Mae'n hyfryd!

Mae'r lliwiau'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r glas tywyll.

Dw i'n hoffi'r patrwm yma.

Mae'r patrwm yma'n ardderchog.

Mae'r siâp yma'n dda.

Wyt ti'n hoffi'r ...?

Gellid cyflwyno / atgyfnerthu'r gair **effeithiol**:

Mae'r lliwiau'n effeithiol.

Mae'r patrwm yn effeithiol.

Mae'r siapiau'n effeithiol iawn.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion ymgymryd â gweithgareddau gwehyddu.
- Gallai'r disgyblion greu ardal Geltaidd ar gyfer actio yn y dosbarth, y neuadd neu ar y buarth. Gallen nhw actio'r sefyllfa ganlynol, er enghraifft:

Mae plant o'r unfed ganrif ar hugain yn glanio mewn pentref Celtaidd.

Ble ydyn ni?

Dw i ddim yn gwybod.

Edrychwch – gardd.

Beth sy yn yr ardd?

Perlysiau.

Mefus.

Pys.

Ffa.

Winwns / Nionod.

Dw i'n hoffi'r ardd.

Edrychwch – pentref.

Beth sy yn y pentref?

Tŷ crwn.

Pedwar tŷ crwn.

Beth sy yn y tŷ crwn?

Tân.

Gwely.

Blanced.

Bwyd.

O, dw i eisiau bwyd.

Mmm, blasus!

Ych a fi! Ofnadwy!

Hefyd, gallen nhw ddychmygu bod rhywun yn eu gwyllo nhw:

Wyt ti'n gallu clywed sŵn?

Nac ydw. Dere. / Tyrd.

Ydw – Help!

Dw i'n teimlo'n ofnus.

Dw i'n teimlo'n nerfus.

Uned 1: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nod

- Adolygu'r geiriau a'r patrymau a gyflwynwyd yn Rhannau 1-4 ac yn ystod y Cyfnod Sylfaen

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth am drio eto? Ydych chi'n dda? Ydych chi'n dda iawn? Ydych chi'n ardderchog? Ydw. / Nac ydw. Ydyn. / Nac ydyn. Ydy Cai yn ...? Eich tro chi nawr. Gofynna.	tai crwn

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patterns	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Beth wyt ti'n hoffi wneud? Beth sy yn ...? Arall Dw i'n hoffi ... Mae'n grêt. Mae'n wych. Gorchmynion Gwrandewch. Edrychwch.	tŷ crwn, tai crwn ffair parc, parciau môr siopau pwll nofio castell ysgol ffordd mynyddoedd afon coed blodau llyn ffrâm ddringo Stadiwm y Mileniwm Canolfan y Mileniwm castell trên bach pwll nofio

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Gwrandewch!

Beth am drio eto?

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu. Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i gael cyfle i wyllo Crad a Ffion - a'u ffrindiau - yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ac y bydd rhaid iddyn nhw drafod a phenderfynu sut i wella'u perfformiad.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 1, Rhan 5) fesul cam fel yr awgrymir ar y tudalennau nesaf.

Adran 1

- Canolbwyntiwrch ar y darn ble mae Cai yn ateb cwestiynau Sgrin. Tynnwch sylw at gwestiwn Sgrin:
Ydy Cai yn dda ... yn dda iawn ... neu ... yn ardderchog?
- Stopiwch y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn. Ysgrifennwch ar y bwrdd gwyn faint sy'n meddwl ei fod e'n dda, yn dda iawn neu'n ardderchog.
- Dangoswch y darn sy'n cynnwys y thermometr a thynnwch sylw at y ffaith ei fod yn stopio ar **Da**. Gofynnwch sut y gallai Cai wella'i berfformiad (rhoi atebion llawnach a mynegi barn).
- Dangoswch ail ymgais Cai.
- Dilynwch yr un drefn ag uchod. Trafodwch pam mae'r disgyblion yn credu bod Cai wedi gwella.
- Dangoswch drydedd ymgais Cai a thrafodwch yn yr un modd ag uchod.
- Parhewch gyda'r ffilm - y darn sy'n annog y disgyblion i wrando eto.

Stopiwch y ffilm ar ôl pob cwestiwn, gan annog y disgyblion i ofyn ac ateb y cwestiynau a glywir ar y sgrin mewn parau neu grwpiau.
Sylwer: Dylai'r disgyblion gynnwys enw'r lle ble maen nhw'n byw yn y cwestiwn:
Wyt ti'n hoffi byw yn ...?

Adran 2

Mae'r adran hon, **Gêm Cwestiynau**, yn annog y disgyblion i geisio meddwl am gynifer o gwestiynau ag sy'n bosib, gan ddefnyddio'r geiriau cwestiwn sy'n ymddangos ar y sgrin.

- Cyflwynwch y gweithgaredd hwn ar ffurf cystadleuaeth:
Dangoswch y ffilm a'i stopio ar ôl pob cwestiwn.
Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am gynifer o gwestiynau â phosib.
Rhowch un marc am bob cwestiwn a ofynnir.
Rhowch farc ychwanegol os yw'r disgyblion wedi meddwl am yr un cwestiynau â'r rhai a glywir ar y ffilm.
Dylid cyfri'r marciau yn Gymraeg er mwyn gweld pwy sydd wedi ennill:
Pwy sy wedi ennill?

Os yw'n briodol, anogwch y disgyblion i ateb y cwestiynau sydd ar y ffilm.
- Mewn grwpiau, dylai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 8:**
Mae'r athro / athrawes yn y gadair goch. Gofynnwch gwestiynau.

Mewn parau, dylai'r disgyblion baratoi rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r athro / athrawes. Yna, dylai'r athro / athrawes eistedd yn y gadair goch ac ateb cwestiynau'r disgyblion.

Adran 3

Mae'r adran hon, **Beth ydy ...?**, yn adolygu rhai o'r geiriau sydd wedi eu cyflwyno yn yr uned.

- Chwaraewch y darn nesaf a gofynnwch i'r disgyblion alw allan y geiriau Cymraeg priodol.

Adran 4

Mae'r adran hon, **Beth sy yn ...?**, yn adolygu'r geiriau sy'n gysylltiedig â lleoedd penodol, e.e. y parc / Caerdydd.

- Stopiwch y ffilm ar ôl y cwestiwn **Beth sy yn y parc?**
Rhowch amser i'r disgyblion ysgrifennu rhestr. Gofynnwch:
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?
Cymharwch y rhestr.

Gofynnwch:

Pwy sy wedi ennill?

- Yna, dangoswch y clip i ddangos beth sydd yn y parc.
- Dilynwch yr un patrwm ar gyfer yr ail gwestiwn:
Beth sy yng Nghaerdydd?

Dylid cyflwyno'r cerdyn darllen **Caerdydd - mae'n ffantastig!** yn union fel y cyflwynwyd y cerdyn **Llandudno - mae'n grêt!** yn Rhan 2.

Dylai'r disgyblion ganfod lleoedd ar y map gan ddefnyddio cyfesurynnau syml, e.e. dylen nhw edrych ar y map a gofyn cwestiynau i'w gilydd mewn parau:

Ble mae'r ...?

Ble mae'r siopau?

Dylai'r disgyblion ateb drwy ddefnyddio cyfeirnod grid, e.e.

Yn sgwâr ...

Gellid gofyn rhai cwestiynau eraill, e.e.

Beth sy yn sgwâr ...?

Oes ... yng Nghaerdydd? Ble?

Gellid annog y disgyblion i chwilio am wybodaeth am Gaerdydd ar y rhyngwrwyd a chofnodi'r manylion.

- Mewn parau, gallai'r disgyblion ddarllen y senario ar **Cerdyn Siarad 9:**
Rydych chi'n mynd i Gaerdydd.

Gallen nhw drafod beth sydd yng Nghaerdydd a beth mae'r naill a'r llall eisiau ei wneud yno drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y ffilm, y daflen wybodaeth a'r wybodaeth maen nhw wedi'i ei chasglu.

Dylen nhw ofyn cymaint o gwestiynau â phosib a cheisio cynnig atebion mor llawn â phosib, e.e.:

Wyt ti eisiau mynd i Stadiwm y Mileniwm?

Ydw. / Nac ydw.

Ydw, achos dw i'n hoffi rygbi.

Nac ydw, achos dw i ddim yn hoffi rygbi.

Os yw'n briodol, dylai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau iaith a'r eirfa maen nhw wedi eu dysgu eisoes er mwyn ymestyn y sgwrs, e.e.

Wyt ti'n hoffi ...?

Beth am ...?

Syniad da.

- Symudwch ymlaen i'r cwestiwn olaf yn yr adran hon, h.y.
Beth sy yn eich ardal chi?
Ysgrifennwch enw'r dref / pentref / ardal ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i'r disgyblion restru beth sydd yn yr ardal, e.e. **siopau, afon, mynyddoedd, môr** a.y.b.

Eglurwch i'r disgyblion eu bod nhw'n mynd i baratoi deunydd i hyrwyddo'r ardal. Gofynnwch am awgrymiadau, e.e. taflen, poster, clip fideo ac ati, a gofynnwch iddyn nhw gynllunio'r gwaith.

Gallen nhw gynnwys lluniau, map sgets, rhestr o adeiladau / lleoedd, barn am yr ardal ac ati e.e.

Dyma'r ...

Mae ... yn ...

Mae'n grêt!

Mae'n wych!

Mae'n ffantastig!

Mae'n ardderchog!

Bendigedig!

Adran 5

Bwriad yr adran hon yw adolygu agweddau penodol ar fywyd y Celtiaid. Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion eistedd yn y gadair goch a dychmygu eu bod yn Geltiaid. Gallai'r disgyblion eraill eu holi nhw am eu ffordd o fyw.

Uned 2

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Mae nifer helaeth o ofynion Rhaglen Astudio CA2 yn cael eu targedu yn yr uned hon. Rhoddir cyfle i'r disgyblion wrando ar wahanol bobl yn siarad Cymraeg gan roi cyfle iddyn nhw ddod yn ymwybodol o amrywiadau ieithyddol, e.e. **Mae'n ddrwg gen i** ac **Mae'n flin gyda fi**, a'r defnydd o **e** ac **o**. Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amryw amgylchiadau, i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl.

Anogir y disgyblion i ddarllen amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys chwedl, deialogau, rysáit, llyfr ffeithiol a stori. Maen nhw'n cael cyfleoedd i ymateb i'r rhain drwy ateb cwestiynau cyffredinol sydd wedi eu rhestru yng nghefn pob llyfr a thrwy ymgymryd â gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau darllen. Ar **Cerdyn Siarad 10**, fe'u gwahoddir i siarad am lyfrau maen nhw wedi eu darllen.

Mae cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, gwahoddiadau, poster, negeseuon e-bost, llythyrau a stori. Felly, fe'u hanogir i "ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas".

Saesneg

Caiff y disgyblion eu hannog i chwilio am wybodaeth yn yr uned hon. Mae'n bosib y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn Saesneg a bydd rhaid i'r disgyblion ddeall a rhestru'r prif bwyntiau.

Mathemateg

Mae sawl sefyllfa yn yr uned hon yn gysylltiedig â siopa, e.e. mae Ffion yn mynd i siop fara ac mae Crad a Ffion yn prynu bwyd yn y farchnad. Gallai hyn arwain at adolygu ymadroddion Cymraeg sy'n gysylltiedig ag arian a chyfrifo drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. os yw un iogwrt yn costio 40c yn y farchnad, faint ydy dau iogwrt, a.y.b.:

Mae iogwrt yn costio pedwar deg ceiniog.

Faint ydy dau iogwrt?

Faint ydy pedwar iogwrt?

Gellid gosod stondin marchnad mewn un cornel o'r dosbarth a gallai'r disgyblion ysgrifennu rhestri ac yna siopa wrth y stondinau hyn. Gellid rhoi swm o arian iddyn nhw a gofyn iddyn nhw gyfrifo faint maen nhw wedi'i wario, faint sydd ganddyn nhw'n weddill a.y.b.:

Mae'r bwyd yn costio ...

Mae ... ar ôl.

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion wneud holiaduron a'u defnyddio, e.e. wrth sôn am fwydydd penodol. Gallen nhw lunio graffiau ac egluro'u canfyddiadau ar lafar neu'n ysgrifenedig, e.e.

Mae deg yn hoffi ...

Mae chwech yn hoffi ...

Gwyddoniaeth

Mae sawl cyfeiriad at fwyd yn yr uned hon. Mae'r cymeriadau'n trafod pa fwydydd sy'n iach, er enghraifft, ac os yw'r disgyblion yn cael cyfle i wneud bara, byddan nhw'n dod i ddeall bod burum yn achosi i'r toes godi.

Hanes

Caiff y disgyblion eu hatgoffa o'r ffordd Geltaidd o fyw, yn enwedig hoffter y bobl o eistedd o gwmpas y tân yn gwrando ar hen straeon.

Celf a dylunio

Mae sawl cyfle i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chelf a dylunio megis darlunio golygfeydd o chwedl **Culhwch ac Olwen**.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion ddylunio gwahoddiadau, gosodiadau bwrdd a baneri ar gyfer parti priodas a collage i ddangos chwedl **Culhwch ac Olwen**. Gallen nhw ddefnyddio meddalwedd addas i'w cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

Mae cyfleoedd i wneud brechdanau, salad pasta, salad ffrwythau, pizza a bara yn yr uned hon.

Cerddoriaeth

Gan weithio mewn grwpiau, gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth i gyd-fynd â golygfeydd yn chwedl **Culhwch ac Olwen**, e.e. cerddoriaeth drist ar y dechrau pan mae Culhwch yn sylweddoli pa mor anodd yw'r dasg mae'n rhaid iddo ei chyflawni, cerddoriaeth frenhinol ar gyfer dyfodiad Arthur, y brenin dewr, cerddoriaeth llawn bywyd ar gyfer yr helfa a cherddoriaeth addas ar gyfer y parti priodas.

Gallen nhw berfformio caneuon Cymraeg a Chymreig a chanu offerynnau yn y parti priodas. Yna, gallen nhw werthuso'r gerddoriaeth.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion feddwl am goreograffi a symudiadau dawnys i gyd-fynd â golygfeydd yn chwedl **Culhwch ac Olwen**.

TGCh

Yn yr uned hon, gallai'r disgyblion chwilio am luniau sy'n gysylltiedig â'u hoff fwydydd ac â'r pryd bwyd sy'n gysylltiedig â Shabbat. Gallen nhw ffilmio'r broses o baratoi bwyd a'r rhaglen gwis yn Rhan 5. Mae cyfleoedd i wneud cyflwyniad PowerPoint am ddietau iach. Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori i ddarlunio chwedl **Culhwch ac Olwen**.

Addysg grefyddol

Mae'r llyfr **Miriam** yn rhoi cyfle i ddysgu am ddathliad crefyddol yn y cartref, h.y. y pryd bwyd sy'n gysylltiedig â Shabbat, ac am rai agweddau sy'n gysylltiedig ag Iddewiaeth.

Yn ogystal, mae cyfleoedd i drafod priodasau ar ôl darllen am Culhwch ac Olwen.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei hyrwyddo nid yn unig gan fod sgiliau iaith y disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith yn cael eu datblygu, ond yn ogystal gan fod y chwedl **Culhwch ac Olwen** – y chwedl Arthuraidd hynaf yn y byd yn cael ei chyflwyno. Gallai'r disgyblion berfformio caneuon Cymreig a Chymraeg fel rhan o'r parti priodas yn ogystal.

Addysg bersonol a chymdeithasol

Mae'r pwyslais ar fwyta'n iach yn berthnasol i addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r llyfr **Y Parti Gwisg Ffansi** yn dangos enghraifft sylfaenol o fwlio. Gellid trafod hyn ymhellach - yn Saesneg o bosib.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith, patrymau a geirfa a gyflwynwyd eisoes er mwyn sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Drwy gydol yr uned, mae cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth a ddysgwyd eisoes. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. trefnu parti priodas ar gyfer

Culhwch ac Olwen yn Rhan 1, yn ogystal â pharti arall yn Rhan 5. Mae hyn yn golygu bod angen i'r disgyblion gynllunio a chydweithio. Gweler yr arweiniad ar gyfer Rhannau 1 a 5 am fwy o fanylion.

Mae disgwyl i'r disgyblion ddefnyddio iaith yn greadigol ac yn ddychmygus wrth iddyn nhw addasu chwedl **Culhwch ac Olwen**. Fe'u hanogir hefyd i gynllunio a threfnu wrth iddyn nhw baratoi pizza, salad ffrwythau a brechdan.

Mae'r rhaglen gwis yn Rhan 5 yn gofyn iddyn nhw ddefnyddio iaith i greu cwestiynau. Gallen nhw gynllunio, sgriptio a ffilmio rhaglen gwis neu wahanol fathau o raglenni eu hunain hefyd. Gweler Rhan 5.

Datblygu cyfathrebu

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Mae nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac i ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Maen nhw'n dysgu sut i gyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd at bwrpasau gwahanol.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd ac i wneud defnydd o feddalwedd addas. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ffilmio'r cwis neu raglenni eraill, recordio gwaith grŵp, chwilio am luniau, gwneud cyflwyniad PowerPoint. Dylid eu hannog i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer drafftio ac ail-ddrafftio gwaith ysgrifenedig.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys holiaduron, a chyflwyno data mewn ffurfiau addas.

Uned 2: Rhan 1 - Hen, hen stori

Nodau

- Cyflwyno'r hen chwedl Gymreig **Culhwch ac Olwen** drwy gyfrwng y Gymraeg

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Roedd y Celtiaid yn hoffi gwrando ar stori. Dyn ydy Culhwch. Merch ydy Olwen.	dyn tad brenin gwyllt priodi newid actio

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? ... ydw i. Beth am ... ? Beth ydy ... ? Ble mae'r ... ? Eisiau Wyt ti eisiau mynd / dod i'r parti? Ydw. / Nac ydw. Arall Dyma Culhwch. Dyma'r grib. Maen nhw'n mynd 'nôl. Gorchmynion Edrychwch a gwrandewch. Rhaid ffeindio crib a siswrn.	cawr mochyn crib siswrn tacluso gwallt ffeindio

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi eisiau gwrandao ar stori?

Ydyn. / Nac ydyn.

Beth am stori (Culhwch ac Olwen)?

Syniad da.

Pwy ydy (hwn)?; Pwy ydy (hon)?

Edrychwch a gwrandewch.

Rhaid ffeindio ...

Dyma ti. / Dyma chi.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dechreuwch drwy ofyn ydy'r disgyblion yn hoffi darllen / gwrando ar straeon:
Ydych chi'n hoffi darllen stori? / Ydych chi'n hoffi gwrando ar stori?
Ydyn. / Nac ydyn.
Wyt ti'n hoffi darllen stori? / Wyt ti'n hoffi gwrando ar stori?
Ydw. / Nac ydw.
Pa stori?
Dw i'n hoffi ... (yn fawr).
- Mewn grwpiau, dylai'r disgyblion ddarllen y gweithgaredd ar **Cerdyn Siarad 10:**
Siaradwch am lyfr.

Dylai'r disgyblion ddod â 2 neu 3 llyfr i'r dosbarth - rhai â lluniau ynddyn nhw fyddai orau. Yna, mewn parau, dylen nhw siarad am y llyfrau, e.e.
Dyma ... (teitl y llyfr).
Dw i'n hoffi ... achos mae'r stori'n dda / dw i'n hoffi ...
Wyt ti'n hoffi ...?
Dyma ... (gan gyfeirio at luniau o gymeriadau a.y.b.)
Mae'n grêt.
- Gofynnwch:
Ydych chi eisiau gwrando ar stori nawr? / rŵan?
Dylen nhw ateb:
Ydyn.
Dylech chi eu hannog nhw i wrando drwy ddweud:
Gwrandewch.
- Cyflwynwch y llyfr stori **Culhwch ac Olwen**. Dangoswch y clawr, eglurwch pwy ydy'r cymeriadau a darllenwch y stori.

Hen chwedl Gymreig ydy **Culhwch ac Olwen** sy'n sôn am:

Culhwch (dyn ifanc)

Olwen (merch ifanc)

y brenin Arthur

Ysbaddaden (cawr – cawr mawr; mae e'n eitha anniben – mae ganddo wallt a barf hir)

y Twrch Trwyth (baedd gwyllt)

Mae Culhwch wedi syrthio mewn cariad ag Olwen a'i ddymuniad yw ei phriodi ond cyn y gall wneud hynny mae'n rhaid iddo gyflawni llawer o dasgau. Un o'r tasgau hyn yw torri gwallt a barf Ysbaddaden ar gyfer y briodas ond i wneud hyn mae'n rhaid iddo ddod o hyd i grib a siswrn addas. Gellir dod o hyd i'r rhain rhwng clustiau'r Twrch Trwyth - baedd gwyllt - ac felly mae'n rhaid iddo ddod o hyd i'r creadur hwn.

Mae Culhwch ac Arthur yn chwilio am y baedd gwyllt. Maen nhw'n dod o hyd iddo, yn cael y siswrn a'r grib ac, o'r diwedd, mae Culhwch yn priodi Olwen!

Yn ôl y chwedl, roedd Olwen yn brydferth iawn – byddai blodau meillion gwyn yn tyfu yn ôl ei throed.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r stori?

Ydw. / Nac ydw.

Dw i'n hoffi'r stori – mae'n dda iawn.

ffantastig

wych / grêt

Dw i'n hoffi'r stori achos dw i'n hoffi stori hapus.

stori gyffrous

Dw i ddim yn hoffi'r stori.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r stori achos mae'n ddiflas.

- Gwiriwch fod y disgyblion y gwybod yr eirfa ac atgyfnerthwch eiriau newydd:

brenin

rhwng

priodi

gwyllt

Er mwyn adolygu'r geiriau mewn ffordd bleserus, gellid rhannu'r disgyblion i ddau dîm a chynnal 'cwis geiriau', h.y. gellid gofyn i dimau gyfieithu geiriau Saesneg i'r Gymraeg ac yna byddai pob tîm yn ennill un marc am bob gair Cymraeg cywir e.e.

sad

trist / yn drist

to tidy

tacluso

to marry

priodi

hair

gwallt

problem

problem

giant

cawr

to find

ffeindio

ears

clustiau

comb

crib

wild

gwyllt

scissors

siswrn


king

brenin

- Dangoswch y ffilm, **Hen, hen stori** (Uned 2, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y rhan ble mae Sgrin yn gofyn i Crad a Ffion ydyn nhw eisiau clywed stori – hyd at ddiwedd y stori.
- Gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett*, helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori sydd yn y llyfr, e.e.:
 - Gwnewch fap stori, e.e.

* Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

Culhwch ac Olwen



- Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch chi'n dweud y stori a sicrhewch ei fod yn cael ei arddangos yn y dosbarth.

- Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol.
- Dywedwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu hi'n raddol.
- Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau, mynegiant ac ati rydych chi am eu defnyddio i gyfleu'r stori.
- Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i ddweud y stori gyda chi.
- Wrth iddyn nhw ddod yn fwy cyfarwydd â'r stori, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau'n eistedd o amgylch byrddau ac ati.
- Gellid sefydlu cylchoedd stori gyda'r disgyblion yn dweud y stori wrth ei gilydd, gan helpu ei gilydd yn ôl yr angen.
- Gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol.
- Gallen nhw actio gwahanol olygfeydd, e.e. gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 11**, sef **Rydych chi'n helpu Arthur i chwilio am y mochyn gwyllt**.
gallen nhw actio'r olygfa hon. Gallen nhw ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn:

Barod?

Ble mae'r mochyn gwyllt?

Ydy'r mochyn gwyllt yn y coed / môr / parc / ffair / ysgol / mynyddoedd?

Ydy. / Nac ydy.

Dyma fe / fo.

Brysia.

- Gallen nhw actio'r stori, yn ystod gwasanaeth ysgol o bosib, gan ddefnyddio propiau addas.
- Gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn cadair goch hefyd, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd ar y gadair goch a gallai'r disgyblion eraill ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol iddo / iddi:

Pwy wyt ti?

Culhwch ydw i.

Sut wyt ti?

Dw i'n drist. / Dw i'n teimlo'n trist.

Pam?

Dw i eisiau priodi Olwen.

Beth wyt ti eisiau?

Dw i eisiau ffeindio'r grib a'r siswrn.

Ble mae'r siswrn a'r grib?

Rhwng clustiau mochyn gwyllt.

Wyt ti eisiau ffeindio'r mochyn gwyllt?

Ydw.

Wyt ti'n ffeindio'r mochyn gwyllt?

Ydw.

Wyt ti'n hapus nawr / rwan?

Ydw.

- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a chyflwyno'r stori, dangoswch y clip sy'n dangos grŵp o ddisgyblion ysgol yn dweud y stori a chymharwch gyflwyniad y disgyblion gyda'r cyflwyniad ar y sgrin.
- Gallai'r disgyblion drefnu parti priodas i Culhwch ac Olwen. Gallai hyn olygu:
 - dewis dillad addas
 - ysgrifennu rhestr o fwyd a diod
 - paratoi bwyd
 - gweini bwyd
 - dewis cerddoriaeth gefndirol addas
 - trefnu adloniant (e.e. cerddoriaeth, triciau hud ac ati)
 - dylunio hysbysiad neu wahoddiad, ysgrifennu llythyr neu neges e-bost neu ffonio pobl i'w gwahodd nhw i'r parti priodas, e.e.

Gwahoddiad:

PARTI – GWYCH!

Wyt ti eisiau dod i barti Culhwch ac Olwen?

Pryd:

Ble:

Beth:

Ateb (✓):

Ydw, dw i eisiau dod. / Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod.

Mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod.

Neges e-bost:

Oddi wrth:

At:

Pwnc:

Annwyl ...

Wyt ti eisiau dod i barti Culhwch ac Olwen yn ... ar ...?

Cofion

.....

Galwad ffôn:

A: **Wyt ti eisiau dod i'r parti?**

B: **O, ydw os gwelwch yn dda. Ble mae'r parti?**

A: **Yn y castell.**

B: **Pryd?**

A: **Dydd Sadwrn - am chwech o'r gloch.**

- Gallai'r disgyblion:
 - wneud collage sy'n dangos gwahanol olygfeydd yn y chwedl
 - creu pypedau, e.e. pypedau bys / pypedau ffon i ddarlunio'r cymeriadau. Gellid defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau chwarae rôl wedyn.
- Gallen nhw wneud bwrdd stori a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.
- Yn ogystal â dewis cerddoriaeth sy'n addas ar gyfer y parti priodas, gallai'r disgyblion gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth i gyfleu gwahanol olygfeydd yn y stori, e.e. tristwch Culhwch ar ddechrau'r chwedl, Arthur yn cyrraedd, yr helfa, y briodas.
- Gellid creu symudiadau dawnys i bortreadu'r golygfeydd hyn.
- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu'r stori'n drwyadl, gallen nhw ei haddasu, e.e. gallen nhw newid
 - enwau'r cymeriadau
 - yr eitem maen nhw'n chwilio amdani, e.e. **het, cap, esgidiau, broetsh, modrwy, rhuban, blodau** a.y.b.
 - yr anifail sy'n cael ei hela - atgoffwch y disgyblion o'r anifeiliaid maen nhw wedi dod ar eu traws yn y Cyfnod Sylfaen.

Gofynnwch iddyn nhw ddewis un o'r anifeiliaid ac i ddychmygu ble ar gorff yr anifail mae'r eitem mae'r cymeriadau'n chwilio amdani, e.e.

rhwng clustiau eliffant mawr

rhwng clustiau teigr brown

rhwng clustiau ci du

rhwng clustiau llygoden fawr

neu, o bosib

rhwng llygaid eliffant mawr

rhwng llygaid teigr brown

rhwng llygaid ci du

rhwng llygaid llygoden fawr

- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Yna, dylid ail-ddweud y stori hon bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd a pharau stori cyn ysgrifennu eu stori eu hunain, gyda'ch cefnogaeth chi i ddechrau.
- Dylai'r disgyblion ysgrifennu a darlunio'u gwaith yn briodol.
- Yna, gallen nhw wahodd ei gilydd i barti priodas newydd drwy ddylunio gwahoddiad newydd, drwy ysgrifennu neges e-bost neu wneud galwad ffôn, e.e.
Wyt ti eisiau dod i'r parti?
Pryd?
Ble?
Ydw, dw i eisiau dod.
Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod.
Mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod.

Uned 2: Rhan 2 - Dw i eisiau bwyd.

Nodau

- Adolygu'r geiriau a'r patrymau sy'n gysylltiedig â **hoffi**, **ddim yn hoffi** a chyflwyno **hoff**
- Mynegi barn e.e. **Mae'n ofnadwy.**; **Blasus iawn.**
- Adolygu cyfarwyddiadau, e.e. **Rhaid ...** a gorchmynion lluosog a ffurfiol, e.e. **Rhowch.**; **Cymysgwch.**
- Defnyddio Cymraeg ar gyfer trafod diet amrywiol. **Mae ... yn dda i ti / chi.** a **Dim llawer!**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ydy dy hoff fwyd di? Fy hoff fwyd i ydy ... Dw i'n llwgu. Pwyswch. Tria fe / fo! Dim llawer!	cinio dydd Sul tatws rhost powdr tiwna wyau

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble mae'r ...? Oes bwyd yn y ...? Oes. / Nac oes. Does dim bwyd yn y Ga i (fynd)? Na chei – dim heddiw. Y tro nesa. Hoffi Wyt ti'n hoffi sbageti bolognese? Ydw. / Nac ydw. Dw i'n hoffi ffrwythau. Dw i ddim yn hoffi (tiwna). Eisiau Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... Arall Bobl bach! Dw i eisiau bwyd. Mae'n amser cinio. Rhaid ffeindio'r bwyd yma. Mae ... yn dda i ti. Dyma'r ... Dyna'r ... Gorchmynion Rhowch. Cymysgwch. Tria. Dim gweiddi!	amser cinio ar y yn y o dan y tu ôl i'r cwpwrdd tatws moron brocoli grefi Ych a fi! dŵr powlen llwy bwyd iach ffrwythau orennau bananas afalau mefus grawnwin tomatos llysiau pys india-corn madarch winwns / nionod ffa bara gwyn bara brown grawnfwyd caws iogwrt llaeth cig

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Mae'n amser cinio!

Oes ... yn y / ar y / o dan y / tu ôl i'r ...?

Dim problem!

Dim gweiddi!

Ble mae'r ...?; Yn y cwpwrdd.; Ar y silff.

Ych a fi!

Pwyswch y ...

Rhowch y ...

Cymysgwch y ...

Tria ... / Triwch ...

Dyma ti / chi!

Ga i (fynd)?; Na chei – dim heddiw.

Y tro nesa.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyn dangos y DVD, eglurwch eich bod chi'n mynd i siarad am fwyd:
Rydyn ni'n mynd i siarad am fwyd.

Gofynnwch i'r grwpiau lunio rhestrï o eiriau sy'n gysylltiedig â bwyd. Er mwyn eu sbarduno, gofynnwch iddyn nhw feddwl am fwyd maen nhw'n ei fwyta ar wahanol adegau, e.e.

amser snac

amser cinio

amser brecwast

amser swper

Gofynnwch:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Ar ôl caniatáu digon o amser iddyn nhw wneud y gwaith, gofynnwch i bob grŵp:

Sawl un?

Canmolwch bob ymgais ond defnyddiwch **Ardderchog!** i ganmol y grŵp sydd wedi llunio'r rhestr hiraf.

- Adolygwch **hoffi / ddim yn hoffi**:

Dw i'n hoffi ...

Dw i'n hoffi ... - mae'n flasus.

Dw i'n hoffi ... - mae'n flasus iawn.

Dw i'n hoffi ... achos mae'n flasus iawn.

Dw i'n hoffi ... yn fawr.

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi ... - mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi ... Ych a fi!

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw. / Nac ydw.

- Dewiswch bump o'r bwydydd a gofynnwch i'r disgyblion lunio holiadur i ddarganfod ydy eu partneriaid yn hoffi'r bwydydd hyn, e.e.

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw, dw i'n hoffi ... - mae'n ...

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi ... - mae'n ...

Pan fyddan nhw'n ateb y cwestiwn cychwynnol, eglurwch fod rhaid iddyn nhw fynegi barn, fel y gwelir uchod.

Cymharwch yr atebion fel dosbarth / grŵp a gofynnwch i'r disgyblion lunio graffiau i ddangos eu canfyddiadau. Dylen nhw egluro'r rhain drwy ddefnyddio Cymraeg syml, e.e.

Mae chwech yn hoffi ...

Mae un yn hoffi ...

Does neb yn hoffi ...

- Rhowch her i'r disgyblion. Wrth iddyn nhw wyllo a gwrando ar y ffilm, dylen nhw sylwi'n arbennig ar y bwyd sy'n cael ei enwi oherwydd, ar ddiwedd y darn, rydych chi'n mynd i ofyn iddyn nhw restru'r bwyd. Os yw'n addas, gallan nhw wneud nodiadau.
- Dangoswch y ffilm **Dw i eisiau bwyd**. (Uned 2, Rhan 2), ble mae Crad a Ffion yn siarad am fwyd / hoff fwyd. Stopiwch y ffilm ar ôl y cwestiwn **Oes bwyd yn y Pod-antur?** - cyn iddyn nhw fynd i chwilio am fwyd.
- Gofynnwch:
Pwy sy'n cofio? Pa fwyd?

Gofynnwch iddyn nhw restru'r bwyd sy'n cael ei enwi ar y ffilm.

Yna, gofynnwch i bob disgybl / grŵp **Sawl un?**. Dylen nhw gyfrif nifer y geiriau a rhoi'r rhif i chi.

Os nad ydyn nhw wedi gwneud rhestr, gofynnwch iddyn nhw alw enwau'r gwahanol fwydydd allan a rhestrwch y rhain ar y bwrdd gwyn. Mae'n siŵr y bydd rhestr swmpus gennych chi erbyn diwedd y sesiwn.

- Ail-ddangoswch y rhan hon o'r ffilm fel bod y disgyblion yn gallu gwirio'u rhestr yn erbyn y bwyd sy'n cael ei enwi ar y ffilm. Gallan nhw ennill dau farc am bob eitem o fwyd maen nhw wedi'i restru sy'n cael ei enwi ar y ffilm.
 - Canolbwyntiwch ar y cyfeiriadau at **frechdanau** a gofynnwch:
Pa frechdanau mae Crad yn hoffi?
- Gallech chi ddefnyddio'r patrymau a restrir uchod (**hoffi / ddim yn hoffi**) i drafod ydy'r disgyblion yn hoffi gwahanol fathau o frechdanau.
- Canolbwyntiwch ar y gair **hoff** – ydy'r gair hwn yn atgoffa'r disgyblion o air arall? Dangoswch ei fod yn debyg i **hoffi**.

Cyflwynwch y patrymau:

Beth ydy dy hoff fwyd di?

Fy hoff fwyd i ydy ...

Gofynnwch y cwestiwn i wahanol aelodau o'r dosbarth ac yna gofynnwch i'r disgyblion ofyn hyn i'w gilydd mewn parau, trioedd ac mewn grwpiau.

Yna, gellid newid y cwestiwn:

Beth ydy dy hoff frechdan di?

Fy hoff frechdan i ydy brechdan ...

Beth ydy dy hoff iogwrt di?

Fy hoff iogwrt i ydy iogwrt ...

Sylwer: Gellid addasu'r patrwm hwn i unrhyw sefyllfa sy'n codi, e.e.

Beth ydy dy hoff lyfr di?

Fy hoff lyfr i ydy ...

Beth ydy dy hoff raglen di?

Fy hoff raglen i ydy ...

Beth ydy dy hoff gêm di?

Fy hoff gêm i ydy ...

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu rhestr o'u hoff fwyd a chwilio am luniau ar y rhyngwrwyd i gyd-fynd â'u gwaith, e.e.

Fy hoff fwyd i ydy ...

- Dangoswch y rhan nesaf o'r ffilm, ble mae Crad a Ffion yn chwilio am fwyd. Stopiwch y DVD cyn i Sgrin siarad â nhw. Adolygwch:

Oes bwyd yn y drôl?

ar y silff

ar y bwrdd

o dan y bwrdd

tu ôl i'r bwrdd

Dylai'r disgyblion gau eu llygaid:

Caewch eich llygaid.

Dim pipo.

Dylai un disgybl guddio eitem o fwyd, e.e. pecyn o basta, yn yr ystafell. Dylai gweddill y disgyblion ofyn cwestiynau i geisio dyfalu ble mae'r bwyd:

Oes bwyd yn y cwpwrdd?

Oes. / Nac oes.

a.y.b.

- Dangoswch y rhan nesaf o'r ffilm.
- Wrth i Crad a Ffion chwilio am fwyd unwaith eto a gofyn y cwestiynau a restrir uchod, gellid annog y disgyblion i alw allan:
Nac oes.
- Ar ôl i Ffion restru'r hyn mae hi'n ei hoffi i ginio dydd Sul ac ar ôl i'r geiriau **Cinio dydd Sul** ymddangos ar y sgrin ynghyd â lluniau o ginio dydd Sul traddodiadol, stopiwch y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion beth mae Ffion yn ei hoffi i ginio dydd Sul:
Beth mae Ffion yn hoffi i ginio dydd Sul?

Yna, gofynnwch i'r disgyblion:

Beth wyt ti'n hoffi i ginio dydd Sul?

Dw i'n hoffi ...

Gallen nhw ofyn y cwestiwn hwn i'w gilydd.

Gallen nhw wneud llun o'r pryd bwyd mae eu partner yn ei ddisgrifio ar blât papur gwag a labelu'r bwyd yn Gymraeg; neu gallai'r ymarfer hwn gael ei wneud ar ffurf holiadur ble gallai grŵp o ddisgyblion ofyn i grŵp arall a gallen nhw wneud graff yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

Yna, gallen nhw egluro'r hyn mae'r graff yn ei ddangos:

Mae chwech yn hoffi cig a llysiau.

Mae un yn hoffi sglodion.

Mae tri yn hoffi cyri.

Mae dau yn hoffi brechdanau.

- Dangoswch y clip ble mae'r cymeriadau'n paratoi'r Sbageti Bolognese.

Sylwer: **Dylech chi bwysleisio na ddylai'r disgyblion byth fwyta unrhyw bowdr maen nhw'n ei ddarganfod mewn bagiau, oni bai ei fod wedi'i labelu'n glir mai bwyd ydyw. Dangoswch fod Crad a Ffion yn darllen y labeli'n glir cyn paratoi'r bwyd – maen nhw'n gwybod yn union beth sydd yn y bagiau.**

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn nhw am y bwyd:

Wyt ti'n hoffi'r bwyd?

Ydw. Mae'n lliwgar.

Nac ydw. Mae'n ofnadwy!

Pwysleiswch y geiriau canlynol:

Pwyswch.

Rhowch.

Cymysgwch.

- Dangoswch y clip ble mae Crad a Ffion yn paratoi'r cinio dydd Sul. Gan nad ydyn ni'n gweld pob cam o'r broses, nac yn clywed sylwebaeth, gallai'r disgyblion ddychmygu sut y dylai'r pryd gael ei baratoi a chwarae rôl mewn grwpiau o dri, gydag un ohonyn nhw'n dweud wrth y ddau arall sut i baratoi'r "bwyd". Byddai hyn yn golygu gwneud defnydd o'r tri gorchymyn a welir uchod, e.e.

Pwyswch bum deg gram o'r powdr gwyrdd.

Dyma ni.

a.y.b.:

Rhowch y ... yn y bowlen.

Cymysgwch.

- Gallech chi egluro mai math o basta yw sbageti – dangoswch enghreifftiau – a gallech chi wahodd y disgyblion i wneud salad pasta gan egluro ei fod yn bryd bwyd iach.

Dylid cyflwyno ac astudio'r cerdyn darllen, y rysâit ar gyfer **Salad Pasta** ac, os yn bosib, dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion wneud y pryd bwyd hwn.

Gellid cynnwys amryw gynhwysion yn y pryd bwyd, h.y. dewis o ffrwythau a llysiau (wedi eu coginio eisoes os oes angen). Felly, gallai'r disgyblion benderfynu drostyn nhw eu hunain beth hoffon nhw ei gynnwys yn y rysâit. Dylid trafod hyn cyn gwneud y pryd bwyd:

Beth wyt ti eisiau yn y salad pasta?

Pa ffrwythau wyt ti eisiau yn y salad pasta?

Pa llysiau wyt ti eisiau yn y salad pasta?

Yna, gallai'r disgyblion wneud y pryd bwyd neu bryd bwyd tebyg a gellid defnyddio camera fideo i gofnodi sut i'w wneud. Dylid egluro pa gynhwysion sy'n cael eu defnyddio a'r dull. Opsiwn arall fyddai ysgrifennu'r cynhwysion a'r dull ar ffurf rysâit a chynnwys lluniau neu ffotograffau i gyd-fynd â'r gwaith.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi eu dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn camau hylendid priodol wrth drin bwyd.

- Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 12** a **Cherdyn Siarad 13:**
Sut mae gwneud pizza?
Sut mae gwneud salad ffrwythau?

Dylai'r disgyblion ddweud beth maen nhw'n mynd i'w wneud ac yna dylen nhw roi cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i wneud y bwyd yma. Gallen nhw ddarllen gwahanol ryseitiai o flaen llaw os oes angen.

- Cyn dangos gweddill y ffilm, eglurwch eich bod chi'n mynd i siarad am **fwyd iach**. Gofynnwch oes unrhyw un yn cofio beth yw'r frawddeg ganlynol yn Gymraeg:
Apples are good for you. (**Mae afalau'n dda i ti.** / **Mae afalau'n dda i chi.**)
Tynnwch sylw at y patrwm:
Mae ... yn dda i ti.
Mae ... yn dda i chi.

Mewn grwpiau, gofynnwch iddyn nhw restru bwydydd iach, gan ddefnyddio un o'r patrymau uchod.

Cymharwch y rhestri.

Yn eu tro, dylen nhw ddarllen eu brawddegau.

Anogwch aelodau eraill o'r grŵp i fynegi barn, e.e.

Blasus!

Mae ... yn flasus.

Mae'n flasus.

Mae'n wych.

Mae'n fendigedig.

Mae'n ofnadwy.

Ych a fi!

- Dangoswch weddill y ffilm.
Tynnwch sylw at y ffaith bod Sgrin yn dweud na ddylen nhw fwyta llawer o greision (am nad ydyn nhw'n iach):
Dim llawer!

Ail-ddangoswch y rhan hon fel bod y disgyblion yn cael clywed y cyngor yma eto.

- Gallai'r disgyblion gyflwyno gwybodaeth i ddangos pa fwydydd sy'n iach a pha rai sydd ddim yn iach, e.e. taflenni, arddangosfa, cyflwyniad PowerPoint a.y.b. Gallen nhw ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadur addas a gallen nhw edrych am luniau i'w cynnwys yn eu gwaith.
- Er mwyn crynhoi cynnwys y ffilm, gallai'r disgyblion actio rhai o'r golygfeydd, e.e.
 - ar y dechrau, ble mae Crad yn dweud ei fod e'n llwglyd ac mae'n breuddwydio am wahanol fathau o fwyd. Gallai'r disgyblion addasu'r olygfa hon i gynnwys bwyd o'u dewis nhw.
 - chwilio am fwyd yn y Pod-antur Cymraeg
 - y rhan olaf, ble mae Ffion, Crad a Sgrin yn trafod mynd ar daith arall.

Uned 2: Rhan 3 - Bara arbennig

Nodau

- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg: ... **os gwelwch yn dda.**; **Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.**; **Ga i ... os gwelwch yn dda?**
- Adolygu geirfa a phatrymau sy'n gysylltiedig â pharatoi bwyd
- Dysgu am ddathliad crefyddol yn y cartref – Shabbat – drwy gyfrwng y Gymraeg

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Wyt ti eisiau tro? Fy nhro i. Dy dro di. Dw i wedi syrthio. Rhaid plethu.	siop fara hir byr arbennig plethu rholio hadau ffwrn = popty Iddewig Shabbat nos Wener cannwyll, canhwylau gwin

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ga i fynd? Cei. / Na chei. Ble ydw i? Beth ydy'r rhain? Arall Dyna ni. Dyma'r bara. Mae'n flasus. I ffwrdd â fi! Gorchmynion Edrychwch. Edrycha. Rhaid torri ...	bara gwyn bara brown cacen, cacennau brechdan, brechdanau golchi dwylo rhannu

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ga i (fynd)?; Na chei – dim heddiw.; Y tro nesa.

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw.

Beth ydy'r rhain?

Rhaid ... ; Rhaid golchi dwylo.

Rhaid rhannu.

Dyma'r ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Bara arbennig** (Uned 2, Rhan 3). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r darn, ble mae Ffion yn glanio yn y siop fara, a gofynnwch i'r disgyblion restru beth y gellir ei brynu mewn siop fara fel arfer. Gofynnwch:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Ar ôl caniatáu digon o amser, gofynnwch:

Sawl un?

Yn Gymraeg, dylen nhw gyfrif sawl gair maen nhw wedi'i gofnodi, a dweud y rhif wrthyh.

- Adolygwch sut mae gofyn am bethau yn Gymraeg, e.e.

... os gwelwch yn dda.

Dyma chi.

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Dyma chi.

Ga i ... os gwelwch yn dda?

Cewch. Dyma chi.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 14**

Rydych chi yn y siop fara.

Gan weithio mewn parau, dylai un partner chwarae rhan y cwsmer a dylai'r llall chwarae rhan y siopwr. Dylai'r cwsmer ofyn am nifer o eitemau a dylai'r siopwr weini arno / arni.

Os yw'n briodol, gellid adolygu arian - gallai'r siopwr ofyn am swm penodol o arian a rhoi newid.

- Canolbwyntiwch ar y cyfeiriad at y **bara arbennig** ac eglurwch fod y math hwn o fara yn cael ei fwyta gan deuluoedd Iddewig yn ystod eu pryd bwyd Shabbat ar nos Wener. Dangoswch weddill y ffilm.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion dylino a phlethu toes. Os ydyn nhw'n ymgymryd â'r gwaith hwn, dylen nhw ddisgrifio yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud neu egluro wrth rywun arall sut i wneud y gwaith, e.e.

Dw i'n rholio'r bara.

Dw i'n plethu'r bara.

Dw i'n rhoi wy ar y bara.

Rhaid rholio'r bara.

Rhaid plethu'r bara.

Rhaid rhoi wy ar y bara.

Ar ôl pobi, gellid rhannu'r bara rhwng y disgyblion, e.e.

Wyt ti eisiau bara?

Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.

Gallai'r disgyblion fynegi eu barn am y bara:

Bendigedig!

Blasus!

Mae'n flasus!

Mae'n ardderchog!

Mae'n wych!

Mae'n ffantastig!

Dw i'n hoffi'r bara achos mae'n gynnes.

Dw i ddim yn hoffi'r bara.

- Atgoffwch y disgyblion fod y bara yn **arbennig** - neu'n **arbennig iawn** - oherwydd ei fod yn cael ei fwyta adeg swper Shabbat. Dylid darllen y llyfr **Miriam** a gellid ymgymryd â'r gweithgareddau a restrir yng nghefn y llyfr.
- Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am wybodaeth ac am luniau sy'n gysylltiedig â phryd bwyd Shabbat. Dylen nhw labelu'r lluniau yn Gymraeg neu ysgrifennu brawddegau Cymraeg i gydfynd â nhw, e.e.
Dyma'r bara.
Dyma'r pysgod.
Maen nhw'n bwyta.
Maen nhw'n siarad.
Maen nhw'n canu.

Uned 2: Rhan 4 - Yn y farchnad

Nodau

- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg, **Ga i ... os gwelwch yn dda?**; ... **os gwelwch yn dda.**
- Adolygu arian - **ceiniog** a **punt**
- Adolygu bwyta'n iach

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ydych chi eisiau i fwyta? Mwynhewch!	magnet oergell Dim cweryla! y farchnad hanner dwsin sosban

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Sut wyt ti? Iawn. / Ofnadwy. Beth sy'n bod? Dw i eisiau bwyd. Ble ydyn ni? Yn y ... Ga i afalau os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Ga i helpu? Sawl un? Pa fath? Beth nesa? Sut? Arall Dw i'n llwgu. Mae ... yn dda i ti / chi. Fy nhro i. Yn gynta(f) ... Gorchmynion Ysgrifennwch. Edrycha.	rhestr bara brown iogwrt ffrwythau afal, afalau oren, orennau banana, bananas grawnwin mefus wy, wyau papurau llyfrau teganau bwyd blodau arian, pres punt pum deg ceiniog plât, platiau

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy'n bod?

Dim problem!

Beth ydych chi eisiau i fwyta?

Ga i fynd? Cewch.; Na chewch!

Dim cweryla!

Yn gynta(f), ...

Sawl un?

Pa fath?

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Yn y farchnad** (Uned 2, Rhan 4) hyd at y darn ble mae Crad yn sylwi ar y magnet. Mae Ffion yn egluro:
Roedd magnetau yn y siop fara.
ac mae'n ei osod mewn powlen.

Gan ddefnyddio llythrennau plastig, lliwgar, magnetaid neu lythrennau tebyg, ysgrifennwch air Cymraeg am eitem o fwyd ond peidiwch â'i ddangos i'r disgyblion.

Rhowch dri chliw iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw beth yw'r bwyd, e.e.

Dw i'n bwyta hwn amser brecwast.

Mae hwn yn frown.

Dw i'n hoffi marmalêd gyda hwn.

Beth ydy hwn?

Ateb: **Tost**

Os bydd disgybl yn dyfalu'n gywir, dangoswch y gair rydych chi wedi'i ysgrifennu a gwahoddwch y disgybl hwnnw i gymryd eich lle chi. Os nad oes neb yn dyfalu'n gywir, rhowch yr ateb cywir iddyn nhw a dilynwch yr un drefn eto, h.y. ysgrifennwch air am fwyd gan ddefnyddio llythrennau lliwgar, cuddiwch y gair, rhowch ddau neu dri chliw a gofynnwch **Beth ydy hwn?** e.e.

Dw i'n bwyta hwn amser cinio.

Mae hwn yn goch - neu'n wyrdd.

Beth ydy hwn?

Ateb: **Afal.**

Mae'n siwr y bydd y disgyblion yn gyfarwydd â'r ymadroddion hyn:

Amser brecwast

Amser snac

Amser cinio

Amser swper

Mae'n siwr y byddan nhw'n gyfarwydd â'r geiriau Cymraeg am liwiau hefyd, felly dylen nhw allu disgrifio'r darn o fwyd. Efallai na fyddan nhw'n medru treiglo'n gywir ar ôl **yn** ar hyn o bryd, ond does dim ots am hynny ar y lefel yma. Y brif nod yw eu hannog i siarad cymaint o Gymraeg â phosib.

Helpwch nhw gyda'r patrwm:

Dw i'n hoffi ... gyda hwn.

Nid oes unrhyw eiriau newydd yn y patrwm hwn. Yn hytrach, mae geiriau mae'r disgyblion yn gyfarwydd â nhw'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun gwahanol.

Nid oes rhaid i'r disgyblion gadw at y patrymau hyn, wrth gwrs. Os yw'n briodol, gellid eu hannog i ddefnyddio patrymau eraill.

Gan fod angen i'r disgyblion ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol wrth i'r disgyblion eraill ddyfalu, gellid defnyddio'r patrwm canlynol:

Afal?

Na.

Oren?

Na.

Grawnwin?

Na.

Banana.

Banana! (h.y. ailadrodd y gair er mwyn osgoi cyflwyno **Ie**)

Gofynnwch i'r disgyblion chwarae'r gêm mewn grwpiau.

- Dangoswch ddechrau'r ffilm eto – hyd at y rhan ble mae Sgrin yn dweud wrthyn nhw am ysgrifennu rhestr siopa. Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio pa fwyd y sonnir amdano ar y ffilm:

Beth ydy'r bwyd ar y DVD?

Ysgrifennwch restr.

Gwnewch restr.

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Cymharwch y rhestri.

Yna, gofynnwch iddyn nhw ddychmygu mai nhw ydy Crad a Ffion. Maen nhw ar fin gadael y Pod-antur Cymraeg i fynd i brynu bwyd. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu rhestr o beth maen nhw'n mynd i'w brynu:

Ysgrifennwch restr.

Gwnewch restr.

Cymharwch y rhestri.

Dw i eisiau ...

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad a Ffion yn gwneud rhestr – hyd at y darn ble mae Sgrin yn dweud y caiff y ddau ohonyn nhw fynd i chwilio am fwyd.

Gallai'r disgyblion gymharu eu rhestri gyda rhestr Ffion, gan roi dau farc iddyn nhw eu hunain am bob gair maen nhw wedi'i gofnodi sydd hefyd ar restr Ffion:

Beth sy ar eich rhestr chi?

Beth sy ar restr Ffion?

Defnyddiwch y gair **Pa?** i ofyn am fanylion, e.e.

Ffrwythau - pa ffrwythau?

Bara - pa liw?

Iogwrt - pa iogwrt?

- Eglurwch fod Crad a Ffion yn mynd i siopa ac felly bydd angen **arian** neu **bres** arnyn nhw. Adolygwch sut i gyfrif mewn degau a defnyddiwch y rhifau hyn o flaen y gair **ceiniog**. Gellid defnyddio cardiau gyda swm o arian arnyn nhw mewn rownd sydyn o **Faint o arian?**

deg ceiniog

dau ddeg ceiniog

tri deg ceiniog

pedwar deg ceiniog

pum deg ceiniog

chwe deg ceiniog

saith deg ceiniog

wyth deg ceiniog

naw deg ceiniog

Adolygwch **punt** yn yr un modd:

punt

dwyr bunt

tair punt

pedair punt

- Defnyddiwch y rhan nesaf o'r ffilm i adolygu cyfrif arian. Yna, gellid ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag arian.
- Canolbwyntiwch ar y rhan ble maen nhw'n glanio yn y farchnad ac yn prynu afalau.

Trafodwch pa stondinau sydd i'w gweld yn y farchnad – cyflwynwch y canlynol:

standin:
standin ffrwythau a llysiau
standin papurau
standin bara
standin bwyd
standin llyfrau
standin blodau
standin wyau

Os yw'n bosib, crëwch farchnad fach yng nghornel yr ystafell ddosbarth. Yna, gellid ei defnyddio ar gyfer amryw weithgareddau chwarae rôl.

Canolbwyntiwrch ar y ddeialog gyntaf:

Bore da.
Bore da.
Ga i afalau os gwelwch yn dda?
Sawl un?
Dau os gwelwch yn dda.
Wyth deg ceiniog os gwelwch yn dda.
Dyma chi.
Diolch yn fawr.

Cyflwynwch y cerdyn darllen **Yn y Farchnad** a gofynnwch i'r disgyblion ddarllen drwy'r ddeialog gyntaf - yr un ddeialog ag sydd ar y DVD. Gofynnwch i'r disgyblion greu deialogau tebyg, e.e.

A: Bore da.
B: Bore da.
A: Ga i orennau, os gwelwch yn dda?
B: Sawl un?
A: Tri os gwelwch yn dda.
B: Punt os gwelwch yn dda.
A: Dyma chi.
B: Diolch yn fawr.

Dilynwch yr un drefn ar gyfer y ddwy ddeialog nesaf sydd ar y DVD a'r cerdyn darllen.

- Mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen **Cerdyn Siarad 15** a **Cerdyn Siarad 16**:

Cerdyn Siarad 15
Rydych chi eisiau 6 afal coch a 6 banana. Pa standin?

Cerdyn Siarad 16
Rydych chi eisiau cerdyn pen-blwydd. Pa standin?

Yn y ddau weithgaredd, rhaid i'r disgyblion benderfynu pa standin sydd fwyaf addas ar gyfer prynu'r eitemau angenrheidiol a rhaid iddyn nhw chwarae rôl. Rhaid i un ohonyn nhw chwarae rôl y cwsmer a'r llall ydy'r siopwr. Dylid cyfnewid rolau er mwyn actio'r sefyllfa ddwywaith.

- Gellid ymgymryd â gweithgareddau mathemateg addas, e.e.
Mae un iogwrt yn bum deg ceiniog.
Faint ydy dau iogwrt?
Faint ydy tri iogwrt?
- Dangoswch ran olaf y ffilm. Gan ddefnyddio'r patrwm y mae Ffion yn ei ddefnyddio,
Dw i'n rhoi'r bara ar y plât.
Dw i'n rhoi ... ar y bara.
gallai'r disgyblion wneud brechdanau iach. Yna, gallai'r disgyblion rannu'r brechdanau, mynegi barn a.y.b.

Uned 2: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nod

- Adolygu'r eirfa a'r patrymau a gyflwynwyd yn Rhannau 1-4 ac yn ystod y Cyfnod Sylfaen

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Gwylwch eto. gorau	gwyllo rhaglen cwis drama

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patterns	Main vocabulary
Questions and answers Pwy wyt ti? ... ydw i. Dw i'n byw yn ... Dw i'n hoffi ... Ydy Josh, Elin a Cai yn dda ... yn dda iawn ... neu ... yn ardderchog? Beth am drio eto? Wyt ti eisiau ...? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi eisiau ...? Ydyn. / Nac ydyn. Beth wyt ti'n wisgo? Ga i'r brechdanau? Cei. / Na chei. Other Ti sy'n ennill. Eich tro chi nawr. Bobl bach! Commands Edrycha. Edrychwch. Gwrandewch. Rhaid ...	cwestiwn cwestiwn un ... ardderchog bara menyn tomato cylllell torri rhoi syniad da doniol trowsus siwmpwr crys crys T cot sgarff menig sgert ffrog esgidiau bŵts sandalau

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Cwestiwn 1 ... Cwestiwn 2... Cwestiwn 3... (e.e. wrth ofyn cyfres o gwestiynau)

Edrychwch a gwrandewch!

Beth am drio eto?

Un marc i ti.

Eich tro chi nawr / rŵan.; Hefyd: **Dy dro di nawr / rŵan.**

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Eglurwch fod Uned 2 Rhan 5, **Ydych chi'n cofio?**, yn cynnwys clipiau o wahanol fathau o raglenni teledu.

Adran 1

- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 2, Rhan 5). Canolbwyntiwch ar y rhan ble mae Crad yn gwylio rhaglen gwis. Stopiwch y ffilm ar ôl i Ffion ddod i mewn a gofynnwch:

Ydy Josh, Elin a Cai yn dda ... yn dda iawn ... neu ...yn ardderchog?

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio, h.y. faint sy'n credu'r canlynol:

Ydy Josh yn dda?

Ydy Josh yn dda iawn?

Ydy Josh yn ardderchog?

Cofnodwch nifer y pleidleisiau ar y bwrdd gwyn.

Pleidleisiwch dros berfformiad Elin a Cai yn yr un modd. Gofynnwch: **Pwy ydy'r gorau?**

- Gwyliwch ran Josh eto ac yna trafodwch sut y gallai wella ei berfformiad (e.e. gallai roi ateb llawnach / mynegi barn).
- Gwyliwch ran Elin eto ac yna trafodwch sut y gallai hi wella ei pherfformiad (mynegi barn).
- Gwyliwch ran Cai eto ac yna dangoswch fod ei atebion yn llawnach a'i fod yn mynegi barn:
Mae'n grêt.
Mae'n hwyl.
- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae'r tri chystadleuydd yn ateb cwestiynau. Stopiwch y ffilm ar ôl i Ffion a Crad benderfynu ysgrifennu cwestiynau er mwyn creu eu rhaglen gwis eu hunain.

Nawr, gallai'r disgyblion greu eu rhaglen gwis eu hunain. I ddechrau, gallai pawb ysgrifennu dau gwestiwn yn Gymraeg gan ddefnyddio patrymau yma:

Ble mae ...? e.e.

Ble mae Llandudno?

Ble mae Affrica? (gan ddefnyddio glôb)

Yma. / Fan hyn. / Dyma Affrica. (gan bwyntio at y cyfandir ar glôb.)

Pwy ydy ...? e.e.

Pwy ydy hwn? (gan ddangos llun)

Pwy ydy capten Manchester United?

Beth ydy ...? e.e.

Beth ydy hwn? (gan ddangos gwrthrych)

Beth ydy dog yn Gymraeg?

Beth sy yn ...? e.e.

Beth sy yn Llandudno?

Beth sy yn yr ysgol?

Cyn cymryd rhan yn y cwis, dylai'r disgyblion baratoi darnau byr i gyflwyno'u hunain. Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 17** i'w cynorthwyo:

Rydych chi mewn cwis ar y teledu.

Mewn parau, dylai un disgybl chwarae rôl y cyflwynydd a dylai'r llall gyflwyno'i hun. Os oes angen, dylai'r cyflwynydd ofyn cwestiynau er mwyn sbarduno ymateb sydd mor llawn â phosib:

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Wyt ti'n hoffi ...?

Beth ydy dy hoff ... di?

- Yna, dylai'r disgyblion gymryd rhan yn y cwis:

Dylid rhannu'r disgyblion i dimau a dylid dewis cyflwynydd. Os yw'n addas, gellid dewis criw ffilmio i recordio'r cwis. (Byddai hyn yn gofnod gwych o'r gwaith.)

Dylai'r cyflwynydd groesawu'r gynulleidfa a chyfarch y tîm:

Croeso.

Prynhawn da. Pwy ydych chi?

Dylai'r timau gyflwyno'u hunain gan ddweud cymaint ag y gallan nhw amdanyn nhw eu hunain.

Dylai'r cyflwynydd wahodd y disgyblion yn unigol i ofyn eu cwestiynau.

Beth ydy'ch cwestiwn chi?

Adran 2

Yn yr adran hon, gwelir rhaglen goginio ar y sgrin, ond mae problem gyda'r ffilm ac felly mae'n rhaid i'r disgyblion greu'r sylwebaeth.

- Eglurwch y broblem i'r disgyblion. Cyflwynwch ac adolygwch yr eirfa angenrheidiol, e.e. gallech chi ddod â'r cynhwysion / offer cegin canlynol gyda chi i'r dosbarth a'u defnyddio wrth adolygu'r eirfa Gymraeg:

bara brown

menyn

tomato

cyllell

Perfformiwch / Meimiwch y canlynol:

torri – rhaid torri

Blasus!

Dangoswch yr ail ran. Canolbwyntiwch ar y camau yn y broses o greu'r frechdan. Adolygwch y geiriau sy'n gysylltiedig â'r broses.

Dangoswch y ffilm eto. Yna, gofynnwch i grwpiau baratoi'r sylwebaeth neu actio'r sefyllfa gan ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud. Eto, gellid ffilmio hyn fel cofnod o'r gwaith.

Os yw'n bosib, rhowch gyfle i'r disgyblion wneud brechdanau, eu rhannu a mynegi barn.

Adran 3

Yn yr adran hon, gwelir plant yn ceisio penderfynu beth i'w wisgo ar gyfer parti a rhan o 'ddrama' neu 'opera sebon'.

- Dangoswch y clip a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r ffilm?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r ffilm. Mae'n dda iawn.

Mae'n ddiddorol iawn.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae'r plant yn dda iawn.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm. Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos dw i ddim yn hoffi'r stori.

Dw i'n hoffi'r ffilm ond dw i ddim yn hoffi'r dillad.

- Canolbwyntiwrch ar yr adrannau sy'n canolbwyntio ar yr y ferch a'r bachgen sy'n ceisio penderfynu beth i'w wisgo.
Ar ôl y clipiau, gofynnwch i'r disgyblion:
Pa ddillad? Ydych chi'n cofio?

Yna, dylen nhw geisio cofio cymaint o'r dillad â phosib.

Gallen nhw ddychmygu eu bod nhw'n mynd i barti:

Beth wyt ti'n mynd i wisgo?

Dylen nhw drafod hyn mewn grwpiau.

- Mewn parau neu grwpiau, dylai'r disgyblion drafod y senario sydd ar **Cerdyn Siarad 18 Rydych chi yn y farchnad. Rydych chi eisiau dillad newydd. Pa stondin?**

Rhaid i'r disgyblion benderfynu pa stondin sydd fwyaf addas ar gyfer prynu dillad (**stondin dillad**) a rhaid chwarae rôl. Dylai un ohonyn nhw chwarae rôl y cwsmer a dylai'r llall chwarae rhan y siopwr. Hefyd, dylid cyfnewid rolau fel bod y disgyblion yn actio'r sefyllfa ddwywaith.

- Dangoswch y rhan ble mae'r merched yn gwneud hwyl am ben Dan eto a gofynnwch i un o'r disgyblion chwarae rhan Dan ac eistedd yn y gadair goch. Dylai'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau iddo / iddi. Gellid ysgrifennu'r geiriau canlynol ar y bwrdd gwyn er mwyn eu hysgogi:

Pwy?

Ble?

Beth ... wisgo?

Sut?

e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti?

Beth wyt ti'n wisgo?

Sut wyt ti?

Y gobaith yw y bydd Dan yn ateb:

Dw i'n drist.

Os oes angen, gofynnwch:

Wyt ti'n hapus?

Gallai hyn arwain at drafodaeth ar fwlio - yn Saesneg o bosib.

- Gwyliwch weddill y ffilm. Os yw'n bosib, trefnwch barti yn Gymraeg fel bod y disgyblion yn gallu penderfynu yn Gymraeg beth maen nhw eisiau ei wisgo, pa gemau i'w chwarae a pha fwyd i'w fwyta. Gallan nhw wneud y bwyd, gan ddefnyddio patrymau a geirfa sydd eisoes wedi eu cyflwyno.

Gallai'r disgyblion wahodd ei gilydd i'r parti, e.e. drwy ddylunio a chreu gwahoddiadau (gweler Rhan 1), anfon neges e-bost, ysgrifennu llythyr neu wneud galwad ffôn.

Dyma rai ymadroddion a phatrymau i'ch helpu chi:

Gemau parti:

Ydych chi eisiau chwarae gêm?

Pa gêm?

Mae Simon yn dweud ...

a.y.b.

Bwyd parti:

Pa fwyd?

Ydych chi eisiau ...?

Beth am ...?

Syniad da.

Dw i ddim eisiau ...

Yn ystod y parti, anogwch y disgyblion i ofyn i'w gilydd am fwyd, neu i gynnig bwyd i'w gilydd, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau sydd wedi eu hadolygu yn yr uned hon:

Ga i ...?

... os gwelwch yn dda.

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Wyt ti eisiau ...?

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dim diolch.

Hefyd, anogwch nhw i fynegi barn am y bwyd, e.e.

Blasus!

Mae'n flasus!

Mae'n hyfryd!

Mae'n ofnadwy!

Ych a fi!

- Ar ôl y parti, dangoswch ran olaf y ffilm eto. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu:
Ble mae Dan?
Atebion posib:
Yn yr ardd.
Yn y gegin.
Yn y parc.
Yn y ffair.
a.y.b.
- Dylid cyflwyno'r llyfr, **Y Parti Gwisg Ffansi!** a gellid ymgymryd â'r gweithgareddau sydd wedi'u rhestru yng nghefn y llyfr. Mae'r llyfr hwn yn cynnig cyfleoedd i drafod teimladau ac, yn benodol, teimladau pobl eraill oherwydd gellid annog y disgyblion i ystyried teimladau'r cymeriadau ar wahanol adegau yn y stori, e.e.
ar y dechrau
ar y diwedd

yn hapus
yn drist
yn nerfus
yn ofnus
- Os yw'n briodol, gallech chi ail-ddangos rhannau o **Fflic a Fflac, Pecyn 3, Uned 2**, sy'n canolbwyntio ar barti Nadolig. Gallech chi ail-ymweld â'r deunydd darllen a grëwyd ar gyfer yr uned honno, sef **Pecyn Parti**.
- Gellid defnyddio'r uned hon i annog y disgyblion i gynhyrchu eu rhaglenni teledu eu hunain, e.e.
 - rhaglen dywydd
 - rhaglen goginio
 - drama fer
 - rhaglen gwis
 - rhaglen gylchgrawn, ble gall un disgybl holi un arall.

Gallai'r rhaglenni hyn gael eu ffilmio a'u gwyllo a byddai hyn, yn ei dro, yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn a gwerthuso'u gwaith nhw eu hunain a gwaith ei gilydd.

Uned 3

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Mae nifer helaeth o ofynion Rhaglen Astudio CA2 yn cael eu targedu yn yr uned hon. Caiff y disgyblion gyfle i wrando ar wahanol bobl yn siarad Cymraeg ac i ymateb mewn modd addas mewn amryw sefyllfaoedd. Maen nhw'n cyfrannu i drafodaethau grŵp neu ddosbarth e.e. wrth iddyn nhw rannu gwybodaeth a mynegi barn am yr Arctig a'r Inuit. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth ac yn ymateb i gyfarwyddiadau syml, e.e. wrth iddyn nhw ymgymryd ag arbrawf gwyddonol.

Mae'r deunydd darllen sydd wedi ei ysgrifennu i gyd-fynd â'r uned yn rhoi cyfle i'r disgyblion gywain gwybodaeth ac i fwynhau ac ymateb i un o chwedlau'r Inuit.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu yn Gymraeg, e.e. rhestri, negeseuon e-bost, dyddiadur, cwestiynau ar gyfer gweithgaredd cwis a darn ffeithiol am yr Arctig.

Gwyddoniaeth:

Cyflwynir geirfa a phatrymau iaith penodol y gellir eu defnyddio mewn sesiynau gwyddoniaeth, e.e.

golau

cysgod

Mae'n dywyll.

thermomedr

gradd

arbrawf

wedi rhewi

Beth am wneud arbrawf?

Edrycha ar y ...

Rhaid rhoi'r ... yn y ...

Yn ogystal, trafodir y thema **Tywyll a golau** yn Rhan 1, lle caiff amryw ffynonellau golau eu cyflwyno. Caiff golau ei rwystro rhag mynd i mewn i'r llygaid drwy wisgo mwgwd a chaiff cysgodion eu taflu ar wal. Cyflwynir yr haul fel prif ffynhonnell goleuni'r ddaear ac rydyn ni'n dysgu fod yr Arctig yn dywyll yn ystod misoedd y gaeaf am nad yw'r haul yn disgleirio. Ymgymerir â'r gwaith hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid gwneud gwaith pellach, yn Saesneg o bosib, gan gynnwys chwilio am wybodaeth ychwanegol o wahanol ffynonellau.

Yn Rhan 2, **Cynnes ac oer**, mae'r cysyniad o rewi, yn cael ei adolygu ac mae nifer o eitemau a gafodd eu rhewi yn dadmer yng ngwres y Pod-antur Cymraeg, gan ddangos bod rhewi yn newidiad y mae modd ei wyrdroi.

Wrth i'r disgyblion gael eu cyflwyno i rai o'r anifeiliaid sy'n byw yn y Cylch Arctig, maen nhw'n dysgu bod yr anifeiliaid hyn wedi ymaddasu i'w hamgylchedd. Mae gan yr hysgwn ddwy got o ffwr i'w cadw nhw'n gynnes yn ystod y gaeaf; mae gan lwynog yr Arctig got o ffwr trwchus dros ei gorff sy'n gorchuddio'i draed hyd yn oed, ac mae'n gallu newid ei liw dros fisoedd y gaeaf fel ei fod yr un lliw â'r eira a'r rhew o'i gwmpas; mae gan yr arth wen ddwy got o ffwr trwchus, gydag un ohonyn nhw'n gweithredu fel cuddliw yn yr amgylchedd gwyn, sy'n caniatáu i'r arth hela heb iddi gael ei chanfod. Gweler y cardiau darllen **Yr Arctig** ac **Yr Hysgi**.

Mathemateg

Ar ddiwedd y rhan gyntaf, gellid annog y disgyblion i fesur cysgodion ar wahanol adegau o'r dydd gan ddewis a defnyddio offer mesur addas ac yna plotio'r wybodaeth ar ffurf graff.

Yn yr ail ran, **Cynnes ac oer**, mae cyfle i adolygu'r rhifau yn Gymraeg drwy adio a thynnu'r rhifau sydd ar gardiau rhifau.

Yn ogystal, mae cyfleoedd i fesur, cofnodi a thrafod tymheredd a chyflwynir geirfa berthnasol, e.e.

gradd

sero

minws

Gan ddefnyddio thermomedr sy'n mesur y tymheredd uchaf ac isaf, gallai'r disgyblion gofnodi'r tymheredd gyda'r nos a'r tymheredd yn ystod y dydd, eu plotio nhw ar graff ac egluro, yn Gymraeg, y gwahaniaeth rhwng tymheredd y dydd a'r nos.

Mae cyfleoedd i ymarfer adio mewn gweithgareddau rhestru a chwis, e.e. gellid rhoi nifer penodol o farciau ar gyfer pob eitem sydd wedi'i chynnwys ar restr neu am bob ateb cywir mewn cwis, ac yna gellid cyfrifo nifer y marciau.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddefnyddio cyfesurynnau i nodi lleoliad lleoedd penodol. Gellid gofyn iddyn nhw ddarganfod ardal benodol yn y Cylch Arctig a rhoi'r cyfesurynnau i'w partner er mwyn eu galluogi hwythau i ddod o hyd i'r un ardal.

Daearyddiaeth

Gellid annog y disgyblion i ddefnyddio'u sgiliau daearyddol i "ganfod lleoedd ... yn defnyddio globau, atlasau a mapiau", e.e. lleoliad y Cylch Arctig. Ar ddiwedd Rhan 2, **Cynnes ac Oer**, anogir y disgyblion i ddefnyddio ffynonellau eilaidd a TGCh i chwilio am fwy o wybodaeth am y Cylch Arctig. Yn Rhannau 3-5, darperir mwy o wybodaeth am yr Arctig a'r Inuit ac ar y cerdyn darllen, **Yr Arctig**, darperir ychydig o wybodaeth sylfaenol am hinsawdd ac anifeiliaid yr Arctig.

Saesneg

Bydd llawer o'r ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer chwilio am wybodaeth am y Cylch Arctig yn Saesneg ac felly bydd rhaid i'r disgyblion ddewis pa rannau o'r dogfennau i'w darllen yn fanwl fel eu bod nhw'n gallu cywain y wybodaeth angenrheidiol. Gallen nhw gofnodi ffeithiau allweddol drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Celf a dylunio

Adolygir geirfa a phatrymau iaith y gellir eu defnyddio mewn gwersi celf a dylunio. Gweler y ddogfen, **Patrymau Iaith Pa-C₁**. Yn ogystal, cyflwynir patrwm newydd yn yr uned hon a gellid ei ddefnyddio yn ystod pob sesiwn greadigol:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Yn Rhan 1, **Tywyll a golau**, ymgwymerir â gwaith sy'n ymwneud â thôn - **tywyll a golau**. Anogir y disgyblion i gymysgu paent er mwyn creu gwahanol donau ac i ddefnyddio'r paent wrth iddyn nhw greu darn o waith celf. Yna, gallan nhw ddisgrifio'u gwaith i ddisgyblion eraill. Yn ogystal, gallen nhw astudio paentiad enwog a sylwi'n benodol ar y tonau lliw.

Yn Rhan 4, **Bobl bach!**, mae Ffion yn penderfynu creu darn o gelf sy'n dangos Golau'r Gogledd neu'r Aurora Borealis. Gellid defnyddio'r adran hon i ysbrydoli'r disgyblion i greu darnau o waith celf ar yr un thema ac yna i werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Gweler y ddogfen, **Patrymau Iaith Pa-C₁** am eirfa a phatrymau iaith perthnasol.

Gellid annog y disgyblion i chwilio am wybodaeth a lluniau sy'n darlunio celf yr Inuit er mwyn eu copïo a'u haddasu, gan ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud a gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Dylunio a thechnoleg

Ar ddiwedd Rhan 1, **Tywyll a golau**, anogir y disgyblion i daflu cysgodion ar wal. Gallen nhw wneud hyn drwy ddefnyddio'u dwylo neu gallen nhw wneud pypedau ffon a defnyddio'r rhain.

Yn yr ail ran, **Cynnes ac oer**, gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am yr Arctig a chreu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth. Fel rhan o'r arddangosfa gallen nhw gynllunio ac adeiladu model o iglw, slediau bychain, mygydau'r Inuit a.y.b.

TGCh

Cyflwynir ac adolygir geiriau sy'n gysylltiedig â TGCh yn yr uned hon. Mae Crad yn defnyddio gwegam a chyfrifiadur ac anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth a lluniau ar y we:

Chwiliwch am wybodaeth ar y we.

Chwiliwch am luniau ar y we.

Yn ogystal â chwilio am wybodaeth (e.e. dillad gaeaf, y Cylch Arctig, anifeiliaid yr Arctig ac ati) ac amryw luniau (e.e. yr Aurora Borealis, celf yr Inuit ac ati) ar y rhyngwrdd, gellid gofyn i'r disgyblion gyflwyno'r wybodaeth maen nhw'n ei darganfod mewn amryw ffurfiau sy'n cynnwys lluniau ac ati. Gallen nhw baratoi cyflwyniad PowerPoint ar gyfer gwasanaeth ysgol o bosib.

Addysg gorfforol

Yn y rhan gyntaf, **Tywyll a golau**, caiff geiriau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â chyfeiriad eu hadolygu. Gellid atgyfnerthu'r rhain gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymarfer corff, wrth ofyn i'r disgyblion symud i gyfeiriadau penodol.

Yn y bedwaredd ran, **Bobl bach!**, mae Crad yn dysgu Ffion i chwarae gêm neidio'r Inuit. Mae llawer o gemau'r Inuit yn seiliedig ar nerth a dehurwydd a gellid annog y disgyblion i chwilio am fwy o wybodaeth, os yw'n briodol. Fodd bynnag, dylai athrawon gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch cyn cyflwyno unrhyw un o'r gemau hyn.

Gellid gwylio dawnsfeydd yr Inuit ar y we drwy deipio **Inuit dancing / Inuit drumming** i mewn i'r peiriant chwilio ar y we ac yna gellid eu haddasu. Gellid eu cysylltu â rhythmau drymio neu ag agweddau ar fywyd yr Inuit, o bosib.

Cerddoriaeth

Fel y soniwyd uchod, gellir gweld enghreifftiau o ddrymio'r Inuit ar y we. Gallai'r disgyblion wneud eu drymiau 'Inuit' eu hunain a chyfansoddi amryw rythmau i'w defnyddio fel cyfeiliant i symudiadau dawn, gemau a.y.b.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cyflwynir pobl yr Inuit yn yr uned hon. Yn ogystal â dysgu am ffordd un o'r plant o fyw, yn y llyfr **Irniq**, mae sawl cyfle i'r disgyblion ymgymryd â mwy o waith ymchwil, fel y gwelir uchod. Os yw'n addas, gallai'r disgyblion gymharu a chyferbynnu eu bywyd nhw gyda bywyd yr Inuit:

Mae Irniq yn byw mewn ...

Dw i'n byw mewn ... (hefyd).

Mae Irniq yn hoffi ...

Dw i'n hoffi ... (hefyd).

Mae Irniq yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi ...

Byddai'n well peidio â chyflwyno gosodiadau negyddol gan na fydd rhai o'r disgyblion, o bosib, yn gyfarwydd â'r patrymau negyddol priodol.

Yn ogystal, gallai'r gwaith a gynhwysir yn yr uned hon arwain at drafodaeth (yn Saesneg o bosib) am faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd e.e. gellid tynnu sylw at y ffaith bod rhannau o'r rhew yn yr Arctig yn dadmer oherwydd cynhesu byd eang a bod anifeiliaid megis yr arth wen mewn perygl. Gallai hyn arwain at drafodaeth am y pethau bychain y gallwn ni eu gwneud er mwyn arbed ynni a chyfrannu at leihau'r effeithiau hyn.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith, patrymau a geirfa a gyflwynwyd eisoes fel ei bod yn sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Drwy gydol yr uned, rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion adolygu ac adeiladu ar wybodaeth maen nhw eisoes wedi ei dysgu drwy lunio rhestr, chwarae gemau ac ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, rhai ohonyn nhw'n drawsgwricwlaidd. Yna, byddan nhw'n adeiladu ar y wybodaeth yma.

Cânt eu hannog i feddwl am gwestiynau ac i ffurfio, datblygu a mynegi syniadau. Fe'u hanogir i ddatblygu ac ystyried syniadau am ddillad gaeaf addas i'w rhoi ar wefan yr ysgol a gofynnir iddyn nhw gynllunio, datblygu ac ystyried syniadau wrth iddyn nhw chwilio am wybodaeth am yr Arctig a chwblhau grid GED.

Datblygu cyfathrebu

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Maen nhw'n cael nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac i ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Maen nhw'n dysgu i gyfathrebu mewn amryw ffyrdd ac at bwrpasau gwahanol, gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau e.e. graffiau, mapiau, amrywiaeth o ddarnau ysgrifenedig byr, rhai ohonyn nhw'n cynnwys delweddau.

Datblygu TGCh

Gofynnir i'r disgyblion greu catalog o ddillad gaeaf a phoster sy'n dangos dillad gaeaf addas. I wneud hyn, bydd rhaid iddyn nhw chwilio am luniau addas ac yna ysgrifennu darnau byr i gyd-fynd â nhw. Yna, gellid rhoi'r gwaith yma ar wefan yr ysgol er mwyn dangos beth i'w wisgo yn ystod misoedd oer y gaeaf.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio TGCh er mwyn chwilio am wybodaeth am y Cylch Arctig ac am yr Inuit. Dylid rhannu a chyflwyno'r wybodaeth hon mewn amryw ffyrdd, e.e. taflen neu gyflwyniad PowerPoint; gellid cynnwys lluniau yn y ddau.

Datblygu rhif

Caiff y disgyblion gyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, i gyfrifo, dehongli a chyflwyno'u canfyddiadau. Maen nhw'n defnyddio rhifau a'r system rif ac yn casglu a chofnodi data mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys graffiau.

Uned 3: Rhan 1 - Tywyll a golau

Nodau

- Cyflwyno'r cysyniad o dywyllwch a golau: **Mae'n dywyll. Mae'n olau.**
- Datblygu gwaith sy'n gysylltiedig â theimladau: **Dw i'n teimlo'n ofnus.**
- Defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu yn ystod gweithgaredd celf a dylunio: **Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...**
- Adolygu'r patrwm: **Does dim ...**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n dywyll. Dw i'n teimlo'n ofnus. Beth wyt ti'n ddefnyddio? * Dw i'n defnyddio ... * Mae'n beryglus. Dyna ddigon! Wyt ti'n gallu gweld?	switsh golau tortsh lamp cannwyll bwlb peryglus yn y dydd yn y nos cysgod, cysgodion

- * Os ydych chi'n siarad â grŵp, defnyddiwch y patrymau yma:
Beth ydych chi'n ddefnyddio?
Rydyn ni'n defnyddio ...

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau chwarae gêm? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Dw i ddim yn siŵr. Sut mae chwarae? Rhaid ... Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Pa liw ydy e / o? Beth ydy'r sŵn? Gorchmynion Edrycha. Gwisga hwn. Teimla fo / fe. Arall Nesa. Mae'n hwyl. Mae'n oer. Mae'n bwrw eira. Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi.	symud cyfrifiadur haul seren yn bell i ffwrdd

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae'r ...?

Wyt ti'n gallu gweld ...?; Ydw.; Nac ydw.

Ydych chi'n gallu gweld ...?; Ydyn.; Nac ydyn.

Wyt ti'n siŵr?; Ydw.; Nac ydw.

Ydych chi'n siŵr? Ydyn.; Nac ydyn.

Beth ydy hwn?

Beth ydy'r rhain?

Dyna ddigon!

Does dim ... e.e.

Does dim papur ar y bwrdd.

Does dim paent yn y bocs.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyn gwyllo'r ffilm, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion adolygu'r lliwiau yn Gymraeg e.e. drwy ysgrifennu rhestr, labelu sbectrwm lliw ac ati.

Gallen nhw greu lliwiau tywyll a golau drwy gymysgu lliwiau, e.e.

Glas. Dw i'n cymysgu glas a gwyn - glas golau.

Glas. Dw i'n cymysgu glas a du - glas tywyll.

Gallen nhw ddefnyddio'r lliwiau newydd mewn paentiad.

Gallen nhw werthuso'u paentiadau eu hunain a phaentiadau ei gilydd, e.e.

Dw i'n hoffi'r glas golau / tywyll.

Mae'r glas golau / tywyll yn effeithiol.

Mae angen / eisiau mwy o las golau / tywyll yma / fan hyn.

Gellid dangos paentiad enwog a thrafod y gwahanol donau lliw sydd ynddo.

- Dangoswch y ffilm **Tywyll a golau** (Uned 3, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y dechrau a stopiwch y ffilm cyn y gêm.
- Yn dilyn hyn, dylai'r disgyblion adolygu'r geiriau sy'n dangos cyfeiriad, e.e.
i fyny
i lawr
rownd a rownd
i'r chwith
i'r dde

Gan ddefnyddio tortshis, gallen nhw ddefnyddio'r patrymau uchod wrth ddweud wrth ei gilydd i ba gyfeiriad y dylen nhw anelu'r golau ar wal.

- Gellid atgyfnerthu'r ymadroddion hyn mewn sesiwn addysg gorfforol neu drwy chwarae gêm o
Mae Simon yn dweud, e.e.
Mae Simon yn dweud ...
... neidiwch i fyny / i lawr
... trowch rownd a rownd
... symudwch i'r chwith / i'r dde
- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi clywed y geiriau Cymraeg isod ar y ffilm:
Beth ydy light yn Gymraeg? - golau
Beth ydy dark yn Gymraeg? - tywyll / dywyll; Mae'n dywyll.

- Dangoswch y ffynonellau golau y soniwyd amdany'n nhw ar y DVD a gofynnwch iddyn nhw eu henwi yn Gymraeg:
Beth ydy hwn?
- Gellid datblygu'r gwaith ar olau a thywyllwch ymhellach. Gellid annog y disgyblion i feddwl am ffynonellau golau eraill a cheisio cofio geiriau Cymraeg maen nhw wedi'u clywed yn y gorffennol o bosib e.e. gellid defnyddio'r llyfrau canlynol, a gyflwynwyd ym mhecynnau **Fflic a Fflac**, **Noson Tân Gwyllt** (ffynhonnell golau: **tân; tân gwyllt; sbarclers**) **Croesi'r ffordd** (ffynonellau golau: **golau gwyrdd; golau coch**)

Ffynonellau golau eraill:

teledu

car / golau car

goleuadau traffig

goleuadau Nadolig

llusern

Gofynnwch i'r disgyblion:

O ble mae golau'n dod?

Yna, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu rhestr, gan gynnwys y geiriau ar y DVD ac unrhyw ffynonellau eraill a drafodwyd. Rhowch her iddyn nhw:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Yna, gofynnwch iddyn nhw sawl gair maen nhw wedi'i ysgrifennu – yn Gymraeg – a gofynnwch iddyn nhw ddweud y rhif yn Gymraeg.

Cyfrwch y geiriau yn Gymraeg.

Sawl un?

Pwy sy wedi ennill?

- Gallai'r disgyblion wneud **cornel dywyll** yn yr ystafell gan ddefnyddio eitemau o'u dewis, megis **cot, blanced, tywel mawr, bwrdd, cadair** a.y.b. Yna, gallen nhw fynd ag amryw ffynonellau golau i'r gornel er mwyn ceisio goleuo'r gornel:
Dw i eisiau tortsh.
Rhaid cael tortsh.

Gallen nhw ddisgrifio'u teimladau yn y **gornel dywyll**:

Dw i'n hapus.

Dw i'n teimlo'n hapus.

Dw i'n nerfus.

Dw i'n teimlo'n nerfus.

Dw i'n ofnus.

Dw i'n teimlo'n ofnus.

Dw i'n drist.

Dw i'n teimlo'n drist.

- Canolbwyntiwch ar ran nesa'r ffilm, ble mae Crad a Ffion yn chwarae gêm – hyd at y darn ble mae Ffion yn dweud:
Dyna ddigon! Dw i eisiau gweld y golau.
ac maen nhw'n tynnu'r mwgwd.

Ar ôl cuddio'i llygaid, mae Ffion yn dweud, "**Mae'n dywyll**" ac mae Crad yn egluro'i bod hi'n dywyll am nad oes golau'n mynd i mewn i'w llygaid hi:

Does dim golau'n mynd i mewn i'r llygaid.

Gallai'r disgyblion brofi hyn drostyn nhw eu hunain. Gallen nhw wisgo mygydau neu osod eu dwylo dros eu llygaid, gan ddefnyddio'r patrymau a gyflwynwyd eisoes yn y Cyfnod Sylfaen:

Dwylo dros y llygaid.

Dim pipo!

Does dim golau – mae'n dywyll.

- Cyn chwarae'r gêm ar y ffilm, mae Crad yn gofyn:
Beth ydy'r rhain, blant?
Dylid annog y disgyblion i alw'r enwau Cymraeg am yr eitemau a welir ar y ffilm.

- Yna, gallen nhw chwarae'r gêm gan ddefnyddio amryw eitemau. Dylid eu hannog i ddefnyddio'r patrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ar y DVD:

Beth ydy hwn?

Teimla fe / fo.

Tria eto.

Pa liw ydy e / o?

- Canolbwyntiwrch ar ran nesaf y ffilm, ble mae Sgrin yn cyflwyno gwybodaeth am yr haul.

Os ydych chi'n dymuno, gellid ymgymryd â gwaith pellach yn y cyd-destun hwn, er mwyn dangos sut mae'r ddaear yn troi mewn perthynas â'r haul, gan greu dydd a nos. Gellid defnyddio unrhyw adnoddau addas i egluro hyn:

Edrychwch – dyma'r haul.

Dyma'r ddaear.

Dyma ... (enw pentref neu dref yr ysgol) Gosodwch sticer i ddynodi lleoliad eich ysgol.

Mae'r ddaear yn troi.

Edrychwch, golau o'r haul ar ... – dydd.

Edrychwch, does dim golau o'r haul ar ... – nos.

- Dangoswch y rhan ble mae Ffion yn sylweddoli nad yw ei thortsh hi'n gweithio – hyd at y darn ble mae hi'n gadael.

Gellid rhannu tortshis i'r disgyblion fel eu bod nhw'n gallu dynwared Crad a Ffion, sy'n cynnau ac yn diffodd eu tortsh:

Golau ... Does dim golau.

- Gellid ymgymryd â mwy o waith sy'n gysylltiedig â batris os yw'n briodol.

- Wrth i Ffion wisgo'i sbectol haul, gallech chi bwysleisio bod gwisgo sbectol haul yn bwysig ar ddyddiau heulog a thrafod pam.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio a gwneud eu sbectol haul eu hunain drwy ddefnyddio cerdyn neu ddefnydd addas arall. Dylen nhw ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n gwneud sbectol haul.

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Dylen nhw werthuso'u gwaith, e.e.

Dw i'n hoffi'r ... yn fawr.

Mae'r ... yn dda / yn dda iawn / yn ardderchog.

Mae'r ... yn effeithiol.

Mae angen mwy o ... yma.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith Pa-C₁**.

- Dangoswch ran olaf y ffilm.
- Gallai'r cyfeiriadau at **eliffant** a **ci** yn y rhan olaf arwain at sesiwn o fingo anifeiliaid, gan ddefnyddio cardiau bingo sy'n cynnwys enwau neu ddelweddau o anifeiliaid, neu gallai'r disgyblion ysgrifennu rhestr o enwau anifeiliaid yn Gymraeg. Cyn dechrau, gellid eu hatgoffa o sefyllfaoedd eraill ble maen nhw wedi dysgu am anifeiliaid, e.e. drwy drafod anifeiliaid anwes yn y Cyfnod Sylfaen efallai, wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, neu, o bosib, ar saffari gyda Fflic a Fflac (Pecyn 4).

- Gellid adolygu'r cwestiwn **Beth ydy'r sŵn?** drwy chwarae gêm.

Gallai'r disgyblion gau eu llygaid a gwrando ar un ohonyn nhw'n gwneud sŵn anifail. Dylai'r disgybl hwnnw ofyn:

Beth ydy'r sŵn?

Ar ôl i ddisgybl ateb yn gywir, yn Gymraeg, gallai ddod i flaen y dosbarth i wneud sŵn anifail arall a.y.b.

- Gellid cyflwyno'r cerdyn darllen **Cysgod ... Cysgodion** ac yna gellid annog y disgyblion i daflu cysgodion ar wal, gan ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg, os yn bosib:

Dyma'r golau.

Dyma'r wal.

Dw i'n gwneud cysgod ar y wal.

Ci.

Gallai'r disgyblion wneud pypedau addas a'u defnyddio i daflu cysgodion ar y wal. Wrth iddyn nhw wneud y gwaith yma, dylid eu hannog i ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg:

Dw i'n gwneud llun crocodeil.

Dw i'n torri allan.

Dw i'n gludo ffon ar y crocodeil.

Dw i'n gwneud cysgod ar y wal.

Gellid defnyddio'r pypedau yma ar gyfer chwarae rôl yn ogystal.

- Gellid ymgymryd â gwaith pellach o ran cysgodion, e.e. gellid annog y disgyblion i fesur y cysgodion mae'r haul yn eu taflu ar wahanol adegau o'r dydd:

Beth am fesur y cysgod?

Sawl centimetr / metr?

- Dangoswch ran o'r ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Uned 3: Rhan 2 - Cynnes ac oer

Nodau

- Trafod cynnes ac oer - **cynnes / yn gynnes; oer / yn oer; oer iawn, iawn / yn oer iawn, iawn; wedi rhewi**
- Sôn am dymheredd yn Gymraeg – ... **gradd Celsius**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n gynnes. Tynna dy got. Wedi rhewi! Dw i wedi rhewi. Mae'n rhewi.	cynnes thermomedr dau ddeg gradd Celsius wedi rhewi arbrawf rhwgell sero weithiau y gaeaf yn y gaeaf yn yr haf tu allan tu mewn tywydd oer gwlad Yr Arctig

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n bod? Wyt ti eisiau dŵr? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Ble mae'r menig? Gorchmynion Edrycha. Edrychwch. Rhaid gwisgo dillad cynnes. Rhaid rhoi dŵr yn y botel. Arall Mae'n oer iawn. Pardwn?	wyneb trwyn clustiau dwylo dŵr siocled brechdan pys moron cacen hufen iâ blasus dillad cap sgarff menig crys trowsus siwmpwr sanau bŵts cot

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae'r ...?

Mae'n gynnes.; Mae'n oer.; Mae'n rhewi.

Beth sy'n bod?

Tynna dy got. Hefyd: **Tynnwch eich cotiau.**

Pardwn?

Edrycha.; Edrychwch.

Edrycha ar y thermomedr.; Hefyd: **Edrychwch ar y thermomedr.**

Wyt ti eisiau ...?; Ydw.; Nac ydw. Hefyd: **Ydych chi eisiau ...?; Ydyn.; Nac ydyn.**

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyn gwyllo'r ffilm, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion adolygu'r rhifau Cymraeg hyd at 20. Gellir gwneud hyn mewn amryw ffyrdd, e.e. chwarae bingo; yn ystod gweithgareddau mathemategol, e.e. adio neu dynnu rhifau sydd ar ddau gerdyn; yn ystod sesiynau addysg gorfforol drwy ofyn i'r disgyblion sgipio, hercian neu neidio gan gyfrif yn Gymraeg.
- Yn ogystal, dylen nhw adolygu'r geiriau Cymraeg sy'n ymwneud â'r wyneb. Gellir gwneud hynny drwy chwarae'r gêm ganlynol:
Dylid rhoi darn o bapur a phensil i bob disgybl.
Dylid rhoi dis i bob grŵp.
Yn eu tro, dylen nhw daflu'r dis a thynnu llun wyneb fel a ganlyn:
Ar ôl taflu chwech, dylen nhw amlinellu'r **wyneb**.
Ar ôl taflu pump, dylen nhw dynnu llun **trwyn**.
Ar ôl taflu pedwar, dylen nhw dynnu llun **ceg**.
Ar ôl taflu tri, dylen nhw dynnu llun **clust** neu **glustiau**.
Ar ôl taflu dau dylen nhw dynnu llun **llygad** neu **lygaid**.
Ar ôl taflu un, dylen nhw dynnu llun **gwallt**.
- Cyflwynwch thema'r rhan hon o'r uned a gofynnwch y cwestiynau canlynol er mwyn adolygu:
Rydyn ni'n mynd i siarad am Cynnes ac Oer.
Beth ydy It's warm? ... Mae'n gynnes.
Beth ydy It's cold? ... Mae'n oer.
Beth ydy It's very cold? ... Mae'n oer iawn.
Beth ydy It's very, very cold? ... Mae'n oer iawn, iawn.
Os yw'n addas, gofynnwch:
Beth ydy It's freezing? ... Mae'n rhewi.

Pwysleisiwch **oer**. Gellid ymgymryd ag amryw weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adolygu geirfa thywydd oer, e.e. gallai'r disgyblion restru geiriau a phatrymau sy'n ymwneud â thywydd oer a dillad cynnes neu gallen nhw wneud mapiau meddwl sy'n seiliedig ar y geiriau **Yn y gaeaf**.

Yna, pwysleisiwch **cynnes**. Adolygwch eirfa sy'n gysylltiedig â thywydd cynnes a gofynnwch i'r disgyblion restru geiriau a phatrymau sy'n ymwneud â thywydd cynnes neu gallen nhw wneud mapiau meddwl sy'n seiliedig ar y geiriau **Yn yr haf**.
- Dangoswch y ffilm **Cynnes ac oer** (Uned 3, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf a stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin dynnu sylw at y gwahanol dymheredd:
Pum(p) gradd Celsius.
Deg gradd Celsius.

Gellid ymgymryd â mwy o waith mathemategol sy'n ymwneud â thymheredd, e.e. gallai'r disgyblion gofnodi tymheredd gwahanol rannau o'r ysgol ar adegau gwahanol o'r dydd, eu plotio nhw ar graff ac, yn syml, egluro'r graff, drwy ddefnyddio'r Gymraeg a'r patrwm:

Yn y bore, mae'n ... gradd Celsius ar yr iard/ ar y buarth / yn y neuadd / yn yr ystafell.

Yn y prynhawn, mae'n ... gradd Celsius ar yr iard / ar y buarth / yn y neuadd / yn yr ystafell.

- Dangoswch ran nesaf y DVD – hyd at y darn ble mae Crad yn dweud wrth Ffion am dynnu ei chôt: **Tynna dy got.**

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi sylwi ar y patrwm Cymraeg **wedi rhewi** ac atgoffwch nhw, os yw'n briodol, eu bod nhw wedi dod ar draws y geiriau **rhew / rhewi** wrth drafod y tywydd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, ac o bosib ym mhhecyn **Fflic a Fflac**, Pecyn 3, Uned 3, ble bu Lyn yn helpu Fflic a Fflac i wneud ciwbiau rhew a ble darllenon nhw stori am **Sioni Rhew**.

Tynnwch sylw at y ffaith bod Crad yn sôn am **ddillad cynnes** a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu rhestr o eitemau maen nhw'n eu hystyried yn ddillad cynnes, e.e.

**crys
siwmpwr
trowsus
sanau
cot
sgarff
cap
het
menig**

Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu beth mae Ffion yn ei wisgo o dan ei chot.

Beth mae Ffion yn wisgo o dan y got?

- Ar ôl trafod hyn, dangoswch y rhan nesaf, ble mae Ffion yn datgelu beth mae hi'n ei wisgo – hyd at y darn ble mae hi'n dangos y dillad mae Crad wedi'u rhoi iddi.
Mae hi'n gwisgo:

**crys T
siorts
sanau
fflip fflops**

Gofynnwch faint sydd wedi dyfalu'n gywir.

- Yna, gallai'r disgyblion wneud catalog o ddillad gaeaf neu bosteri sy'n cynnwys lluniau (e.e. eu lluniau eu hunain neu rai wedi'u torri allan o gatalogau / cylchgronau ac ati) a thestun, e.e.
**Yn y gaeaf, dw i'n gwisgo trowsus, cot, siwmpwr, esgidiau a sanau – dillad cynnes.
Rhaid gwisgo dillad cynnes yn y gaeaf.**

Gallen nhw ysgrifennu gwybodaeth, efallai ar ffurf nodyn atgoffa ar gyfer disgyblion yr ysgol, i'w hatgoffa i wisgo dillad cynnes yn ystod tywydd oer, a'i roi ar wefan yr ysgol:

Rhaid gwisgo ...

Yn y gaeaf, mae'n oer, rhaid gwisgo ...

Gallen nhw gymharu'r dillad maen nhw'n ei wisgo i'r ysgol yn ystod yr haf ac yn ystod y gaeaf.

Wrth iddyn nhw wneud y gwaith yma, dylen nhw ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n gwneud llun siwmpwr / cot.

Dw i'n lliwio'r siwmpwr.

Dw i'n torri allan.

Dw i'n ysgrifennu.

Dw i'n chwilio am lun ar y we.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm, gan orffen gyda Sgrin yn rhoi enghreifftiau o dymheredd negatif - **minws ... gradd Celsius**

Gallai'r disgyblion wneud arbrofion tebyg, e.e. gwneud ciwbiau rhew neu lolipop.

Gallen nhw weithio mewn grwpiau, gan gymryd eu tro i rewi hylif a dweud wrth ei gilydd beth i'w wneud. Byddai hyn yn gyfle da i adolygu patrymau sydd eisoes wedi eu cyflwyno a'u haddasu nhw i sefyllfa newydd, e.e.

Pwy sy eisiau gwneud arbrawf?

Pwy sy gynta?

Pwy sy nesa?

Fi sy nesa.

Ti sy nesa.

Rhaid rhoi'r dŵr yn y botel / blwch blociau rhew.

Rhaid rhoi'r botel / blwch blociau rhew yn y rhewgell.

Rhaid aros.

- Gallai'r disgyblion ddefnyddio thermomedr sy'n cofnodi'r tymheredd uchaf / isaf er mwyn cofnodi tymheredd y nos a thymheredd y dydd. Gallai'r disgyblion blotio'r rhain mewn graff. Gallen nhw gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng tymheredd y nos a thymheredd y dydd yn ogystal, os yw'n bosibl.

- Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 19** nawr:
Mae'n oer iawn, iawn. Disgrifiwch y parc.

Gofynnwch i'r disgyblion ydy'r cerdyn yn cyfeirio at dywydd oer neu gynnes:

Ydy hi'n oer neu'n gynnes?

Atgyfnerthwch eu hatebion: **Mae'n oer iawn, iawn.**

Gallai'r disgyblion feddwl am syniadau er mwyn medru trafod y parc yn y gaeaf, e.e. sut mae'r parc yn y llun yn edrych, neu'n wir, sut mae unrhyw barc yn edrych pan fydd hi'n oer iawn, iawn.

Dylid eu hannog i ddefnyddio **oer, oer iawn, iawn** ac **wedi rhewi** yn rhai o'u brawddegau:

Mae'n oer iawn, iawn - minws ...

Wedi rhewi:

Mae'r parc wedi rhewi.

Mae'r coed wedi rhewi.

Mae'r si-so wedi rhewi.

Mae'r siglen wedi rhewi.

Mae'r llyn wedi rhewi.

Hefyd, gallen nhw ddefnyddio **yn wyn.**

Mae'r parc yn wyn.

Mae'r coed yn wyn.

Hefyd:

Does dim blodau.

Does dim dail.

Gellid disgrifio lleoedd eraill hefyd, e.e. iard/buarth yr ysgol, yr ardal leol a.y.b.

- Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 20**:
Rydych chi'n mynd i'r parc. Beth ydych chi'n mynd i wisgo?

Gofynnwch i'r disgyblion ydy'r cerdyn yn cyfeirio at dywydd oer neu gynnes:

Ydy hi'n oer neu'n gynnes?

Atgyfnerthwch eu hateb: **Mae'n oer iawn, iawn.**

Dylid annog y disgyblion i ysgrifennu rhestr o ddillad addas ac yna gallen nhw drafod pa ddillad fyddai'n addas ar gyfer ymweld â'r parc mewn tywydd oer iawn, iawn.

Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Ffion yn tynnu'r bwyd allan o'r rhewgell – hyd at y darn ble mae Crad yn bwyta'r frechdan domato.

Gellid datblygu'r cyfeiriadau at y bwyd sydd wedi'i rewi a gofyn i'r disgyblion restru pa fwydydd eraill y gellir eu rhewi mewn rhewgell. Efallai bod modd mynd â'r disgyblion i gegin yr ysgol neu i archfarchnad leol i weld yr ystod eang o fwydydd sy'n gallu cael eu rhewi, e.e.

sosejis wedi rhewi
pizzas wedi rhewi
pysgod wedi rhewi
sglodion wedi rhewi
cig wedi rhewi
ffrwythau wedi rhewi
afalau wedi rhewi
llysiau wedi rhewi
pys wedi rhewi
moron wedi rhewi
cyri wedi rhewi
bwyd China wedi rhewi

Gallai hyn arwain at drafodaeth (yn Saesneg o bosib) sy'n ymwneud â'r rhesymau dros rewi bwyd. Efallai y gallai'r disgyblion rewi eitemau eu hunain, e.e. gallen nhw blicio a thorri afalau, eu gosod nhw ar blât neu mewn bag priodol a gweld beth sy'n digwydd iddyn nhw ar ôl eu rhewi:

Beth am wneud arbrawf?
Rhaid pilio'r afal. / Rhaid plicio'r afal - yn ofalus.
Rhaid torri'r afal - yn ofalus.
Rhaid rhoi'r afal ar y plât / yn y bag.
Rhaid rhoi'r plât / bag yn y rhewgell.
Rhaid aros.

Edrychwch.
Wedi rhewi.
Afal wedi rhewi.

Yna gellid dadmer yr afal er mwyn dangos bod effaith rhewi yn gallu cael ei wrthdroi:

Rhaid aros.
Wedi toddi.
Bwytwch yr afal.

Gallai'r ddau ymadrodd yma fod yn ddefnyddiol:

Mae'n galed.
Mae'n feddal.

- Dylid dangos rhan olaf y ffilm.

Gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa hon mewn parau, gydag un disgybl yn cymryd rhan Sgrin a'r llall yn chwarae rhan Crad. Dylai'r disgybl ddangos pa mor hapus yw e / hi i fod yn mynd i'r Arctig a dylid adolygu ymadroddion perthnasol, e.e.

Gwych! / Grêt!
Ffantastig!
Dw i'n hapus. / Dw i'n teimlo'n hapus.
Dw i'n hapus iawn, iawn.
Mawredd mawr! / Bobl bach! / Nefi bliw! / Nefi wen! / Bois bach!

- Mae'r clip hwn yn gorffen gyda Crad yn sylweddoli nad yw'n gwybod unrhyw beth am yr Arctig. Yna, gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am yr Arctig:

Chwiliwch am luniau ...
Chwiliwch am wybodaeth ...
... mewn llyfrau
... ar y we
... ar y glôb

Os yw'n briodol, gallen nhw lenwi **grid GED** fel eu bod nhw'n gallu penderfynu pa wybodaeth maen nhw eisiau ei chanfod drostyn nhw eu hunain, e.e.

Gwybod	Eisiau gwybod	Dysgu

Gellid cyflwyno'r cerdyn darllen, **Yr Arctig**, i'w helpu nhw gasglu'r wybodaeth.

- Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu i greu taflen neu arddangosfa ddosbarth o'r enw **Yr Arctic** neu **Mae'n oer iawn, iawn!** Dylen nhw ddefnyddio'r patrymau iaith maen nhw'n gyfarwydd â nhw, e.e.
Dyma'r (hysgi).
Mae'r (hysgi) yn byw yn ...
Mae'n oer iawn, iawn yn yr Arctig.
Weithiau, mae'n ... gradd Celsius. Weithiau, mae'n ... gradd Celsius.
Rhaid gwisgo dillad cynnes – trowsus ...
a.y.b.

- Yn ogystal, gellid annog y disgyblion i siarad yn syml am y lluniau maen nhw wedi'u darganfod:
Dyma'r Arctig.
Edrychwch ar y ...!
Dyma anifail o'r Arctig – y / yr ...
Mae'n oer iawn, iawn. Wedi rhewi.

Gallen nhw ysgrifennu darn byr i gyd-fynd â'r lluniau hyn.

- Dangoswch ran o'r clip eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn, e.e.
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.
Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi gwneud arbrawf.

Nac ydw.
Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi gwneud arbrawf.

Uned 3: Rhan 3 - Mynd i'r Arctig

Nodau

- Datblygu'r themâu **Tywyll a Golau** a **Cynnes ac Oer**
- Cyflwyno gwybodaeth sylfaenol am y Cylch Arctig drwy gyfrwng y Gymraeg

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
y Cylch Arctig Dw i'n mynd i ddefnyddio ... Diolch i'r ...	mynd â yr Inuit pobl fest car eira sgi, sgïau gwe-gamera hysgi chwerthin dyddiadur

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Beth sy yn y parsel? Dyfala. Oes ... yn y parsel? Oes. / Nac oes. Ga i weld? Cei, wrth gwrs. / Na chei. Beth sy'n digwydd? Gorchmynion: Edrycha yn y drôr. Tynna dy got. Rhaid pacio. Eraill: Mae'n oer iawn, iawn. Mae'n dywyll. Mae'n dywyll ac yn oer. Mae'r Inuit yn byw yn yr Arctig. Does dim ... Bobl bach!	cylch parsel anrheg pen-blwydd tywel sebon brwsh dannedd past dannedd bwyd llyfr cyfrifiadur arall siwmpwr arall mwy mwy o sanau pâr pâr arall golau yn yr awyr Arddodiaid yn ar o dan dros

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Oes ... yn y ...?; Oes.; Nac oes.

Beth sy yn y ...?

Ydy (Dan / Sam / Lucy) yn ... (chwarae / bwyta)?

Ydy'r (llyfr) yn y cwpwrdd / o dan y bwrdd?

Ga i weld?; Cei.; Na chei.

Tynna dy got.; Hefyd: Tynnwch eich cotiau.

Wyt ti eisiau help?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.

Hefyd: Ydych chi eisiau help?; Ydyn, os gwelwch yn dda.; Nac ydyn, dim diolch.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dechreuwch drwy gyflwyno **Cerdyn Siarad 21:**
Mae Crad yn mynd i'r Arctig. Rhaid pacio. Helpwch e / o.

Dylai'r disgyblion ysgrifennu rhestr o eitemau y dylai e fynd gydag e ar ei daith, e.e.

map

dillad (gellid eitemeiddio'r rhain)

pyjamas

tywel a sebon

brwsh dannedd

past dannedd

bwyd

llyfr

cyfrifiadur

gwe-gamera

tortsh

Gosodwch her i'r disgyblion:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Cymharwch y rhestri.

Dylai'r disgyblion gadw eu rhestri'n ddiogel oherwydd bydd eu hangen eto wrth iddyn nhw wyllo'r ffilm.

- Dangoswch y ffilm **Mynd i'r Arctig** (Uned 3, Rhan 3) – hyd at y darn ble mae Ffion yn gofyn am y parcel, ac mae'n dod i wybod beth yw e.

Cyflwynwch barsel tebyg ac eglurwch fod syrpreis ynddo. Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth sydd tu mewn:

Beth sy yn y bocs? Dyfaluwch.

Oes ... yn y bocs?

Oes. / Nac oes.

Byddai cynnwys eitem / eitemau sy'n adolygu peth o'r eirfa sy'n cael ei chyflwyno yn yr uned hon yn syniad da, e.e.

tortsh

ffôn

dilledyn arbennig a.y.b.

- Dangoswch y rhan nesaf ble mae Crad a Ffion yn dangos y dillad cynnes sy'n cael eu pacio.

Cymharwch y rhain gyda'r dillad mae'r disgyblion wedi eu rhestru uchod.

Er mwyn cyflwyno elfen o hwyl i'r gweithgaredd hwn, gallech chi roi 5 marc am bob eitem addas mae'r disgyblion wedi'i rhestru sydd hefyd yn cael ei phacio ar y ffilm. Yr enillydd yw'r disgybl sydd â'r nifer mwyaf o bwyntiau.

- Dangoswch y ffilm sy'n dangos yr Arctig.
Cyflwynwch yr eirfa newydd:
car eira
sgi, sgïau

Gofynnwch gwestiynau i'r disgyblion:
Sut mae'r tywydd yn yr Arctig?
Mae'n oer iawn, iawn.
Sut mae pobl ar y ffilm yn teithio?
Mewn car eira. / Ar sgïau.

Ail-ddangoswch y rhan heb y sain fel bod y disgyblion yn cael paratoi eu sylwebaeth eu hunain, e.e.
Dyma'r Arctic.
Mae'n oer iawn, iawn.
Edrychwch ar y ...
- Dangoswch y rhan nesaf – y rhan ble mae Ffion a Crad yn trafod beth mae e wedi'i bacio.
Stopiwch y ffilm ar ôl i Ffion ofyn:
Beth sy yn y bag?
Gofynnwch i'r disgyblion restru beth sydd yn y bag.

Dangoswch y darn er mwyn gwirio'r rhestri.
- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Ffion a Crad yn trafod beth mae Crad yn ei wisgo.

Gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa hon mewn parau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddillad addas.
Gallai un ohonyn nhw ofyn beth mae'r llall yn ei wisgo:
Beth wyt ti'n wisgo?
Gallai'r disgybl ddisgrifio beth mae e / hi yn ei wisgo.
Trowsus a ...
Dw i'n gwisgo trowsus a ...
Yna, gallai'r disgybl arall ddweud wrtho / wrthi am roi haenen arall o ddillad amdano / amdani, e.e.
siwmpwr arall

Gallai'r disgyblion dynnu lluniau o bobl sy'n gwisgo sawl haen o ddillad gan eu bod yn mynd i'r Arctig. Dylen nhw labelu'r rhain yn Gymraeg.
- Dangoswch ran olaf y ffilm.
Gallai'r disgyblion ddynwared y sefyllfa ble mae Crad yn teithio ac mae Ffion yn ceisio gweld ble mae e ar Sgrin, drwy ddychmygu bod un ohonyn nhw'n hedfan dros yr ysgol ac yn teithio i gyfeiriad penodol, i ffwrdd o'r ysgol:
Ble wyt ti?
Dw i ddim yn gwybod ... O! Dw i dros yr ysgol ... dw i dros y parc a.y.b.
Gallai'r disgyblion geisio dyfalu i ble mae e'n / hi'n mynd.
- Gellid cyflwyno'r cerdyn darllen **Yr Hysgi**.
Yna, gellid cynnal cwis i weld faint yn union mae'r disgyblion wedi'i ddeall a gellid rhoi marciau am atebion cywir:
Ble mae'r hysgi'n byw?
Yn yr Arctig.
Pa liw ydy'r hysgi?
Du ... neu ... brown ... neu ... llwyd ... neu ... gwyn (1 marc am bob lliw! Os dim ond un lliw mae'r disgyblion yn ei gynnig, gofynnwch **neu?**)
Pa liw ydy llygaid yr hysgi?
Glas.
Sawl cot o ffwr?
Dwy. (Derbynnir **dau** hefyd.)

Beth mae'r hysgi'n fwyta?
Cig.
Ydy'r hysgi'n bwyta orennau?
Nac ydy.
Ydy'r hysgi'n bwyta pizza?
Nac ydy.
Ydy'r hysgi'n ffrind da?
Ydy.
Ydy'r hysgi'n helpu'r bobl?
Ydy.
Ydy'r hysgi'n gynnes yn y tywydd oer?
Ydy.

- Gellid cynnal cwis yn seiliedig ar gynnwys yr uned a gallai'r disgyblion ddyfeisio'u cwestiynau eu hunain, e.e.
 - **Ble mae ...? / Ble mae(r) ...?**
Ble mae Crad?
Ble mae Irniq?
Ble mae'r hysgi?
 - **Beth sy yn y ...?**
Beth sy yn y bocs?
Beth sy yn y bag?
Beth sy yn y Pod-antur Cymraeg?
 - **Oes ... yn y ...?**
Oes crys T yn y bag?
Oes blodau yn y Pod-antur Cymraeg?
- Dangoswch ran o'r ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn, e.e.
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol ac yn hwyl.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi dysgu am yr Arctig.

Nac ydw.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ddiflas ac yn ofnadwy.

Uned 3: Rhan 4 - Bobl bach!

Nodau

- Ymgymryd â gweithgaredd celf a dylunio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy adolygu: **Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ... ; Pa liwiau?; Beth sy eisiau?; Beth arall?; Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...**
- Gwerthuso gwaith celf drwy gyfrwng y Gymraeg drwy adolygu: **Mae'n hardd.; Mae'n hyfryd.; Mae'n ardderchog.; Mae'n ffantastig!** ac **Mae angen mwy o ... / Mae eisiau mwy o ...**
- Cyflwyno un o gemau'r Inuit drwy gyfrwng y Gymraeg

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Tri ... dau ... un ... Fi sy'n ennill. Ti sy'n ennill.	papur crêp dod adre pen-glin un droed chwerthin

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n bod? Beth am wneud llun? Sut? Pa liwiau? Wyt ti eisiau chwarae? Wyt ti'n barod? Ydw, dw i'n barod. / Nac ydw. Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Beth wyt ti'n wneud? Chwerthin. / Dw i'n chwerthin. Beth ydych chi'n wneud? Chwerthin. / Rydyn ni'n chwerthin Beth ydy'r jôc? Ydy Irniq yn byw gyda'r Inuit? Ydy. / Nac ydy. Gorchmynion Tyrd yma. / Dere yma. Rhaid sefyll ar un droed. Arall Mae'n dywyll. Mae'n hardd. Mae'n hyfryd. Mae'n effeithiol. Dw i wedi blino. Mae angen mwy o ... / Mae eisiau mwy o ...	golau yn yr awyr gwneud llun peintio gludo 'nôl adre wyneb trwyn clustiau dwylo tu ôl i'r hopian ardderchog

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...; Hefyd: Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...

Beth sy'n bod?

Beth am chwarae gêm?

Wyt ti eisiau chwarae?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.; Hefyd: Ydych chi eisiau chwarae?; Ydyn, os gwelwch yn dda.; Nac ydyn, dim diolch.

Tri ... dau ... un ...

Eto os gwelwch yn dda.

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw.; Hefyd Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.

Ardderchog!

Ydy Sam yn chwarae?; Ydy.; Nac ydy.

Awgrymiadau cam wrth gam

- Cyn dangos y ffilm, rhowch amrywiaeth o ddeunyddiau crefft ar y bwrdd ac adolygwch yr eirfa drwy ddangos yr eitemau fesul un a gofyn:

Beth ydy hwn?

paent

Pa liw?

glas

glas tywyll

glas golau

brws

papur

creon, creonau

pensil, pensiliau

pensil lliw, pensiliau lliw

glud

papur crêp

Os hoffech chi adolygu lliwiau, gallech chi ddangos rhywfaint o'r gwaith celf mae'r disgyblion wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a gofyn i'r grwpiau:

Pa liw?

Pa liwiau?

Yn ogystal, gallai'r disgyblion holi ei gilydd mewn parau neu grwpiau.

Dylid gwobrwyo drwy roi marciau am bob ateb cywir a marciau bonws ar gyfer y defnydd cywir o **tywyll** a **golau**.

- Dangoswch y ffilm, **Bobl Bach!** (Uned 3, Rhan 4) – hyd at y darn ble mae Ffion wedi gorffen gwneud ei llun hi o Olau'r Gogledd ac mae'n gofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n ei hoffi.

Tynnwch sylw at y patrymau mae hi'n eu defnyddio:

Papur crêp (glas tywyll).

Dw i'n brwsio'r papur crêp glas tywyll.

Dw i'n aros.

Dw i'n codi'r papur crêp.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud darn o waith celf i ddarlunio **Golau'r Gogledd**. Gallen nhw ddilyn y camau a gymerodd Ffion neu ddefnyddio techneg hollol wahanol.

Gallen nhw chwilio am ysbrydoliaeth ar y we:

Chwiliwch am syniadau ar y we. (Dylen nhw ddefnyddio 'Northern Lights' neu 'Aurora Borealis' yn y peiriant chwilio.)

Gwnewch y llun.

Wrth iddyn nhw weithio, ceisiwch ymweld â phob disgybl a gofynnwch:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Anogwch nhw i ofyn i'w gilydd.

- Ar ôl iddyn nhw orffen y lluniau, dangoswch ran nesaf y ffilm ble mae disgyblion yn gwerthuso gwaith ei gilydd. Stopiwch y ffilm er mwyn edrych ar y lluniau a gofynnwch:
Pa liwiau?

Tynnwch sylw at y ffordd mae'r plant yn gwerthuso'r gwaith:

Mae'n hyfryd.

Mae'n ffantastig.

Mae'n ardderchog.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio patrymau iaith eraill ar gyfer gwerthuso gwaith:

Mae'n dda.

Mae'n dda iawn.

Mae'n lliwgar.

Mae'n grêt.

Mae'n wych.

Mae'n ddiddorol.

Bendigedig!

Gofynnwch iddyn nhw werthuso'r gwaith ar y ffilm a / neu waith ei gilydd drwy ddefnyddio'r patrymau uchod a rhai o'r patrymau isod:

Dw i'n hoffi'r llun.

Dw i'n hoffi'r llun yn fawr.

Dw i'n hoffi'r llun achos dw i'n hoffi'r lliwiau.

Dw i'n hoffi'r llun achos dw i'n hoffi'r gwyrdd golau a'r gwyrdd tywyll.

Dw i'n hoffi'r llun achos mae'n lliwgar.

Mae angen mwy o ... (goch / las / wyrdd) yma.

Mae eisiau mwy o ... (goch / las / wyrdd).

Mae'n ddiddorol ond mae angen mwy o ...

Mae'n ddiddorol ond mae eisiau mwy o ...

Sylwer: Mae'r athro / athrawes ar y DVD yn gofyn tri chwestiwn:

Beth ydych chi'n weld yn y llun?

Pa liwiau sy yn y llun?

Ydych chi'n hoffi'r llun?

Gallech chi ddefnyddio'r cwestiynau hyn wrth drafod gwaith celf y disgyblion.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 22:**
Beth sy yn y llun?
Ydych chi'n hoffi'r llun yma?
Pam?

Gofynnwch i'r disgyblion drafod y llun, gan ddefnyddio'r patrymau a'r eirfa a restrwyd uchod.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm. Stopiwch ar ôl y rhan sy'n dangos y plant ysgol.

Mae rhan helaeth o'r rhan yma yn adolygu patrymau a geirfa sydd wedi'u cyflwyno / adolygu yn Rhan 2, **Cynnes ac oer**. Gallech chi gynnal cwis, e.e.

Beth ydy ... yn Gymraeg?

Beth ydy *face / nose / ears / hands* **yn Gymraeg?**

Beth ydy *cold / very cold / frozen* **yn Gymraeg?**

Beth ydy *to play / to stand / to hop / to jump* **yn Gymraeg?**

Gellid cyflwyno'r geiriau newydd sydd ar y ffilm i'r cwis yn raddol, e.e.

Beth ydy *knee* **yn Gymraeg? - pen-glin**

Beth ydy *foot* **yn Gymraeg? - troed**

Beth ydy *one foot* **yn Gymraeg? - un droed**

Gellid rhannu'r disgyblion i grwpiau a gellid rhoi marciau am atebion cywir fel bod y grŵp â'r nifer mwyaf o farciau'n ennill.

Gan fod sawl cyfeiriad at rannau'r corff, gellid chwarae'r gêm **Mae Simon yn** dweud, gan ddefnyddio'r canlynol:

Mae Simon yn dweud ...

... rhwbiwch eich wyneb.

... rhwbiwch eich trwyn.

... rhwbiwch eich clustiau.

... rhwbiwch eich troed.

... rhwbiwch eich dwylo.

... rhwbiwch eich pen-glin.

- Os yw'n briodol, chwaraewch y gêm hercian / hopian ar un droed gyda'r disgyblion yn Gymraeg, gan roi ystyriaeth briodol i ofynion iechyd a diogelwch:

Ydych chi eisiau chwarae gêm yr Inuit?

Ydyn, os gwelwch yn dda.

Rhaid sefyll mewn llinell. (Gwnewch yn siŵr bod digon o le rhwng pob disgybl!)

Rhaid sefyll ar un droed.

Rhaid rhoi'r droed arall tu ôl i'r pen-glin.

Rhaid hopian.

Barod?

Tri ... dau ... un ...

(John), ti sy'n ennill.

Ydych chi eisiau chwarae eto?

Ydyn (os gwelwch yn dda).

- Cyn i chi chwarae'r gêm nesaf, cyflwynwch y gair **chwerthin** drwy chwerthin yn egniol a dweud **Dw i'n chwerthin**. Gofynnwch i'r disgyblion wneud yr un fath. Yna, gofynnwch i unigolion: **Beth wyt ti'n wneud?**

Dylen nhw ymateb drwy ddweud:

Dw i'n chwerthin.

Dangoswch ran nesaf y ffilm, y gêm chwerthin, hyd at y darn ble mae Crad yn dweud **Mae'r Inuit yn grêt!**

Chwaraewch y gêm gyda'r disgyblion. Dylen nhw wynebu ei gilydd, mewn parau, a chwerthin. Y disgybl sy'n chwerthin am y cyfnod hwyaf sy'n ennill:

Ydych chi eisiau chwarae gêm yr Inuit?

Ydyn, os gwelwch yn dda.

(John), ti sy'n ennill.

- Dangoswch y rhan olaf. Stopiwch y ffilm ar ôl i Crad ddangos i Ffion fod ganddo anrheg iddi. Pwysleiswch y gair **anrheg**.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 23**:

Anrheg i Ffion

A: Ar ddarn o bapur, ysgrifenna beth sy yn y bocs.

B: Gofynna gwestiynau. Dyfala!

Yn y gweithgaredd hwn, dylai'r disgyblion gymryd eu tro i fod yn **Partner A** a **Partner B**. Dylai **Partner A** ddychmygu beth yw anrheg Crad o'r Arctig i Ffion. Dylai e / hi ysgrifennu'r gair am yr eitem ar ddarn o bapur.

Dylai **Partner B** ofyn cwestiynau er mwyn ceisio dyfalu beth yw'r anrheg:

Oes ... yn y bocs?

Oes. / Nac oes.

[Rhoddir **mwclis** i Ffion ar y ffilm.]

- Gofynnwch i'r disgyblion beth yw'r ymadrodd Cymraeg am "*It's dark*" – **Mae'n dywyll**. Dywedwch wrthyn nhw:

Yn y gaeaf, mae'n dywyll yn yr Arctig.

Yn yr haf, mae'n olau yn yr Arctig.

Os yw'n briodol, gallech chi roi eglurhad gwyddonol am hyn (yn Saesneg o bosib). Eglurwch fod un o hen chwedlau'r Inuit yn sôn am dywyllwch a goleuni. Gofynnwch:

Ydych chi eisiau clywed un o storïau'r Inuit?

Ydyn, os gwelwch yn dda.

Dangoswch glawr y llyfr **Ble Mae'r Golau?** Cyn dechrau darllen, cyflwynwch y geiriau hyn:

aderyn

dwst

Ar ôl darllen, dywedwch fod y chwedl yn egluro bod y gaeafau'n dywyll a'r hafau'n olau yn yr Arctig am mai un belen o olau yn unig roedd yr aderyn wedi gallu'i chario a bod rhaid i'r belen hon orffwys am gyfnod er mwyn ail-wefru, fel petai. Dylid pwysleisio mai myth neu chwedl yw hon.

Trafodwch y cwestiynau sydd yng nghefn y llyfr.

- Gallai'r disgyblion ymchwilio ymhellach i fywyd yr Inuit. Gallen nhw gwblhau **grid GED** fel rhan o'u hymchwiliad.

Gwybod	Eisiau gwybod	Dysgu

Uned 3: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nodau

- Adolygu cynnwys, patrymau iaith a geirfa a gyflwynwyd yn yr uned
- Defnyddio Cymraeg ar gyfer cyfleu gwybodaeth am yr Inuit a'u diwylliant
- Adolygu ffurfiau'r gorffennol a gyflwynwyd, o bosib, yn ystod y Cyfnod Sylfaen, e.e. **Es i i ...**; **Gwelais i / Gweles i ...**; **Ces i ...**; **Roedd e'n / o'n ffantastig!**
- Atgyfnerthu'r defnydd o **achos**, e.e. **achos mae'n hwyl**; **achos mae'n grêt**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
	mathemateg dyddiadur

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Beth sy yn y bag? Beth wyt ti'n wneud? Dim byd. Wyt ti eisiau darllen? Ydw. / Nac ydw. Beth am gael cwis? Syniad da! Ydy Crad yn mynd i'r Arctig? Ydy. / Nac ydy. Wyt ti'n ...? Ydw. / Nac ydw. Beth wyt ti'n hoffi wneud? Dw i'n hoffi ... Beth wyt ti'n hoffi fwyta? Dw i'n hoffi bwyta ... Gorchmynion Dyfaluwch. Teimla fe / fo. Arall Mae'n dywyll. Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i. Amser gorffennol Es i i ... Gwelais i ... / Gweles i ... Ces i ... Roedd e'n / o'n ffantastig!	switsh golau cyfrifiadur da da iawn ardderchog achos cadw'n heini dydd Sul dydd Llun dydd Mawrth dydd Mercher dydd Iau dydd Gwener dydd Sadwrn

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae'r ...?

Beth ydy hwn?

Dyfaluwch.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Hefyd: Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...

Wyt ti eisiau darllen llyfr?; Ydw.; Nac ydw.; Hefyd: Ydych chi eisiau darllen llyfr?; Ydyn.; Nac ydyn.

Da.; Da iawn; Ardderchog.

Beth am drio eto?

Ffurfiâu'r gorffennol:

Sylwer: Byddai cyflwyno'r cwestiynau canlynol fesul un, ar adegau addas, a'u defnyddio nhw'n rheolaidd yn galluogi'r disgyblion i ddod i ddefnyddio'r amser gorffennol yn hyderus:

Ble est ti?

Es i i ...

Es i i'r ...

Beth welaist ti? / Beth welest ti?

Gwelais i ... / Gweles i ...

Beth gest ti?

Ces i ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Eglurwch fod y gwaith yn Uned 3, Rhan 5, **Ydych chi'n cofio?**, yn adolygu gwaith sydd wedi ei gyflwyno eisoes.

Rhan 1

- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 3, Rhan 5). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf a stopiwch y ffilm pan fydd Ffion yn dweud **Dyfalwch!**
Dywedwch:
Edrychwch – bag Crad ... bag Crad o'r Arctig.
Beth sy yn y bag? Ysgrifennwch restr.
- Ar ôl iddyn nhw orffen eu rhestr, dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad yn tynnu'r eitemau allan o'i fag. Gwiriwch a oes unrhyw un yn y dosbarth wedi cynnwys pob un o'r eitemau hyn ar ei restr /rhestr. Gellid rhoi 5 marc am bob eitem mae'r disgyblion wedi ei rhestru ac sydd i'w gweld ar y ffilm ac yna gellid adio'r marciau yn Gymraeg.
- Dangoswch y llyfr **Irniq**. Cyn darllen y llyfr, cyflwynwch y geiriau hyn:
hela
pysgota

Darllenwch y llyfr gyda'r disgyblion.

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu mai nhw yw Irniq. Gofynnwch i un ohonyn nhw ddod i eistedd yn y gadair goch o flaen y grŵp. Dylai e / hi ddweud:

Helo, Irniq ydw i.

Dylai'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau iddo / iddi. Fodd bynnag, cyn dechrau sesiwn y gadair goch, dylech chi adolygu'r patrymau hyn:

Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yn ...

Wyt ti'n ...?

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw. / Nac ydw.

Beth wyt ti'n hoffi?

Beth wyt ti'n hoffi wneud?

Beth wyt ti'n hoffi fwyta?

Beth wyt ti'n hoffi wisgo?

Gallai cyflwyno **Cerdyn Siarad 24** gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n ansicr o rai o'r patrymau:

A: Irniq wyt ti.

B: Gofynna gwestiynau i Irniq.

Rhan 2

- Gellid ymgymryd â'r gweithgaredd cwis sydd ar y DVD. Gellid rhannu'r disgyblion i dimau a gellid stopio'r DVD ar ôl pob cwestiwn er mwyn rhoi digon o amser iddyn nhw ymateb. Dylid rhoi marciau am atebion cywir ac, ar y diwedd, dylid adio'r rhain yn Gymraeg.

Rhan 3

Mae'r rhan hon yn cyfeirio at fywyd ysgol. Efallai na fydd y disgyblion wedi astudio'r pwnc hwn fel 'thema' ond byddan nhw wedi dod ar draws nifer o gyfeiriadau at fywyd ysgol yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

- Mewn grwpiau, dylai'r disgyblion ysgrifennu rhestr o eirfa gyfarwydd sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, e.e.
darllen
ysgrifennu
gwneud / tynnu llun
peintio
cinio ysgol
chwarae gyda ffrindiau

Pwysleiswch fod y disgyblion eisoes yn gwybod llawer o eiriau sy'n gysylltiedig â bywyd yr ysgol ac y dylen nhw geisio rhestru'r rhain yn hytrach na chwilio am eiriau newydd.

- Gwylwch drydedd ran y ffilm, ble mae Crad yn mynegi hoffter o rai agweddau ar fywyd ysgol a ble mae Darren yn siarad am yr ysgol. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ofyn i'r disgyblion ydy Darren yn **dda**, yn **dda iawn** neu'n **ardderchog**.

Ar ôl i'r disgyblion drafod hyn, dangoswch y darn nesaf, er mwyn gweld y thermometr a thrafodwch sut y gallai Darren wella'i berfformiad.

Dangoswch ail gynnig Darren a dilynwch yr un drefn ag uchod. Trafodwch pam mae'r ail gynnig yn well na'r un cyntaf.

- Tynnwch sylw arbennig ar y darn nesaf, sy'n canolbwyntio ar **achos**. Gofynnwch i'r disgyblion greu brawddegau sy'n cynnwys **achos** ac anogwch nhw i ddefnyddio'r gair hwn er mwyn cynnig rheswm pryd bynnag y byddan nhw'n mynegi hoffter neu ddiffyg hoffter.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion ofyn ac ateb y cwestiwn:

Beth wyt ti'n hoffi yn yr ysgol?
Dw i'n hoffi ... achos ...

Gan eu bod yn gweithio mewn grwpiau, gallen nhw helpu ei gilydd gyda syniadau a geirfa o bosib.

Gallai cyflwyno **Cerdyn Siarad 25** gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n ansicr o'r patrymau:

Beth ydych chi'n hoffi yn yr ysgol?
Siaradwch am hyn.

Rhan 4

- Dangoswch y bedwaredd ran.

Ar y diwedd, gofynnir i'r disgyblion fynegi barn am ymateb Ffion – ydy hi'n ymateb yn **dda**, yn **dda iawn** neu'n **ardderchog**. Stopiwch y ffilm er mwyn trafod hyn - dylai'r disgyblion roi rhesymau (yn Saesneg o bosib) dros eu barn.

Dangoswch y darn nesaf, sy'n cynnwys y thermometr, a gweddi'll y rhan hon.

Canolbwyntiwch ar gwestiwn Annie:

Pwy wyt ti 'te?

Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion siarad amdany'n nhw eu hunain, gan roi cymaint o fanylion â phosib wrth ateb y cwestiwn.

Rhan 5

- Dangoswch y rhan olaf, sy'n adolygu ffurfiau'r gorffennol:
Es i i ... / Es i i'r ...
Gwelais i ... / Gweles i ...
Roedd e'n / o'n ffantastig.

Gellid gofyn i'r disgyblion ysgrifennu cerdyn post ar ran Crad, e.e.

Es i i'r Arctic.
Gwelais i / Gweles i Irniq.
Gwelais i / Gweles i hysgi.
Ces i amser ffantastig.
Roedd e'n / o'n ffantastig.

Efallai y bydd y disgyblion yn gyfarwydd â defnyddio'r amser amherffaith (**Roedd**) i sôn am y tywydd:

Roedd hi'n oer iawn.

Gallech chi ddatblygu hynny nawr -

Roedd hi'n oer iawn. Roedd hi'n minws dau ddeg gradd Celsius.

- Gallech chi ddefnyddio'r ffurfiau hyn bob dydd. Gallech chi ofyn i'r disgyblion gwblhau dyddiadur ar ddiwedd pob dydd, er enghraifft. Gallen nhw nodi'r diwrnod, ble aethon nhw / beth gawson nhw (i'w fwyta o bosib) / beth welon nhw yn ystod y dydd.

Yn ogystal, gellid defnyddio'r ffurfiau hyn ar ddechrau'r wythnos i drafod y penwythnos – ble aeth y disgyblion, beth welon nhw ar y teledu, beth gawson nhw (beth gawson nhw i'w fwyta o bosib - **Ces i salad dydd Sadwrn.**).

Uned 4

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Mae nifer helaeth o ofynion Rhaglen Astudio CA2 yn cael eu targedu yn yr uned hon. Caiff y disgyblion gyfle i wrando ar nifer o bobl yn siarad Cymraeg ac mae cyfle iddyn nhw ddod yn ymwybodol o amrywiadau ieithyddol, e.e. **Mae'n ddrwg gen i** ac **Mae'n flin 'da fi, pres** ac **arian** a'r defnydd o **e** ac **o**. Fe'u hanogir i ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn modd addas, i fynegi barn, i gyfleu profiadau personol a dychmygus ac i chwarae rôl mewn siop Gymraeg.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunydd darllen sydd wedi'i ysgrifennu i gyd-fynd â'r uned, h.y. taflenni gwybodaeth a llyfr ffeithiol, ac i actio ac addasu chwedl sy'n gysylltiedig â Dewi Sant.

Mae cyfleoedd i ysgrifennu at amrywiaeth o bwrpasau wrth i'r disgyblion ysgrifennu cardiau post, negeseuon e-bost, gwahoddiadau a stori newydd sy'n seiliedig ar chwedl Dewi Sant.

Mathemateg

Yn yr ail uned mae cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag "adnabod cymesuredad adlewyrchiad a chymesuredad cylchdro siapiau 2-D", wrth i Ffion wneud addurniadau ar gyfer y Pod-antur Cymraeg.

Cyfeirir hefyd at arian ac mae hyn yn adolygu geirfa sydd wedi ei chyflwyno eisoes. Anogir y disgyblion i chwarae rôl mewn sefyllfa siop, i dalu am eitemau ac i roi newid i'w gilydd. Mae **Cerdyn Siarad 33** yn gofyn i'r disgyblion gyfrifo bil, talu a gweithio allan faint o newid sydd ei angen wrth iddyn nhw ofyn am fwy nag un eitem mewn siop.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion greu collage neu ddarn arall o gelf i bortreadu golygfeydd yn hanes Dewi Sant.

Adolygir geirfa a phatrymau iaith y gellir eu defnyddio mewn sesiynau celf a dylunio. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₁** ar gyfer yr eirfa a'r patrymau iaith perthnasol.

Dylunio a thechnoleg

Mae cyfleoedd i wneud addurniadau, baneri, cardiau a gwahoddiadau, gan ddefnyddio meddalwedd addas. Yn ogystal, gallai'r disgyblion baratoi bwyd Cymreig.

Gallen nhw ddylunio gwisg Gymreig newydd. Gallai hyn olygu gwneud ymchwil i liwiau ac arwyddluniau traddodiadol Cymru ac ati a'u hymgorffori yn y wisg; neu gallai'r disgyblion ddylunio gwisgoedd gan ddefnyddio lliwiau ac arwyddluniau cwbl wahanol. Dylid rhoi cyfle iddyn nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori sy'n seiliedig ar hanes Dewi Sant neu ar eu stori newydd.

Addysg gorfforol

Yn y rhan gyntaf, **Dathlu**, gallai'r cyfeiriad at rasio yn y **Diwrnod o Hwyl a Sbri** yn y parc arwain at gynnal gwahanol fathau o rasys, gan roi cyfle i'r disgyblion "ddatblygu, cadarnhau a chymhwyso'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cystadleuol gan gynnwys ... rhedeg". Gofynnir i'r disgyblion ddyfeisio eu **Diwrnod o Hwyl a Sbri** eu hunain ac felly gallen nhw greu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau eraill hefyd, e.e. taflu neu neidio.

Yn yr ail ran, **Addurniadau**, mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau parasiwt.

Mae Rhan 3, **Hwyl a Sbri**, yn canolbwyntio ar y ffyrdd traddodiadol o ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a gellid cyflwyno dawnsfeydd traddodiadol Cymreig a fyddai'n targedu'r Rhaglen Astudio ar gyfer addysg gorfforol, yn enwedig "perfformio a dod i werthfawrogi symudiadau gwahanol draddodiadau, amseroedd a mannau, gan gynnwys rhai o ddawnsiau traddodiadol Cymru".

Cerddoriaeth

Wrth berfformio dawnsiau Cymreig byddai'r disgyblion yn cael eu cyflwyno i gerddoriaeth Gymreig draddodiadol. Yn ogystal, gallen nhw ddysgu a pherfformio caneuon Cymraeg traddodiadol, syml. Gallen nhw wrando ar gerddoriaeth telyn hefyd:

telyn

Gwrandewch ar y delyn.

Ydych chi'n hoffi'r delyn?

Mae'n hyfryd.

Mae'n wych!

Mae'n grêt!

Mae'n ffantastig!

Dw i ddim yn hoffi'r delyn.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wrando ar gantorion a bandiau Cymraeg a gwerthuso'u caneuon nhw.

Daearyddiaeth

Gallai'r disgyblion "ganfod a lleoli lleoedd" drwy ddefnyddio "globau, atlasau a mapiau" wrth iddyn nhw ddod o hyd i leoliad y lleoedd sy'n dathlu Gŵyl Dewi.

Hanes

Yn yr uned hon, gallai'r disgyblion ddarllen am Dewi Sant ac yna ymgymryd â mwy o waith ymchwil, os yw'n addas.

TGCh

Mae sawl cyfle i ddefnyddio'r rhyngwrdd er mwyn chwilio am wybodaeth. Mae cyfleoedd hefyd i ddefnyddio camera fideo, e.e. ar gyfer cofnodi gwaith llafar a ffilmio sesiynau chwarae rôl. Yn ogystal, gallai'r disgyblion roi cyflwyniad PowerPoint am Dewi Sant.

Addysg grefyddol

Mae'r cyfeiriadau at Ddydd Gŵyl Dewi a'r cerdyn darllen **Dathlu** yn annog y disgyblion i feddwl am sut maen nhw'n dathlu gwahanol achlysuron. Gallai'r gwaith hwn arwain at fwy o waith ymchwil.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r uned hon yn cyfrannu at y **Cwricwlwm Cymreig** gan ei bod yn canolbwyntio ar ddathliadau **Dydd Gŵyl Dewi** yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n cyflwyno gwybodaeth am Dewi Sant ac yn rhoi sawl cyfle i ddathlu Cymreictod mewn ffyrdd traddodiadol a chyfoes., e.e. gwrandao ar ganeuon Cymraeg a'u perfformio, yr eisteddfod, dawnsio gwerin Cymreig, gwrandao ar gerddi a straeon o Gymru ac ati.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddathliadau traddodiadol sy'n cael eu cysylltu â Dydd Gŵyl Dewi yng Nghymru. Fodd bynnag, tynnir sylw at wledydd eraill sy'n dathlu'r diwrnod mewn ymgais i ddangos sut y caiff diwylliant Cymraeg a Chymreig ei ddathlu o gwmpas y byd.

Yn ogystal, anogir y disgyblion i ddod â lluniau o ddathliadau sy'n bwysig iddyn nhw i'r ysgol. Gall rhai o'r rhain fod yn berthnasol i ddiwylliannau neu grefyddau eraill fel bod y disgyblion yn dod yn fwy ymwybodol o'r diwylliannau a'r crefyddau hyn.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith, patrymau a geirfa sydd eisoes wedi eu cyflwyno, fel ei bod yn sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Drwy gydol yr uned, rhoddir cyfle i'r disgyblion adeiladu ar wybodaeth maen nhw eisoes wedi ei dysgu drwy ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau.

Mae gofyn iddyn nhw gynllunio a threfnu digwyddiad sy'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi, os yw hyn yn briodol. Fel rhan o'r broses cynllunio a thrafod, mae gofyn iddyn nhw gofnodi eu meddyliau ar fap meddwl, gan drafod a dewis yr opsiynau gorau.

Mae cyfle i gymharu a chyferbynnu dau boster, mynegi barn, penderfynu pa boster yw'r un gorau a pham. Yna, gallai'r disgyblion ffurfio set o feini prawf ar eu cyfer nhw eu hunain a defnyddio'r rhain wrth iddyn nhw ddylunio'u posteri eu hunain ar gyfer hysbysebu eu digwyddiadau.

Gallen nhw greu siop Gymraeg yn y dosbarth, a fyddai'n golygu meddwl am syniadau, cynllunio a threfnu.

Mae cyfleoedd eraill i ystyried syniadau, mynegi barn ac ymateb. Mae'r rhain hefyd yn defnyddio iaith yn greadigol ac yn gwerthuso llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Mae sawl cyfle i ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu, gyda chyfleoedd i "gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd."

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i ddarganfod, datblygu a chyflwyno gwybodaeth, e.e. drwy greu taflen sy'n gysylltiedig â **Dathlu**. Gallai'r gwaith yma eu hannog i chwilio am wybodaeth, gan ddefnyddio sawl adnodd gwahanol, ac i rannu a chyflwyno'u canfyddiadau ar ffurf addas. Yn ogystal, dylid eu hannog nhw i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer drafftio ac ail-ddrafftio'u gwaith ysgrifenedig.

Datblygu rhif

Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth fathemategol i gyfrifo, dadansoddi a chyflwyno'u canfyddiadau. Mae cyfleoedd i ddefnyddio rhifau a'r system rif ar gyfer casglu a chofnodi data mewn amryw ffyrdd.

Uned 4: Rhan 1 - Dathlu

Nodau

- Cyflwyno'r cysyniad o ddathlu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Annog y disgyblion i feddwl - **Rhaid meddwl** – a chynllunio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i ddim yn siŵr. Diwrnod o Hwyl a Sbri fel hyn Meddwl Dw i'n meddwl. Dw i ddim yn meddwl. Rhaid meddwl. Rhaid meddwl am syniadau da.	dathlu siôl sgert ras, rasys Dydd Gŵyl Dewi Mawrth y cynta chwiban dal cennin Pedr

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Wyt ti'n hoffi'r dillad? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi'r dillad? Ydyn. / Nac ydyn. Pam wyt ti'n gwisgo'r dillad yna? Achos dw i eisiau dathlu. Oes ... yn y bocs? Oes, mae ... yn y bocs. Nac oes, does dim ... yn y bocs. Beth am siorts coch? Beth am wisgo'r dillad yma? Syniad da! Pa (+ treigladd meddal)? Pa fwyd? Pa ddiod? Pa ddillad? Pa siâp? Gorchmynion Edrychwch. Tria eto. Rhaid symud y bwrdd. Arall I ffwrdd â ti! Gawn ni weld. Mae ... yn y bocs. Does dim ... yn y bocs.	dillad ffedog sanau crys trowsus siorts esgidiau crys rygbi het law ymbarél porffor Pardwn? parc wedi syrthio ymarfer symud rownd a rownd igam-ogam

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha.; Hefyd: **Edrychwch.**

Dw i ddim yn siŵr.

Rhaid symud y bwrdd.

O, diar, wedi syrthio!

Dw i'n meddwl.; **Dw i ddim yn meddwl.;** **Rhaid meddwl.**

Rhaid meddwl am syniadau da.

Beth am ...?

Syniad da!

Na, dw i ddim yn meddwl.

Oes ... yn y bocs?; **Oes.;** **Oes mae ... yn y bocs.;** **Nac oes.;** **Nac oes, does dim ... yn y bocs.**

fel hyn, e.e. Rhaid tynnu llun – fel hyn.; **Rhaid neidio fel hyn.**

Tri ... dau ... un ... i ffwrdd â ti.; Hefyd: **Tri ... dau ... un ... i ffwrdd â chi.**

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyflwynwch y cysyniad o ddathlu drwy ddangos lluniau perthnasol a thrafod partiön, e.e.:

Dw i'n hoffi cael parti pen-blwydd.

Wyt ti'n hoffi cael parti pen-blwydd?

Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi'n hoffi cael parti pen-blwydd?

Ydyn. / Nac ydyn.

Dw i'n hoffi cael parti Nadolig.

Wyt ti'n hoffi cael parti Nadolig?

Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi'n hoffi cael parti Nadolig?

Ydyn. / Nac ydyn.

Os yw'n briodol, dangoswch y **Pecyn Parti** o becyn 3 **Fflic a Fflac**. Tynnwch sylw at y lluniau perthnasol, e.e.

Edrychwch ... cacennau i'r parti ...

Gellid dilyn sawl llwybr o hyn ymlaen, e.e. gallai'r disgyblion restru bwyd parti, gellid chwarae gêm parti a.y.b. Crynowch y syniadau a chyflwynwch y gair **dathlu**:

Dw i'n hoffi cael parti pen-blwydd.

Dw i'n hoffi cael parti Nadolig.

Dw i'n hoffi dathlu.

dathlu

- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Dathlu**.

Darllenwch y testun a thrafodwch y lluniau e.e.

Beth ydy hwn?

Pa liw?

Pa liw ydy ...?

Sawl plentyn?

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi'n hoffi ...?

Ydyn. / Nac ydyn.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw'n ei weld yn y lluniau:

Beth sy yn y lluniau? Gwnewch restr.

- Adolygwch y patrymau hyn a defnyddiwch yr eirfa mae'r disgyblion wedi'i rhestru ar gyfer trafod **dathlu** e.e.
Rydyn ni'n bwyta ...
Rydyn ni'n cael ...
Rydyn ni'n mwynhau ...
- Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddod â lluniau o ddathliadau teuluol i'r ysgol a gallen nhw drafod y rhain yn syml yn Gymraeg. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod y geiriau Cymraeg am y dathliad, byddan nhw'n gallu dweud rhywbeth syml am eu lluniau, e.e.
Dyma Dad. Dyma Mam. Dyma Yasseen.
Rydyn ni'n bwyta ...
Edrychwch ar ...
Dw i'n hoffi ...
- Pwyntiwch at y calendr a dangoswch **Mawrth y cynta**. Pwysleisiwch y geiriau:
Dydd Gŵyl Dewi
Dywedwch y geiriau hyn dro ar ôl tro.
Canolbwyntiwch ar y lluniau sy'n gysylltiedig â **Dydd Gŵyl Dewi** ar y cerdyn darllen ac eglurwch:
Dw i'n hoffi dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
Rydyn ni'n gwisgo dillad Cymru.
Rydyn ni'n bwyta bwyd Cymru.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio taflen **Dathlu**. Gallen nhw gynnwys ffotograffau a lluniau eraill ac ysgrifennu'n syml o dan bob llun, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a gyflwynwyd uchod.
- Symudwch ymlaen at y ffilm. Dywedwch eto:
Dw i'n hoffi dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
ac addaswch y frawddeg:
Mae Crad yn hoffi dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
Mae Ffion yn hoffi dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
Mae Sgrin yn hoffi dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
Edrychwch ...

Dangoswch y ffilm, **Dathlu** (Uned 4, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y rhan ble mae'r poster yn cael ei gyflwyno ac mae Crad yn ceisio rhedeg yn ei sgert hir. Gorffennwch gyda'r darn ble mae Crad yn dweud **Iawn** - ar ôl i Ffion ddweud:
Rhaid gwisgo siorts i redeg yn y ras yn y parc dw i'n meddwl.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gallu cofio beth mae Crad yn ei wisgo:
Beth mae Crad yn wisgo?
Rhestrwch y geiriau gyda'r disgyblion:
het Cymru
crys gwyn
siôl
ffedog
sgert
esgidiau

Gofynnwch:
Ydych chi'n hoffi'r dillad?
Ydw.
Ydw, dw i'n hoffi'r dillad achos maen nhw'n smart.
Nac ydw.
Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dillad achos maen nhw'n ddoniol / ddwl / wirion.

- Cyn symud ymlaen, rhwch gyfle i'r disgyblion adolygu'r geiriau Cymraeg am ddillad, e.e. drwy ysgrifennu rhestr, labelu lluniau a.y.b. Gellid defnyddio bocs o ddillad amrywiol yn y cyd-destun hwn – gallech chi estyn y dillad o'r bocs fesul un a gellid rhoi marciau i'r disgyblion sy'n gallu enwi'r dilledyn, y lliw a.y.b. Gellid rhoi marciau ychwanegol i'r disgyblion os ydyn nhw'n dweud brawddeg am y dillad, e.e.
Trowsus du - dw i'n hoffi trowsus du.
Trowsus coch - dw ddim yn hoffi trowsus coch.
- Gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw'n meddwl y dylai Crad ei wisgo i'r digwyddiad yn y parc, gan gofio ei fod e'n cael trafferth rhedeg mewn sgert:
Rhaid gwisgo ...
 neu
Beth am ... ?
- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble maen nhw'n ceisio dewis dillad i Crad yn lle'r wisg Gymreig. Stopiwch pan mae Ffion yn gweld rhywbeth y byddai hi'n hoffi ei wisgo.
 Cymharwch y dillad a ddewisir ar gyfer Crad gyda'r dillad mae'r disgyblion wedi eu rhestru er mwyn gweld oes unrhyw un wedi meddwl am yr un dillad yn union. Er mwyn cyflwyno elfen o hwyl, gellid rhoi 2 farc i'r disgyblion am bob dilledyn sydd ar eu rhestr nhw y mae Crad a Ffion yn eu dewis hefyd.
- Yna, gofynnwch:
Beth mae Ffion eisiau gwisgo?
 Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu rhestr o'r dillad y mae Ffion yn debygol o'u gwisgo ar gyfer y digwyddiad hwn:
Rhaid gwisgo ...
 neu
Beth am ... ?
 Dylai'r disgyblion drafod eu syniadau ymhlith ei gilydd.
 Dywedwch wrthyn nhw am gadw'r rhestr i'n ddiogel oherwydd bydd cyfle i'w cymharu gyda beth fydd hi'n ei wisgo yn Rhan 3.
- Gan ddefnyddio'r bocs dillad y soniwyd amdano uchod, gallech chi guddio 2 ddilledyn 'Cymreig' ymhlith y dillad eraill. Yna, gallai'r disgyblion ddyfalu beth yw'r 2 ddilledyn yma. Gallai un disgybl ddod i sefyll yn ymyl y bocs a gallai'r disgyblion eraill ofyn iddo / iddi:
Oes het goch yn y bocs?
Oes sanau Cymru yn y bocs?
 Dylai'r disgybl sy'n sefyll yn ymyl y bocs dwrio am y dillad ac ateb:
Oes.
Oes, mae ... yn y bocs.
Nac oes.
Nac oes, does dim ... yn y bocs.
 Gallai'r disgyblion chwarae'r gêm hon mewn grwpiau wedyn drwy roi gwahanol eitemau yn y bocs.
- Gallai'r disgyblion ddylunio gwisg Gymreig newydd, e.e. gallai fod yn goch, yn wyn neu'n wyrdd – neu'n lliwiau gwahanol. Gallai gynnwys arwyddlun Cymreig o bosib.
 Gallai'r disgyblion dynnu llun y wisg a'i labelu. Gallen nhw ysgrifennu darn byr i gyd-fynd â'r llun er mwyn egluro pam maen nhw'n cynllunio'r wisg yma, e.e.
Dillad Cymru
Edrychwch - crys T porffor achos dw i'n hoffi porffor.
Trowsus coch achos mae trowsus coch yn grêt / cwl.
Sanau melyn achos melyn ydy fy hoff liw i. (Mae cyfle yma i adolygu a defnyddio **hoff** – gweler Uned 2.)

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio geiriau a phatrymau a gyflwynwyd yn Uned 3, sydd hefyd yn cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₁**.

- Dangoswch ran olaf y ffilm, sy'n gorffen gyda Crad a Ffion yn meddwl sut y gallen nhw ddathlu **Dydd Gŵyl Dewi** yn y Pod-antur Cymraeg.


Tynnwch sylw at y patrwm **Rhaid meddwl** a dywedwch wrth y disgyblion fod rhaid iddyn nhw feddwl sut y gallen nhw ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Dangoswch y lluniau ar y cerdyn darllen, **Dathlu**.

Adolygwch yr eirfa berthnasol a meddyliwch am eiriau eraill sy'n gysylltiedig â phartion a dathliadau, e.e.

bwyd **sosejis, brechdanau, cacen, jeli, hufen iâ**
diod **sudd oren, sudd afal, pop, dŵr**
dillad **dillad smart, dillad chwaraeon, dillad Cymru**

Gallai'r disgyblion greu mapiau meddwl, e.e.



Dywedwch wrthyn nhw am gadw'r mapiau meddwl hyn yn ddiogel oherwydd bydd eu hangen nhw eto pan fyddan nhw'n trafod eu dathliadau.

- Dangoswch unrhyw ran o'r ffilm eto a gofynnwch am farn y disgyblion:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddoniol.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Uned 4: Rhan 2 - Addurniadau

Nodau

- Datblygu'r cysyniad o ddathlu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyflwyno rhai o'r traddodiadau sy'n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi
- Defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn gweithgareddau celf a dylunio, mathemategol ac addysg gorfforol, e.e. drwy wneud siapiau geometrig cymesur er mwyn gwneud addurniadau a chymryd rhan mewn chwaraeon parasiwt
- Atgyfnerthu a defnyddio geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes mewn cyd-destunau ystyrlon e.e. **Pa ...?**; **Pa fwyd?**; **Pa ddiod?**; **Pa ddillad?**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n tynnu llinell. Pob lwc!	cawl cennin cennin riwler petryal clip papur

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau dod i'r Diwrnod o Hwyl a Sbri? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Pryd? Mawrth y cynta. Am faint o'r gloch? Am bedwar o'r gloch. Pa (+ treigladd meddwl)? Pa fwyd? Pa ddiod? Pa ddillad? Pa siâp? Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Oes ... yn y bocs? Oes, mae ... yn y bocs. Nac oes, does dim ... yn y bocs. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ble wyt ti? Dw i ddim yn gwybod. Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Beth nesa? Gorchmynion Chwiliwch. Rhaid meddwl. Arall Rhaid cael addurniadau. Dw i eisiau ... Rydyn ni eisiau ... I ffwrdd â fi!	yn gynta dillad dillad chwaraeon dillad smart lliwiau addurniadau addurno wedi torri Dydd Gŵyl Dewi creonau pensil, pensiliau siswrn glud llinyn patrwm triongl sgwâr llinell un arall torri allan lliwio balŵns cerdyn pen-blwydd, cardiau pen-blwydd cennin Pedr draig goch punt dwy bunt tair punt

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Rhaid meddwl.; Hefyd: **Dw i'n meddwl.;** **Dw i ddim yn meddwl.**

Yn gynta ...

Nesa.

Beth nesa?

Pa?; Pa siâp?

Sylwch fod treigladd meddal yn dilyn **Pa**, e.e. **Pa lyfr?; Pa bapur?; Pa focs bwyd?** [Gallech chi ddatblygu'r defnydd o **Pa...?** drwy ofyn: **Pa lyfr? Hwn neu hwn?**]

Beth ydy hwn?

Beth am ...?

Syniad da!

Oes ... yn y boc?; Oes.; **Oes, mae ... yn y boc.;** **Nac oes.;** **Nac oes, does dim ... yn y boc.**

Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...; **Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...**

Dw i'n tynnu llinell.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Addurniadau** (Uned 4, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf, ble mae Crad a Ffion yn cymharu syniadau, hyd at y darn ble maen nhw'n penderfynu y byddai **Dillad Cymru** yn addas ar gyfer y dathliad.

Trafodwch ddathliad Crad a Ffion drwy ofyn i'r disgyblion:

Mae Crad a Ffion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi:


Pryd?

Pa fwyd?

Pa ddiod?

Pa ddillad?

- Ysgrifennwch yr atebion cywir mewn map meddwl ar y bwrdd gwyn.



- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 26:**
Beth am ddathlu Dydd Gŵyl Dewi?
Rhaid meddwl am syniadau da.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn a'r syniadau sydd wedi eu cofnodi ar fapiau meddwl y disgyblion, gallai'r disgyblion drefnu diwrnod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol.

Os yw'n briodol, gorffennwch y drafodaeth drwy ofyn

Grŵp ..., sut ydych chi eisiau dathlu?
Rydyn ni eisiau ...

- Dylid cyflwyno'r cerdyn darllen **Diwrnod o Hwyl a Sbri.**
Eglurwch fod y cerdyn yn cynnwys dau boster - mae un yn cyfeirio at y Diwrnod o Hwyl a Sbri yn y parc ac mae'r llall yn cyfeirio at Ddiwrnod o Hwyl a Sbri sydd wedi'i drefnu mewn ysgol.

Gallai'r disgyblion ddweud neu ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio sut mae digwyddiadau yn debyg neu'n wahanol:

Mae ... yn ... ac mae ... yn hefyd.
Mae ... yn ... ond does dim ... yn ...

Yn ogystal, gallai'r disgyblion drafod pa un yw'r poster gorau a pham, e.e. gellid dewis patrymau addas o'r rhestr isod:

Edrychwch ar y print.
Print bach ... print mawr.
Mae'r print yn fach.
Mae'r print yn fawr.
Edrychwch ar y lliwiau.
Pa liwiau?
Edrychwch ar y lluniau.
Pa luniau?
Oes dyddiad ar y poster?
Oes amser ar y poster?
Mae ... ar Boster 1 ond does dim ... ar Boster 2.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio posteri i hysbysebu eu digwyddiadau eu hunain. Ar sail y drafodaeth uchod, gallen nhw ddyfeisio set o feini prawf ar gyfer y posteri hyn, e.e.

Rhaid cael ...

- **print mawr**
- **print mawr a print bach**
- **lliwiau**
- **lluniau**
- **dyddiad**
- **amser**
- **lle**

Yna, gellid arddangos y posteri mewn lle addas.

- Gallai'r disgyblion wahodd ei gilydd i'w digwyddiad nhw drwy ddylunio gwahoddiad, e.e.

DIWRNOD O HWYL A SBRI - GWYCH!	
Wyt ti eisiau dod i'r Diwrnod o Hwyl a Sbri?	
Pryd:	
Ble:	
Beth:	
Ateb (✓):	Ydw, dw i eisiau dod. Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod. Mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod.

drwy ysgrifennu neges e-bost, e.e.

Oddi wrth: At: Pwnc:
Annwyl ... Wyt ti eisiau dod i'r ... yn ... ar ...? Cofion

neu drwy sgriptio galwad ffôn, e.e.:

A: **Wyt ti eisiau dod i'r Diwrnod o Hwyl a Sbri?**

B: **O, ydw os gwelwch yn dda. Ble?**

A: **Yn yr ysgol.**

B: **Pryd?**

A: **Dydd Gŵyl Dewi – am naw o'r gloch.**

- Byddai'r cyfeiriad at **Chwaraeon parasiwt** ar y cerdyn darllen **Diwrnod o Hwyl a Sbri** yn gyfle da i gyflwyno gêm parasiwt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnwch i'r disgyblion sefyll o gwmpas y parasiwt. Dewiswch frawddegau addas o'r rhai a restrir isod:

Sefwch o gwmpas y parasiwt.

Pa liw?; Pa liwiau?

Pa liwiau sy yn y parasiwt?

Ble mae coch / melyn / glas / gwyrdd?

Yma.

Melyn - rhedwch (yn gyflym) o gwmpas y parasiwt.

Stopiwch.

Coch – cerddwch (yn araf) o gwmpas y parasiwt.

Codwch y parasiwt fel hyn. (e.e. at yr ysgwydd neu at y wast ac ati).

Rhedwch mewn cylch gyda'r parasiwt.

Cerddwch mewn cylch gyda'r parasiwt.

Sgipiwch mewn cylch gyda'r parasiwt.

Stopiwch.

- Gallai'r cyfeiriad at gawl Cennin arwain at weithgaredd ble y gallai'r disgyblion helpu i baratoi'r bwyd hwn. Wrth iddyn nhw weithio, dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud:

Dw i'n golchi'r llysiau.

Dw i'n plicio'r tatws/ moron.

Dw i'n torri'r cennin / nionod / winwns.

ac ati.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi eu dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn camau hylendid priodol wrth drin bwyd, yn unol â pholisi'r ysgol.

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae'r cymeriadau'n mynd dros eu trefniadau unwaith eto. Stopiwch ar ôl i Crad ddweud **Rhaid mynd i'r siop.**

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Beth sy yn y bocs?

coeden Nadolig

seren

doli

tedi

- Gosodwch focs mawr sy'n cynnwys eitemau priodol ar ben bwrdd a gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth sydd yn eich bocs chi:

Beth sy yn y bocs?

Oes ... yn y bocs?

Oes.

Oes, mae ... yn y bocs.

Nac oes.

Nac oes, does dim ... yn y bocs.

Os ydyn nhw'n enwi eitemau sydd yn y bocs, tynnwch nhw allan a'u dangos nhw.

Tynnwch yr eitemau canlynol allan o'r bocs ac enwch nhw:

Edrychwch - cennin Pedr

cennin

draig goch

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae'r cymeriadau'n siarad â Sgrin, hyd at y darn ble mae Crad yn diflannu ac mae Ffion yn egluro ei bod hi eisiau gwneud addurniadau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Adolygwch **arian / pres** – gofynnwch i'r disgyblion gyfrif gyda Ffion:

10c - deg ceiniog

20c - dau ddeg ceiniog

30c - tri deg ceiniog

40c - pedwar deg ceiniog

50c - pum deg ceiniog

60c - chwe deg ceiniog

70c - saith deg ceiniog

80c - wyth deg ceiniog

90c - naw deg ceiniog

punt

dwyr bunt

tair punt

pedair punt

pum punt

Yna, gellid ymgymryd ag amryw weithgareddau mathemategol sy'n ymwneud ag arian yn Gymraeg.

- Dangoswch y rhan nesaf ble mae Ffion yn gwneud siapiau geometrig ar bapur. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ddangos y gwahanol siapiau.

Adolygwch eirfa sy'n gysylltiedig â siapiau drwy ofyn:

Pa siâp?

triong

sgwâr

petryal

Adolygwch yr eirfa ganlynol:

Beth mae Ffion yn ddefnyddio?

papur

creonau – coch a gwyrdd

riwler

pensil

siswrn

glud

llinyn

Rhowch i'r disgyblion ddarnau o bapur sgwariau sy'n cynnwys siapiau geometrig y mae angen eu cwblhau'n gymesur. Gofynnwch:

**Beth sy ar y papur?
Sgwariau.**

Cadarnhewch y patrymau iaith:
un ... dau ... tri ... pedwar ... pump ...
Dw i'n tynnu llinell.
Dyna ni – petryal.

Gan ddefnyddio'r iaith sydd yn y clip, dylai'r disgyblion gwblhau'r siapiau geometrig cymesur.

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Ffion yn defnyddio'r siapiau geometrig i greu addurniadau ar gyfer y Pod-antur Cymraeg – hyd at y darn lle mae hi'n dymuno **Pob lwc** i Crad.

Gan ddefnyddio'r patrymau a glywir ar y DVD, gallai'r disgyblion greu siapiau geometrig er mwyn greu addurniadau. Dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud:
Dw i'n lliwio.
Dw i'n defnyddio creon coch.
Dw i'n torri allan.
Dw i'n gludo.

Gallen nhw ofyn i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud ac yn ei ddefnyddio:
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gludo.
Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio creon coch.

Yna, dylid eu hannog i werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill drwy ddefnyddio patrymau iaith a restrir yn y ddogfen **Patrymau Iaith PaC₁**.

- Canolbwyntiwch ar ran nesaf y ffilm – Crad yn y siop Gymraeg – hyd at y darn ble mae e'n glanio'n ôl yn y Pod-antur Cymraeg.

Ar ôl chwarae'r rhan hon, dylid gofyn i'r disgyblion restru beth sydd yn y siop. Gosodwch her:
Beth sy yn y siop?
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Cymharwch y rhestri:
Beth sy yn y siop?

- Os yw'n briodol, gofynnwch i'r disgyblion greu siop Gymraeg.
Yn gyntaf, gofynnwch iddyn nhw feddwl am eitemau y dylen nhw eu cynnwys yn y siop.
Yna, gallen nhw drafod y syniadau gyda phartner cyn eu rhannu gyda grŵp mwy.
Rydyn ni'n gwneud siop Gymraeg.
Rydyn ni eisiau ...
llyfrau
pensiliau
CDs Cymraeg
DVDs Cymraeg
ac ati.

Crëwch y siop, os yw'n ymarferol. Bydd hyn yn gyfle da i gyfeirio'n ôl at arian oherwydd gallai'r disgyblion ysgrifennu tagiau pris ar gyfer yr eitemau.

- Ail-ddangoswch y rhan ble mae Crad yn gofyn am falŵns.
Dangoswch falŵns lliwgar (heb eu chwythu) i'r disgyblion.

Adolygwch y lliwiau:
Balŵns glas / melyn

Defnyddiwch y sefyllfa er mwyn chwarae rôl gydag un o'r disgyblion, gan ddefnyddio balŵns o wahanol liwiau:

Chi: **Helo. Dw i eisiau balŵns, os gwelwch yn dda.**

Disgybl: **Balŵns - pa liw?**

Chi: **Dw i eisiau balŵns coch ... gwyrdd ... a ... gwyn os gwelwch yn dda.**

Disgybl: **Balŵns coch ... gwyrdd ... a ... gwyn. Dyma chi. Punt os gwelwch yn dda.**

Chi: **Diolch. Hwyl fawr.**

Sylwer: Gellid darllen y ddeialog i ddechrau neu gellid paratoi cardiau cofio i helpu'r disgyblion, os yw'n briodol.

Gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl yn eu siop Gymraeg.

- Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith yma, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 27** a gofynnwch i'r disgyblion actio'r sefyllfa a ddisgrifir ar y cerdyn hwn:
A: **Rwy't ti yn y siop Gymraeg.**
Beth wyt ti eisiau?
B: **Y siopwr wyt ti.**
- Canolbwyntiwch ar y clip nesaf, ble mae Crad yn gofyn am eitemau sydd ddim ar gael. Tynnwch sylw at:
 - yr ymddiheuriad: **Mae'n ddrwg gen i.**
 - yr eglurhad: **Does dim cennin Pedr yn y siop.**

Dilynwch yr un camau ag uchod. Defnyddiwch y sefyllfa er mwyn chwarae rôl:

Disgybl: **Dw i eisiau cennin Pedr os gwelwch yn dda.**

Chi: **Mae'n ddrwg gen i – does dim cennin Pedr yn y siop.**

(neu **Mae'n flin 'da fi – does dim cennin Pedr yn y siop.**)

Disgybl: **O, diar! Does dim cennin Pedr yn y siop.**

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r sefyllfa hon er mwyn chwarae rôl yn eu siop nhw.

- Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith hwn, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 28** a gofynnwch i'r disgyblion actio'r sefyllfa sydd ar y cerdyn:
A: **Y siopwr wyt ti.**
B: **Rwy't ti yn y siop Gymraeg.**
Rwy't ti eisiau un o'r rhain ond mae problem. (h.y. nid yw'r eitem ar gael)
Does dim ... yn y siop.

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio gwahanol sefyllfaoedd ar gyfer chwarae rôl a chadarnhau'r patrymau.

- Dangoswch y rhan olaf, ble mae Crad yn dangos beth mae e wedi'i brynu. Gallech chi ofyn:
Cennin Pedr - o ble?
Cennin - o ble?
Gallai'r disgyblion roi amryw atebion, e.e.
o'r siop
o'r farchnad
o'r dre
o ... (+ enw'r siop)
- Dangoswch ran o'r ffilm eto a gofynnwch am farn y disgyblion, e.e.
Ydych chi'n hoffi'r DVD?
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.
Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.
Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi Dydd Gŵyl Dewi.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi Dydd Gŵyl Dewi.

Uned 4: Rhan 3 - Hwyl a sbri

Nodau

- Cyflwyno gwybodaeth am **Dewi Sant** a **Dydd Gŵyl Dewi** drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu ffurfiau'r gorffennol: **Es i i ...; Gwelais i ... / Gweles i ...; Ces i ...; Roedd e'n / o'n ffantastig!**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
	pice ar y maen / cacennau cri bara brith ras llawr

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n wisgo? Dw i'n gwisgo ... Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Am faint o'r gloch? Am bedwar o'r gloch. Wyt ti eisiau gweld lluniau? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Gorchmynion Rhedwch! Rheda! Arall Tri ... dau ... un ... Da iawn, ti sy'n ennill! Mae chwaraeon yn hwyl! Dw i wedi blino. Mae ... wedi blino. Dyma hwyl a sbri! Amser gorffennol Es i i'r ... Gwelais i ... / Gweles i ... Ces i ... Roedd e'n / o'n ...	chwiban ardderchog blasus dŵr o flaen y ...

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw.; Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.

Rhedwch!; Brysiwch!

Da iawn.; Ardderchog.

Ti sy'n ennill.

Ble mae ...?

Ffurfiâu'r amser gorffennol:

Sylwer: Bydd cyflwyno'r cwestiynau canlynol fesul un ar adegau priodol, a'u defnyddio nhw'n rheolaidd, yn helpu'r disgyblion i ddefnyddio'r amser gorffennol yn hyderus:

Ble est ti?

Es i i ...

Es i i'r ...

Beth welaist ti? / Beth welest ti?

Gwelais i ...

Beth gest ti?

Ces i ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm, **Hwyl a sbri** (Uned 4, Rhan 3). Canolbwyntiwch ar ran gyntaf y ffilm, hyd at ddiwedd y Diwrnod o Hwyl a Sbri. Stopiwch y ffilm cyn i Crad gyrraedd y Pod-antur Cymraeg.

- Gofynnwch am farn y disgyblion am y rhan yma:

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r gerddoriaeth / miwsig.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r plant yn wych.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi Dydd Gŵyl Dewi.

- Dangoswch y clip eto, fesul rhan, a defnyddiwch yr iaith ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau tebyg drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gallech chi annog y disgyblion i feddwl am wahanol fathau o rasys, e.e. gallech chi feimio'r geiriau canlynol neu gallech chi ddangos lluniau perthnasol i'w helpu nhw i feddwl am y geiriau Cymraeg cywir:

rhedeg

cerdded

neidio

hercio / hopian

Gallen nhw gymryd rhan yn y rasys hyn a gallech chi adolygu rhai o'r patrymau canlynol:

Ydych chi eisiau rasio?

Ydyn. / Nac ydyn.

Beth am redeg?

Sefwch mewn llinell.

Barod?

Tri ... dau ... un ...

Da iawn!
Ardderchog!
Ti sy'n ennill.
Ti sy gynta.
Ti sy'n ail.
Ti sy'n drydydd.
Da iawn, bawb.

- Gallech chi ddefnyddio'r clip sy'n dangos y plant yn cymryd rhan mewn sioe ffasiwn er mwyn annog y disgyblion i ddisgrifio'r dillad mae pob plentyn a Crad yn eu gwisgo. Gallech chi stopio'r ffilm ar adegau priodol fel bod y disgyblion yn cael digon o amser i wneud hyn.

Hefyd, gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn sioe ffasiwn debyg a gallai'r 'beirniaid' ddewis y gwisgoedd gorau. Wrth iddyn nhw ddangos eu gwisgoedd, fodd bynnag, byddai disgwyl i'r disgyblion gyflwyno'u hunain a disgrifio beth maen nhw'n ei wisgo:

... ydw i.
Dw i'n gwisgo ...

- Gallai'r clip sy'n dangos bwyd Cymreig arwain at sesiwn blasu bwyd a fyddai'n annog y disgyblion i rannu a mynegi barn am beth maen nhw'n ei fwyta, e.e.

Wyt ti eisiau ...?; Ydych chi eisiau ...?
Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.
Blasus.
Blasus iawn.
Mae'n flasus iawn.
Dw i ddim yn hoffi ...
Dw i ddim yn hoffi hwn.
Mae'n ofnadwy.
Ych a fi!

- Cyn gwyllo rhan nesaf y DVD, gofynnwch i'r disgyblion edrych ar y rhestri maen nhw wedi eu hysgrifennu wrth geisio dyfalu beth fyddai Ffion yn ei wisgo (Uned 4, Rhan 1). Dangoswch y rhan nesaf a chymharwch y dillad maen nhw wedi eu rhestru gyda'r dillad mae hi'n eu gwisgo. Er mwyn cyflwyno elfen o hwyl, gellid rhoi dau farc am bob dilledyn a ddyfalwyd yn gywir.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Crad a Ffion yn disgrifio beth wnaethon nhw yn y Diwrnod o Hwyl a Sbri – hyd at y darn ble mae Ffion yn mynd i nôl y bwyd.

- Gallai'r disgyblion gymharu'r dillad roedd Crad yn eu gwisgo yn y Diwrnod Hwyl a Sbri gyda beth mae e'n ei wisgo yn y Pod-antur Cymraeg.

Yn y Diwrnod o Hwyl a Sbri / Yn y parc / Yn yr ysgol, mae / roedd Crad yn gwisgo ...
Yn y Pod-antur Cymraeg, mae Crad yn gwisgo ...

- Tynnwch sylw at y patrymau mae Crad yn eu defnyddio ar y DVD:

Es i i ...
Gwelais i ... / Gweles i ...
Roedd o'n grêt..
Roedd o'n ffantastig.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 29** a gofynnwch i'r disgyblion siarad am ddigwyddiad neu drip o'r gorffennol, gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn:

Siaradwch am ddiwrnod allan neu drip.

- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu am Ddiwrnod o Hwyl a Sbri neu am y digwyddiad neu'r trip a drafodwyd uchod, e.e. dyddiadur, cerdyn post neu neges e-bost at ffrind. Dylen nhw ddefnyddio'r patrymau canlynol:

Es i i'r ...

Gwelais i ... / Gweles i ... (Gallen nhw enwi ffrindiau.)

Ces i ...

Ces i amser ardderchog! / gwych / grêt!

Roedd e'n ... / Roedd o'n ...

- Dangoswch weddill y clip, ble mae Sgrin yn dangos lluniau ac yn disgrifio rhai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar draws y byd ar Ddydd Gŵyl Dewi.
- Cyflwynwch y llyfr **Dathlu Dydd Gŵyl Dewi** a chyflwynwch rai o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yng nghefn y llyfr.
- Mae'r cyfeiriad at **ddawnsio** yn rhoi cyfle gwych i gyflwyno dawnsio gwerin Cymreig drwy gyfrwng y Gymraeg:

Cylch Cyrcasian

1. Rhaid gwneud cylch mawr: bachgen ... merch ... bachgen ... merch ... (y ferch ar y dde i'r bachgen)
2. Rhaid dal dwylo.
3. Rhaid cerdded i'r canol – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar.
4. Rhaid cerdded 'nôl – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar.
5. Eto. I'r canol – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar ... a ... 'nôl – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar.
6. Merched: Rhaid cerdded i'r canol – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar. Rhaid cerdded 'nôl – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar.
7. Bechgyn: Rhaid cerdded i'r canol – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar. Rhaid cerdded 'nôl – pedwar cam: un ... dau ... tri ... pedwar.
8. Rhaid dal dwylo'r partner. Rhaid troelli – wyth cam: un ... dau ... tri ... pedwar ... pump ... chwech ... saith ... wyth.
9. Rhaid dal dwylo'r partner i wneud promenâd a sgipio'n wrthglocwedd – wyth cam: un ... dau ... tri ... pedwar ... pump ... chwech ... saith ... wyth.
10. Rhaid gwneud cylch mawr a dechrau eto.

Uned 4: Rhan 4 - Dewi Sant

Nodau:

- Cyflwyno un o'r chwedlau sy'n gysylltiedig â **Dewi Sant** drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu teimladau, e.e. **Dw i'n hapus.**; **Dw i'n drist.**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
	rhy hwyr hances (Gogledd Cymru) macyn (De Cymru)

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Ble mae Crad? Ar y sofffa. Beth am gael stori am Dewi Sant? Syniad da. Beth wyt ti eisiau i ginio? Dw i eisiau ... Pwy wyt ti? ... ydw i. Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Wyt ti'n hoffi byw yn ...? Ydw. / Nac ydw. Beth wyt ti'n hoffi fwyta? Dw i'n hoffi ... Gorchmynion: Helpwch ni, blant. Rhaid rhoi'r hances ar y llawr. Arall: Dw i'n drist. Dw i'n gallu ... Dyma ... Mae'n bell. Dw i wedi blino.	Dydd Gŵyl Dewi addurniadau draig goch

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae ...?

Beth am gael stori am ...?

Syniad da!

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Dewi Sant** (Uned 4, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r clip – ble mae Crad yn deffro ac yn trafod beth hoffai e gael i'w fwyta. Gorffennwch gyda Sgrin yn gofyn iddyn nhw a hoffen nhw gael stori.

Anogwch y disgyblion i helpu Ffion a Sgrin yn eu hymgais i ddeffro Crad.

Eglurwch ystyr **rhy hwyr** – mae Crad wedi colli ei ddathliad gan ei fod e wedi bod yn cysgu.

- Gofynnwch i'r disgyblion beth mae Crad eisiau i'w fwyta:
Beth mae Crad eisiau fwyta?
Dylen nhw restru'r bwydydd.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 30:**
Beth ydych chi eisiau i ginio?

Gofynnwch i'r disgyblion restru geiriau Cymraeg perthnasol, e.e.

pizza
salad
brechdan
sosejis / selsig
ffa
oren
afal
banana
sudd oren
dŵr
llaeth / llefrith

Dylai'r disgyblion drafod beth maen nhw eisiau i ginio.

Os yw'r gweithgaredd hwn yn cael ei wneud yn y prynhawn, gallen nhw drafod beth maen nhw eisiau:

i de
i swper.


- Dangoswch y rhan nesaf, ble caiff un o'r straeon sy'n gysylltiedig â Dewi Sant ei chyflwyno. Stopiwch y ffilm ar ddiwedd y stori.

Dangoswch y llyfr **Dewi Sant** a darllenwch y stori.

Gofynnwch y cwestiynau sydd i'w gweld yng nghefn y llyfr a chyflwynwch rai o'r gweithgareddau.

- Dangoswch y stori ar y DVD eto fel bod y disgyblion yn dod yn fwy cyfarwydd â hi.
- Gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett* helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori sydd yn y llyfr, e.e.:
 - Adroddwch y stori bob dydd.
 - Gwnewch fap stori e.e.

* Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007



- Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch chi'n dweud y stori a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei arddangos yn y dosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol.
 - Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gofynnwch iddyn nhw ddweud y stori gyda chi.
 - Wrth iddyn nhw fagu hyder, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grŵp sy'n eistedd o gwmpas bwrdd ac ati.
 - Gellid sefydlu cylchoedd stori, ble mae'r disgyblion yn dweud y stori wrth ei gilydd, gyda'r naill yn helpu'r llall yn ôl yr angen.
 - Pan fyddan nhw'n ddigon hyderus, gall y disgyblion adrodd y stori mewn parau.
 - Gellid amrywio'r ffordd mae'r stori'n cael ei chyflwyno.
- Yn ogystal, gallai'r disgyblion:
 - feimio golygfeydd penodol
 - chwarae rôl mewn golygfeydd penodol, e.e. yr olygfa ble mae Deiniol a Dyfrig yn ymweld â Dewi, golygfa'r dorf, pan nad yw'r bobl yn gallu gweld Dewi
 - actio'r stori o flaen y dosbarth – neu o flaen yr ysgol yn ystod gwasanaeth – gan ddefnyddio props addas, o bosib
 - cymryd rhan mewn gweithgaredd cadair goch, ble caiff y disgyblion eu gwahodd i eistedd yn y gadair goch yn eu tro a dychmygu mai nhw yw Dewi neu un o'r cymeriadau eraill. Dylen nhw ateb cwestiynau aelodau'r dosbarth neu'r grŵp.
 - Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a pherfformio'r stori, dangoswch y clip nesaf, ble mae Crad yn gosod hances ar y llawr a ble mae grŵp o blant yn adrodd y stori. Gallai'r disgyblion gymharu eu cyflwyniad nhw eu hunain gyda chyflwyniad y disgyblion ar y ffilm.
 - Gellid ymgymryd â gweithgareddau celf a dylunio sy'n gysylltiedig â'r stori, e.e. *collage* i ddarlunio golygfeydd penodol.
 - Gallen nhw wneud bwrdd stori a allai olygu defnyddio sgiliau TGCh.
 - Gellid gwneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg drwy wneud pypedau, e.e. pypedau bys / pypedau ffon i bortreadu Dewi a'r cymeriadau eraill. Gellid defnyddio'r rhain ar gyfer cyflwyno'r stori eto.
 - Pan fydd gan y disgyblion afael dda ar y stori, gallen nhw ei haddasu hi, e.e. gallen nhw newid
 - enwau'r cymeriadau
 - y lleoliadau
 - y cyfeiriadau at y tywydd ac ati.

Gallen nhw greu stori gwbl wahanol. Gallen nhw ddysgu'r stori hon, gwneud map stori, ailadrodd y stori bob dydd, adrodd y stori mewn grwpiau, parau ac ati ac yna dechrau ei hysgrifennu fesul adran.

- Gallai'r disgyblion wrando ar straeon ei gilydd a'u gwerthuso nhw:
 - Mae'n dda.**
 - Mae'n ardderchog.**
 - Dw i'n hoffi'r stori achos dw i'n hoffi'r ...**
 - Dw i'n hoffi'r stori achos mae'n ...**

Wyt ti'n hoffi'r stori?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r stori – mae'n dda iawn / ffantastig / wych / grêt.

Dw i'n hoffi'r stori achos dw i'n hoffi stori hapus /gyffrous.

- Ar ôl darllen am Dewi Sant, sy'n gymeriad enwog o Gymru, anogwch y disgyblion i feddwl am Gymro / Cymraes enwog arall (neu unrhyw berson enwog) ac i ddychmygu mai nhw ydy'r person yma e.e. rhywun o fyd chwaraeon neu rywun ar raglen deledu (cymeriad mewn rhaglen o bosib), cymeriad cartŵn, cymeriad o lyfr maen nhw wedi'i ddarllen, cymeriad hanesyddol ac ati. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'n syml am y person hwnnw, gan ddefnyddio'r patrymau hyn:
... ydw i.
Dw i'n byw yn ...
Dw i'n ...
Dw i'n hoffi ...

Anogwch nhw i ysgrifennu mwy, os yw'n briodol.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 31**:
A: Rhaid meddwl am rywun enwog.
B: Gofynna gwestiynau. Dyfala pwy ydy'r person enwog.

Dylen nhw gymryd eu tro i chwarae rhan **Partner A** a **Phartner B** a cheisio dyfalu pwy ydy eu partner (sef y person maen nhw wedi ysgrifennu amdano uchod):

Wyt ti'n canu?
Ydw. / Nac ydw.
Wyt ti ar y teledu?
Wyt ti'n cicio pêl?
Wyt ti'n actio?
Ble wyt ti'n byw?
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n ...

Sylwer: Gellir dod o hyd i ddeunyddiau cyffrous a pherthnasol eraill am Dewi Sant, megis creu llun, gêm gofio a jig-so ar wefan GCaD:

http://www.ngfl-cymru.org.uk/vtc/ngfl/2007-08/saintdavid/ds_cymraeg/index.html

Uned 4: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nodau

- Adolygu'r cynnwys, y patrymau iaith a'r eirfa a gyflwynwyd yn yr uned
- Adolygu ffurfiau'r gorffennol, e.e. **Es i i ...; Gwelais i ... / Gweles i; Ces i ...; Roedd e'n / o'n ffantastig!**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pa (+ treigladd meddal)? Pa fwyd? Pa ddiod? Beth ydy hwn? Beth sy yn y fasged? Mae ... yn y fasged. Does dim ... yn y fasged. Pwy ydy hwn? Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Wyt ti'n hoffi byw yn ...? Ydw. / Nac ydw. Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Ble wyt ti'n ...? Yn ... Beth wyt ti'n hoffi fwyta? Dw i'n hoffi bwyta ... Pwy wyt ti? ... ydw i. Arall Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda. Dyma chi.; Dyma ti. Amser gorffennol Es i i ... Gwelais i ... / Gweles i ... Ces i ... Roedd e'n / o'n ffantastig!	Mae'n braf. punt dwy bunt tair punt pedair punt pum punt newid

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy yn y (fasged)?

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Hefyd: Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...

Ffurfiau'r gorffennol:

Sylwer: Gallai cyflwyno rhai o'r cwestiynau canlynol fesul un ar adegau priodol, a'u defnyddio nhw'n rheolaidd, alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r amser gorffennol yn hyderus:

Ble est ti?

Es i i(r) ...

Beth welaist / welest ti?

Gwelais i ... / Gweles i ...

Beth gest ti?

Ces i ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Eglurwch fod y gwaith yn Uned 4: Rhan 5, **Ydych chi'n cofio?**, yn adolygu gwaith sydd wedi ei gyflwyno eisoes.

Rhan 1

- Dangoswch ran gyntaf y ffilm a stopiwch hi pan fydd Ffion yn ystyried beth allai hi fynd gyda hi ar ei phicnic.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 32:**

Picnic: Pa fwyd? Pa ddiod?

Helpwch Ffion a Crad.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar waelod y cerdyn, dylai'r disgyblion helpu Ffion a Crad i bacio'r fasged bicnic. Dylen nhw drafod a chofnodi syniadau. Gellid defnyddio'r canlynol hefyd:

Beth am ...?

Syniad da.

Na, dw i ddim yn meddwl.

- Dangoswch y rhan eto, ond y tro hwn, tynnwch sylw at y geiriau agoriadol:
Mae'n braf.
Gofynnwch i'r disgyblion restru cymaint o ymadroddion a geiriau sy'n gysylltiedig â'r tywydd â phosib:
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?
Sawl un?
Ti sy'n ennill.

Rhan 2

- Dangoswch yr ail ran, ble mae Crad a Ffion yn cael picnic ac rydyn ni'n gweld cynnwys y fasged.
Stopiwch y ffilm ble mae Ffion yn dweud "Edrycha!". Yna, diffoddwch y sgrin er mwyn gweld ydy'r disgyblion yn gallu cofio holl gynnwys y fasged.

Ar ôl i Crad ddweud nad oes oren yn y fasged, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu rhestr (o fewn amser penodol) sy'n nodi beth sydd ddim yn y fasged, e.e.

Does dim ... yn y fasged.

Gosodwch her:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf?

Rhan 3

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad yn dod i mewn ac mae'n dweud wrthon ni beth wnaeth e yn y parc. Yna, mae Sgrin yn gofyn i ni ydy Crad yn **dda**, yn **dda iawn** neu'n **ardderchog**. Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu, gan roi rhesymau dros eu penderfyniad.

- Canolbwyntiwch ar y patrymau:

Es i i'r ...

Ces i ...

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw wedi mynd i'r parc am bicnic a'u bod nhw wedi bwyta llawer o fwyd. Yna, gallen nhw chwarae'r gêm ganlynol:

Disgybl 1: **Es i i'r parc. Ces i oren.**

Disgybl 2: **Es i i'r parc. Ces i oren ac afal.**

Disgybl 3: **Es i i'r parc. Ces i oren, afal a banana.**

Disgybl 4: **Es i i'r parc. Ces i oren, afal, banana a brechdan ham.**

ac ati.

- Gan ddefnyddio'r patrymau:
Es i i'r ...
Ces i ...
Gwelais i ... / Gweles i ...
Roedd e'n / o'n ...
 gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu dyddiadur, cerdyn post neu neges e-bost sy'n disgrifio picnic (neu ddiwrnod allan) yn y gorffennol.

Os yw'n bosib, trefnwch bicnic (e.e. adeg **amser snac**) oherwydd byddai hyn yn rhoi rhywbeth dilys i'r disgyblion ysgrifennu amdano.

Rhan 4

- Gwylwch y darn ble mae Sgrin yn gofyn:
Ydych chi'n cofio?
 Adolygwch gyfrif arian yn Gymraeg.
- Gwylwch y darn ble mae Crad yn prynu balŵns mewn siop Gymraeg.
- Anogwch y disgyblion i chwarae rôl yn y sefyllfa hon.
- Datblygwch y sefyllfa ychydig - rhaid i Crad brynu dau beth yn y siop.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 33**:

A: Rwyd ti yn y siop Gymraeg. Rhaid prynu 2 beth.

B: Y siopwr wyt ti. Rhaid adio'r pris. Rhaid rhoi newid.

Mae'r cerdyn hwn yn annog y disgyblion i brynu mwy nag un eitem ac i gyfrifo'r cyfanswm sydd i'w dalu. Mae hyn yn eu hannog nhw i roi newid i'w gilydd hefyd.

Rhan 5

- Dangoswch ran olaf y ffilm, ble mae Sgrin yn gofyn **Pwy ydy hwn?**

Dylai'r disgyblion ddarllen y geiriau ar y sgrin ac yna, ar ôl stopio'r ffilm, dylen nhw eu hail-drefnu'r i greu cwestiynau.

Os yw'n briodol, gallen nhw ymgymryd â gweithgaredd tebyg yn y dosbarth, ble maen nhw'n gofyn cwestiynau i berson adnabyddus.

Dylai grŵp ohonyn nhw ddal llun o berson adnabyddus neu gymeriad o raglen deledu a dylen nhw ddychmygu mai nhw yw'r person yma. Dylai'r grŵp arall ofyn cwestiynau er mwyn ceisio dyfalu pwy yw'r person yn y llun.

Os nad yw'r grŵp sy'n dal y llun yn gallu ateb cwestiwn, dylen nhw ddweud:

Dw i ddim yn gwybod.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Wrth i chi baratoi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, byddai'n syniad da petai'r disgyblion yn trefnu ac yn cynnal digwyddiad Cymreig addas, gan y byddai'n gyfle ardderchog i gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg, dawnsio gwerin, bwyd Cymreig ac ati.

Gallai'r disgyblion wneud cyflwyniad PowerPoint yn ystod gwasanaeth yr ysgol hefyd:

Mawrth y cynta – Dydd Gŵyl Dewi

Rydyn ni'n ...

Mae pobl yn canu / dawnsio / bwyta cawl cennin / rhedeg mewn ras / cerdded.

Edrychwch ar ...

Roedd Dewi Sant yn byw yn Sir Benfro.

Roedd e'n / o'n ddyn da.

Ceir mwy o wybodaeth am Dewi Sant ar y cerdyn darllen **Dewi Sant**.

Uned 5

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Mae nifer helaeth o ofynion Rhaglen Astudio CA2 yn cael eu targedu yn yr uned hon. Caiff y disgyblion gyfle i wrando ac ymateb mewn amrywiaeth o amgylchiadau, i fynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus. Rhoddir cyfleoedd iddyn nhw chwarae rôl hefyd.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunydd darllen sy'n cyd-fynd â'r uned.

Rhoddir cyfleoedd iddyn nhw ysgrifennu "at amrywiaeth o bwrpasau", gan ysgrifennu rhestri, darn ffeithiol (e.e. am y crocodeil), dyddiadur, poster, taflen, deialogau a llythyr fel eu bod yn cael eu hannog i "ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau."

Mathemateg

Cyflwynir y cysyniad o **hir** a **byr** ac anogir y disgyblion i fesur gwahanol eitemau, gan ddefnyddio centimetrau a metrau. Mae hyn yn rhoi cyfle i "ddewis unedau safonol priodol o hyd" ac i ddeall "y perthnasoedd rhwng unedau, a throsi un uned fetrig i un arall."

Pwysleisir bod rhaid dechrau mesur o'r pwynt cywir ar y ffon fesur / riwler pob tro:

Rhaid mesur o'r pwynt yma.

Adolygir gweithio gydag arian, e.e. talu am fynediad i'r pwll nofio yn Rhan 4 a gwneir mwy o waith mewn perthynas ag amser gan fod **chwarter wedi** a **hanner awr wedi** yn cael eu cyflwyno / adolygu.

Mae cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau adio a thynnu yn Rhan 2.

Dylunio a thechnoleg

Caiff geirfa benodol a phatrymau iaith sy'n addas i'w defnyddio mewn sesiynau celf eu hadolygu. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₁** am fwy o fanylion. Wrth i Ffion a Crad wneud gwaith dylunio a thechnoleg, er enghraifft, maen nhw'n defnyddio'r patrymau hyn:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Maen nhw'n gwerthuso gwaith ei gilydd hefyd:

Dw i'n hoffi'r

Mae'n hyfryd.

Mae'r sêr yn effeithiol (iawn).

Yn yr uned hon, mae Crad yn defnyddio gwellt ar gyfer dylunio roced ac mae Ffion yn mesur, torri a gludo gwellt er mwyn gwneud ffrâm ar gyfer llun. Gallech chi roi cyfle i'r disgyblion "ddewis defnyddiau ... priodol" a "mesur, marcio, torri, siapio (ac) uno" wrth iddyn nhw ymgymryd â gweithgaredd dylunio a thechnoleg. Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion drafod a gwerthuso'u gwaith.

Addysg gorfforol

Mae sawl cyfle i ymgymryd â gweithgareddau addysg gorfforol yn yr uned hon, e.e. neidio a thaflu. Felly, mae cyfleoedd i "ddatblygu, cadarnhau a chymhwyso'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cystadleuol gan gynnwys anfon (*taflu, lluchio, bowlio*)".

Yn ogystal, mae Crad a Ffion yn chwarae pêl-droed, sy'n rhoi sawl cyfle i gyflwyno geirfa a phatrymau iaith sy'n ymwneud â'r gêm.

Mae ymweliad â phwll nofio yn Rhan 4 yn rhoi cyfle i gyflwyno geirfa a phatrymau iaith y gall athrawon a disgyblion eu defnyddio pan fyddan nhw'n mynd i'r pwll nofio.

Daearyddiaeth

Caiff mapiau sy'n dangos **Asia** a **De America** eu cynnwys ar y cerdyn darllen **Anifeiliaid Hir** a gwelir map o'r **Eidal** ar y cerdyn darllen **Llythyr**.

Gellid ymgymryd â mwy o waith am y gwledydd hyn a gallai'r disgyblion chwilio am eu lleoliad ar glôb, map neu mewn atlas.

Gwyddoniaeth

Caiff gwybodaeth sylfaenol am **anifeiliaid hir** ei chyflwyno ac yna mae cyfleoedd i chwilio am fwy o wybodaeth a lluniau.

TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am luniau ac am wybodaeth am nadroedd ac am anifail hir ac i gyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf addas, e.e. taflen.

Yn ogystal, gallen nhw wneud cyflwyniad PowerPoint am reolau sy'n gysylltiedig â mynd i'r pwll nofio.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Ar ddiwedd yr uned, caiff y disgyblion gyfle i ddarllen llythyr oddi wrth Andrea, sy'n byw yn yr Eidal ac sy'n eu gwahodd i fod yn ffrindiau post iddo. Yn y llythyr, mae'n dweud mai dim ond yn y boreau y mae'n mynd i'r ysgol yn yr haf gan fod y tywydd mor boeth. Mae e hefyd yn sôn am y math o fwyd mae e'n ei hoffi. Yna, mae cyfle i'r disgyblion ysgrifennu llythyr yn ateb Andrea fel eu bod yn gallu ysgrifennu am eu bywyd nhw.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau, patrymau iaith a geirfa sydd wedi'u cyflwyno eisoes fel ei bod yn sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Drwy gydol yr uned, ceir cyfleoedd i adeiladu ar yr hyn y mae'r disgyblion wedi ei ddysgu eisoes ac i ddatblygu sgiliau drwy lunio rhestr, chwarae gemau ac ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys rhai trawsgwricwlaidd.

Mae nifer o weithgareddau'n rhoi cyfle i ffurfio a mynegi barn yn ogystal.

Datblygu cyfathrebu

Mae sawl cyfle i'r disgyblion wrando ar bobl eraill ac i ymateb, i ganfod a dethol gwybodaeth ac i ymateb i'r hyn maen nhw ei ddarllen. Yn ogystal, rhoddir cyfle iddyn nhw drefnu gwybodaeth a'i chyfathrebu mewn dulliau gwahanol.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio TGCh ar gyfer chwilio am luniau a gwybodaeth am nadroedd a chrocodeilod. Yn ogystal, maen nhw'n cael eu hannog i wneud cyflwyniad PowerPoint ynglŷn â sut i ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel mewn pwll nofio. Dylen nhw ddefnyddio cyfrifiadur i ddrafftio ac ail-ddrafftio gwaith ysgrifenedig.

Datblygu rhif

Mae cyfleoedd i ddefnyddio rhifolion a mesuriadau ac i gasglu gwybodaeth mewn amryw ffyrdd.

Uned 5: Rhan 1 - Hir a byr

Nodau

- Cyflwyno'r cysyniad o **hir** a **byr**
- Defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau mathemategol sy'n ymwneud â **mesur**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth am fesur ...? Rhaid mesur o'r pwynt yma. Sawl centimetr? Sawl metr? Mae'r ... yn effeithiol (iawn).	hir byr seleri i bwdin strip ffrwythau mesur riwler ffon fesur olwyn fesur clipfwrdd grid centimetr ... centimetr wrth ... centimetr gwelltyn, gwellt ac un arall effeithiol llinell

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth am wneud llun? Syniad da! Beth ydy dy hoff fwyd di? Beth nesa? Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Wyt ti'n hoffi ...? Ydw, dw i'n hoffi ... Nac ydw, dw i ddim yn hoffi ... Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Ble mae'r clipfwrdd? Arall Fy nhro i nawr / rŵan. Dyma ti.	bara ciwcymbr papur pensil glud siswrn seren, sêr cerdyn torri gludo

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha.; Hefyd: **Edrychwch.**

Beth am wneud llun / grid?

Beth am fesur y ...?

Syniad da!

Ble mae'r (clipfwrdd)?

Dyma ti!

Yn gynta, ...

Beth nesa?

Ga i ...?; Cei / Na chei.; Cewch; Na chewch.

Wyt ti eisiau ...?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...

Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Hir a byr** (Uned 5, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r clip – hyd at ddiwedd y rhestr o'r pethau **hir** a'r pethau **byr** (cyn y cwestiwn **Beth am fesur y bwyd?**).
- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi adnabod y ddau air allweddol: **hir** a **byr**. Dangoswch beth ydy ystyr y geiriau hyn, e.e. drwy dynnu llinellau hir a byr ar y bwrdd gwyn, drwy gymharu strybedi hir a byr o **bapur, rhuban, pensil, sgarff**. Ailadroddwch y geiriau **hir** a **byr** bob tro.

Gofynnwch i'r disgyblion edrych o gwmpas y dosbarth ac i restru'r eitemau sy'n **hir** ac yn **fyr**. Byddai gosod eitemau hir a byr mewn lleoedd amlwg yn y dosbarth o flaen llaw yn sicrhau llwyddiant y gweithgaredd hwn. Gallai'r disgyblion wneud grid wedyn, e.e.

Hir	Byr
trowsus	siorts
sanau hir	sanau byr
pensil	sialc
riwler	rhwbwr
clip papur	clip papur
silff lyfrau	silff lyfrau
llinyr	llinyr
gwallt	gwallt

Os nad yw'r disgyblion yn gwybod y gair Cymraeg am eitemau penodol, gallen nhw edrych mewn geiriadur neu ddefnyddio'r gair Saesneg.

- Mae Ffion yn gofyn i Crad:
Beth ydy dy hoff fwyd di?
Cyflwynwyd y patrwm hwn gyntaf yn Uned 2 ond gellir ei adolygu nawr. Gweler Uned 2.
- Gallai'r disgyblion drafod ydy'r bwydydd mae Crad a Ffion yn eu rhestru ar ddechrau'r clip yn rhai iach:
Ydy ... yn dda i ti?
Ydy. / Nac ydy.
Mae ... yn dda (iawn) i ti.
- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad a Ffion yn mesur y bwyd. Stopiwch y ffilm pan fyddan nhw'n rhoi'r gorau i fesur.

Sylwer: Mae'r ffon fesur a ddefnyddir yn dangos mesuriadau mewn centimetrau a milimetrau. Gallai hyn arwain at ymgymryd â gwaith mathemategol sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng centimetrau a milimetrau.

Mewn parau, gallai'r disgyblion fesur gwahanol eitemau yn y dosbarth (e.e. rhai o'r eitemau a restrir yn y grid uchod) a gallen nhw gofnodi eu canfyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg:

A: **Sgarff.**

B: **Sawl centimetr?**

A: **... centimetr.**

B: **Iawn, ... centimetr.**

- Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r sefyllfa ble mae Crad yn cynnig diod i Ffion ar gyfer chwarae rôl. Cyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, fodd bynnag, dylid darparu diodydd addas, e.e. **dŵr**, **llaeth** / **llefrith**, **sudd afal**, **sudd oren**. Dylid darparu **gwellt** hefyd.

Gallai'r sgysiau gynnwys y patrymau hyn:

A: **Wyt ti eisiau diod?**

B: **Ydw, os gwelwch yn dda.**

A: **Wyt ti eisiau gwelltyn?**

B: **Ydw, os gwelwch yn dda.**

A: **Pa liw?**

B: **Coch a gwyn os gwelwch yn dda.**

A: **Dyma ti.**

B: **Diolch.**

- Gallai'r disgyblion fesur gwellt a'u torri nhw i wahanol hyd yn unol â mesuriadau penodol a roddir iddyn nhw.
- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Crad yn gwneud roced drwy ddefnyddio **gwellt**. Ar ôl iddo orffen, mae Ffion yn mynegi'i barn:
Mae'n wych.
Mae'r sêr yn effeithiol.
Mae'r sêr yn effeithiol iawn.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n hoffi'r roced?

Wyt ti'n hoffi'r roced?

Gofynnwch iddyn nhw ddweud mwy na dim ond **Ydw** neu **Nac ydw**, e.e.

Mae'n wych / grêt / ffantastig / lliwgar / effeithiol.

Mae'r sêr / lliwiau'n effeithiol iawn.

Mae angen / eisiau mwy o liw.

Mae angen / eisiau mwy o (goch / felyn / wyrdd).

Gallen nhw wneud delweddau drwy ddefnyddio gwellt, gan ddefnyddio patrymau iaith Cymraeg i ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud (gweler y dudalen nesaf) neu gallech chi ddangos enghraifft arall - gweler isod.

- Dangoswch ran olaf y ffilm, ble mae Ffion yn gwneud ffrâm ar gyfer llun.

Sylwch ar fesuriadau'r cerdyn:

Un deg pedwar centimetr wrth un deg naw centimetr.

Gallech chi gysylltu'r darn hwn â gwaith mathemategol sy'n gofyn i'r disgyblion fesur dwy ochr gwrthrych, diagram ac ati. Sylwch ar y patrwm:

Rhaid mesur o'r pwynt yma.

Gallech chi addasu'r ffordd y mae Ffion yn gwneud y ffrâm er mwyn cyflwyno mwy o weithgareddau mathemategol os ydych chi'n dymuno, e.e. gallai'r disgyblion sicrhau eu bod

nhw'n gosod y llun yng nghanol y cerdyn drwy fesur y pellter rhyngddo ag ymyl y cerdyn ar y naill ochr a'r llall, gan sicrhau bod pellter y llun o bob ochr yn gyfartal.

Gallech chi roi gwellt lliwgar i'r disgyblion eu defnyddio ar gyfer dylunio a gwneud eitemau o'u dewis nhw. Gallen nhw ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Dw i eisiau gwelltyn ... ac un arall ... ac un arall.

Yna, dylen nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith aelodau eraill o'r grŵp:

Mae'n hyfryd.

Mae'n wych.

Mae'r ... yn effeithiol.

Mae angen / eisiau mwy o ...

- I ddod â'r adran hon i ben, awgrymwch fod y disgyblion yn darllen am anifeiliaid hir:
Beth am ddarllen am anifeiliaid hir?
Pa anifeiliaid?

Dylech chi dderbyn awgrymiadau yn Saesneg neu yn Gymraeg.

Cyflwynwch y cerdyn darllen **Anifeiliaid Hir**.

Trafodwch liwiau'r anifeiliaid.

Ar ôl darllen a thrafod y cerdyn darllen, gofynnwch i'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth a lluniau o nadroedd eraill. Yn ogystal, gallech chi ofyn iddyn nhw chwilio am wybodaeth am anifail hir arall - **y crocodeil**.

Gallai'r disgyblion drafod y wybodaeth ac yna gallen nhw ysgrifennu darn addas sy'n cyflwyno'r wybodaeth:

Beth ydy hwn?

Pa liwiau?

Mae'r crocodeil yn hir.

Mae'r crocodeil yn byw yn ...

Mae'r crocodeil yn bwyta ...

- Ail-ddangoswch ddechrau'r ffilm, ble mae'r cymeriadau'n cyflwyno'r gwahanol fwydydd. Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 34**:
Beth am wneud snac? Sut?
Siaradwch am hyn.

Yn y gweithgaredd hwn, mae cyfle i'r disgyblion adolygu a defnyddio patrymau fel:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Rhaid ...

Golcha'r ... / Golchwch y ...

Torra'r ... / Torrwch ...

Rho'r ... / Rhowch y ...

Gallen nhw ddefnyddio'r patrymau hyn yng nghyd-destun gwneud **brechdan hir**.

Uned 5: Rhan 2 - Hetiau

Nodau

- Datblygu a chysylltu brawddegau Cymraeg fel bod y disgyblion yn gallu siarad yn fwy estynedig amdanyn nhw eu hunain, e.e. wrth siarad am yr hyn maen nhw'n hoffi ei wneud
- Chwarae gemau taflu, sy'n galluogi'r disgyblion i fesur yn Gymraeg, gan adolygu peth o'r gwaith sydd wedi ei gyflwyno eisoes
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dyna ddigon! Pa het wyt ti eisiau? Yr un yma. Caea dy lygaid.	het reidio het cowboi helmed het môr-leidr reidio doniol cap nofio pwll nofio syrkas bag ffa olwyn fesur

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n (chwarae gêm). Ga i dro? Cei. / Na chei. Ble mae'r ...? Ydy'r ... ar y ...? Ydy. / Nac ydy. Beth am chwarae gêm? Syniad da. Sut mae chwarae? Gorchmynion Sefwch. Caewch eich llygaid. Tyrd yma. / Dere yma. Rhaid mesur. Dim pipo! Arall Fy nhro i nawr / rŵan. Ti sy'n ennill.	chwerthin taflu mesur llinell metr

Sylwer: Caiff patrymau penodol eu cysylltu â'i gilydd yn y rhan hon er mwyn datblygu ac ymestyn sgysiau, e.e.

Geiriau cwestiwn:	
Pwy?	Pwy wyt ti? ... ydw i.
Beth?	Beth wyt ti'n hoffi (wneud?) Dw i'n hoffi ...
Ble?	Ble wyt ti'n ... Yn ...
Pryd?	Pryd wyt ti'n ...? Ar ddydd Sadwrn. Bob dydd Sadwrn.

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...

Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n (chwarae gêm).

Ga i dro?; Cei.; Na chei.

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Ydy'r ... ar y bwrdd?; Ydy.; Nac ydy.

Tyrd yma. / Dere yma.

Rhaid sefyll tu ôl i'r llinell.

Dyna ddigon!

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch focs o hetiau / capiau i'r disgyblion.
Gofynnwch iddyn nhw pa het / cap maen nhw'n ei hoffi a pham:

Pam?

Achos mae'n lliwgar.

Achos mae'n hwyl.

Achos dw i'n hoffi coch / glas / gwyrdd.

Achos dw i'n hoffi'r siâp.

Dangoswch y ffilm **Hetiau** (Uned 5, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar ran gyntaf y ffilm, hyd at y darn ble mae Ffion yn dychmygu mai clown ydy hi.

Tynnwch sylw at y geiriau cwestiwn canlynol. Wrth i chi eu cyflwyno nhw, gofynnwch i'r disgyblion ofyn cwestiwn gan ddefnyddio'r gair hwnnw. Ysgrifennwch y cwestiynau ar y bwrdd gwyn:


Pwy?	>	Pwy wyt ti?
Beth ... hoffi?	>	Beth wyt ti'n hoffi?
Ble?	>	Ble wyt ti'n ...? *
Pryd?	>	Pryd wyt ti'n ...?

* Efallai y byddan nhw'n awgrymu **Ble mae ...?** neu **Ble ydyn ni?** ond canolbwyntiwch ar **Ble wyt ti'n ...?**

Dangoswch yr un rhan o'r ffilm eto a thynnwch sylw at y cwestiynau hyn.

- Gwisgwch un o'r hetiau a dychmygwch eich bod yn rhywun arall. Gofynnwch i'r disgyblion ofyn y cwestiynau uchod i chi. Atebwch nhw.

Cynigiwch yr hetiau i'r disgyblion. Wrth iddyn nhw ddewis un, dylen nhw ddychmygu eu bod nhw'n berson arall. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw adolygu patrymau sylfaenol. Dangoswch y cwestiynau'n glir yn y dosbarth er mwyn sbarduno'r disgyblion.



Dyma rai awgrymiadau ar gyfer datblygu sgysiau:

Het Siôn Corn:

- A: **Helo.**
 B: **Helo. Pwy wyt ti?**
 A: **Siôn Corn ydw i.**
 B: **Ble wyt ti'n byw?**
 A: **Dw i'n byw yn yr Arctig.**
 B: **Beth wyt ti'n hoffi?**
 A: **Dw i'n hoffi sgïo.**
 B: **Ble wyt ti'n sgïo?**
 A: **Yn yr Arctig.**
 B: **Pryd wyt ti'n sgïo?**
 A: **Yn y gaeaf.**

Het cowboi:

- B: **Helo.**
 A: **Helo. Pwy wyt ti?**
 B: **Shane ydw i.**
 A: **Ble wyt ti'n byw?**
 B: **Dw i'n byw yn America.**
 A: **Beth wyt ti'n hoffi?**
 B: **Dw i'n hoffi reidio.**
 A: **Ble wyt ti'n reidio?**
 B: **Yn y parc.**
 A: **Pryd wyt ti'n reidio?**
 B: **Bob dydd Sadwrn.**

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ysgrifennu deialogau, e.e. mewn pâr, gallen nhw ysgrifennu deialog sy'n gysylltiedig â het benodol, heb ddweud at ba het maen nhw'n cyfeirio. Yna, gallen nhw ofyn i bâr arall ddarllen y ddeialog er mwyn ceisio dyfalu pa het yw'r un gywir.

• Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 35:**

- A: Rwy'ti'n gwisgo'r cap yma. Pwy wyt ti?**
B: Gofynna gwestiynau i dy bartner di.

Dylai **Partner A** ddychmygu ei fod yn gwisgo'r cap pêl-fas – gallai fod yn unrhyw un, sy'n byw yn unrhyw le, sy'n hoffi gwneud unrhyw beth.

Mae **Cerdyn Siarad 36** yn rhoi cyfle i newid capiau / hetiau a chyfnewid rolau mewn sefyllfa newydd:

- A: Gofynna gwestiynau i dy bartner di.**
B: Rwy'ti'n gwisgo'r het yma. Pwy wyt ti?

- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Crad yn chwilio am yr het.

Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid:

Caewch eich llygaid.
Dim pipo.

Gofynnwch i ddisgybl guddio'r het. Yna, dylai gweddill y dosbarth ofyn cwestiynau er mwyn ceisio darganfod ble mae'r het:

Ydy'r het yn y ...?

ar y ...

o dan y ...

tu ôl i'r ...

o flaen y ...

Ydy. / Nac ydy.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae Crad a Ffion yn chwarae gêm daflu. Nod y gêm yw gweld pwy sy'n gallu taflu'r het bellaf – i rannau sydd wedi'u marcio ar y llawr (metr / dau fetr / tri metr / pedwar metr), er mwyn adolygu'r gwaith a wnaed ar fesur yn Rhan 1.

Gallai'r disgyblion chwarae'r gêm hon ar y buarth. I ddechrau, dylen nhw:

- dynnu'r llinell gyntaf ar y buarth
- mesur llinell arall **metr** oddi wrth yr un gyntaf
- mesur a thynnu cymaint o linellau eraill ag sydd eu hangen.

Dylen nhw sefyll tu ôl i'r llinell gyntaf a thaflu yn eu tro,:

Rhaid sefyll tu ôl i'r llinell.

Rhaid taflu.

Yna, dylen nhw fesur:

Rhaid mesur.

Sawl metr?

... metr.

Petai pob un yn taflu bump o weithiau, gallen nhw gyfrifo'r pellter a chofnodi'r sgôr.

Os yw'n briodol, gallech chi nodi pa sgôr mae'n rhaid iddyn nhw ei gyrraedd cyn iddyn nhw ddechrau, e.e. cyfanswm o 30 metr. Yna, yn eu tro, dylen nhw daflu'r het bump o weithiau er mwyn ceisio cyrraedd 30. Byddai hyn yn golygu adio a thynnu a phenderfynu i ble dylen nhw daflu'r het.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm, ble mae plant yn chwarae gêm debyg. Y nod yw taflu'r bag ffa bellaf.

Chwaraewch y gêm hon gyda'r disgyblion. Gan sefyll tu ôl i'r llinell, dylai pob un daflu bag ffa. Ar ôl i bawb daflu, dylid mesur pellter pob bag ffa a'i gofnodi.

Petai pob disgybl yn taflu bump o weithiau, gallen nhw fesur pob pellter a chofnodi'r cyfanswm.

- Gellid gofyn i'r disgyblion ysgrifennu a darlunio rheolau'r gêm hon er mwyn galluogi disgyblion eraill i'w chwarae hi, e.e.

Rhaid gwneud llinell.

neu

Rhaid tynnu llinell.

Rhaid sefyll tu ôl i'r llinell.

Barod?

Rhaid taflu'r bag ffa.

Byddwch yn ofalus.

Rhaid mesur.

- Cyflwynwch y llyfr **Het Arbennig**. Gofynnwch am farn y disgyblion - mae patrymau a geirfa berthnasol yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₁**. Trafodwch y cwestiynau sydd yng nghefn y llyfr a gallech chi gyflwyno'r gweithgareddau sydd yng nghefn y llyfr hefyd.

Uned 5: Rhan 3 - Syrpreis

Nodau

- Defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn gweithgareddau addysg gorfforol, yn benodol pêl-droed
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Paid dweud wrth ... Dw i'n gwybod. Cicia i'r chwith. Cicia i'r dde. Cicia'n uchel. Deg metr o'r gôl. Bob dydd Sadwrn.	lle dod 'nôl wedyn trac rhedeg cae rygbi cae pêl-droed yn uchel gôl

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau mynd i'r ffair? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch. Beth am roi mwy o gliwiau? Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Ble ydyn ni? Wyt ti'n hoffi chwarae pêl-droed? Ydw, dw i'n hoffi chwarae pêl-droed yn fawr. / Nac ydw, dw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed. Gorchmynion Meddylia. Dyfala. Sefa. Edrycha ar y bêl. Ewch. Rhaid meddwl. Arall Dw i ddim yn gwybod. Fy nhro i nawr / rŵan. Dy dro di nawr / rŵan. Nefi wen! Amser gorffennol Es i i'r cae pêl-droed. Roedd e'n / o'n grêt.	map meddwl parc pwll nofio traeth ffair castell siopau sinema cliw, cliwiau mwy o gliwiau crys T siorts treinyrs

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau mynd allan?; Ydw.; Nac ydw.; Ydych chi eisiau mynd allan?; Ydyn.; Nac ydyn. Rhaid meddwl!; Meddylia...; Meddylwch.

Ardderchog.

Dw i'n gwybod.; Dw i ddim yn gwybod.

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw.

Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Tyrd / Dere.; Dewch.

Dy dro di nawr / rŵan.; Eich tro chi nawr / rŵan.

Edrycha.; Edrychwch.

Ga i weld?; Cei.; Na chei.; Cewch.; Na chewch.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Syrpreis** (Uned 5, Rhan 3). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf - hyd at y darn ble mae Crad a Ffion yn meddwl am leoedd yr hoffon nhw fynd iddyn nhw drwy gwblhau mapiau meddwl.

Eglurwch fod Ffion yn ceisio meddwl am syrpreis i Crad a bod Crad yn ceisio meddwl am syrpreis i Ffion. Mae'r ddau'n meddwl am leoedd y gallan nhw fynd iddyn nhw ond dydyn nhw ddim yn mynd i ddweud wrth ei gilydd i ddechrau.

Gofynnwch i'r disgyblion restru lleoedd ble gallen nhw fynd i gael hwyl. Anogwch nhw i feddwl am leoedd sy'n gysylltiedig â'u hardal nhw a gyda Llandudno (cyfeiriodd Crad at Landudno yn Uned 1) a Chaerdydd (cyfeiriodd Ffion at Gaerdydd yn Uned 1) e.e.

y parc

y ffair

y sinema

y siopau

y castell

y pwll nofio

y bowllo deg

y dre

y buarth / yr iard

Hefyd, efallai y byddan nhw'n gwybod:

yr ardd

y traeth

y syrcas

y sw

- Dangoswch y clip ble mae Crad yn rhoi cliwiau i Ffion am ble hoffai fynd. Gan nad yw'n enwi'r lle, gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cliwiau a cheisio dyfalu:

Ble mae Crad eisiau mynd? Dyfalwch.

Beth ydy'r cliwiau?

crys T

siorts

treinyrs

Mae e'n / o'n rhedeg.

Mae e'n / o'n cicio.

Gofynnwch am syniadau'r disgyblion. Efallai y bydd yr ymadrodd **cae pêl-droed** yn anghyfarwydd iddyn nhw, felly derbyniwch y gair Saesneg a chyflwynwch yr ymadrodd Cymraeg.

Wrth iddyn nhw gynnig syniadau, gallech chi dderbyn neu wrthod eu syniadau neu ddweud:
Gawn ni weld.

- Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am rywle hoffen nhw fynd iddo, ac, yn eu tro, i feimio clw sy'n gysylltiedig â'r lle hwnnw. Yna, dylai'r disgyblion ofyn:
Wyt ti eisiau mynd i ... / i'r ...?
Ydw. / Nac ydw.

- Gellir cyflwyno **Cerdyn Siarad 37** nawr:
A: Ble wyt ti eisiau mynd? Meddylia am le da.
B: Gofynna 5 cwestiwn i ddyfalu ble mae Partner A eisiau mynd.

Adolygwch yr eirfa a chyflwynwch un o'r patrymau isod, neu'r ddau, fel y bo'n briodol:

Oes ... yn y lle?
Oes siop yn y lle?
Oes caffi yn y lle?
Oes coed yn y lle?
Oes si-so yn y lle?
Oes. / Nac oes.

Wyt ti'n gallu ... yn y lle?
Wyt ti'n gallu bwyta yn y lle?
Wyt ti'n gallu chwarae yn y lle?
Wyt ti'n gallu mynd ar y reids yn y lle?
Wyt ti'n gallu gwyllo / edrych ar ffilm yn y lle?
Ydw. / Nac ydw.

Dylai'r disgyblion feddwl am be arall hoffen nhw fynd iddo ac ateb cwestiynau **Partner B**.

Gellid ailadrodd y gweithgaredd hwn gyda'r partneriaid yn cyfnewid rolau.

- Tynnwch sylw'r disgyblion at y ffilm eto:
Ble mae Crad eisiau mynd – beth am edrych ar y ffilm?
- Dangoswch Crad a Ffion ar y cae pêl-droed.

Sylwer: Mae'r adran hon yn cynnwys patrymau iaith y gallwch chi eu defnyddio yn ystod sesiynau addysg gorfforol, e.e.

Sefa yma.
Sefa yma – deg metr o'r gôl.
Cicia'r bêl.
Cicia i'r chwith.
Cicia i'r dde.
Cicia'n uchel.
Cicia'r bêl i mewn i'r gôl.
Tria eto.
Edrycha ar y bêl.
Edrycha ar y gôl.
Dy dro di.

Sefwch yma.
Sefwch yma ... deg metr o'r gôl.
Ciciwch y bêl.
Ciciwch i'r chwith.
Ciciwch i'r dde.
Ciciwch yn uchel.
Ciciwch y bêl i mewn i'r gôl.
Triwch eto.
Edrychwch ar y bêl.
Edrychwch ar y gôl.
Eich tro chi.

- Gallai'r disgyblion ymarfer y patrymau hyn ar y cae mewn sesiwn addysg gorfforol pryd y gallen nhw roi cyfarwyddiadau i'w gilydd i gicio'r bêl i gyfeiriad penodol ac ati. Gallen nhw ofyn hefyd:
Beth ydy'r sgôr?
... – pump; ... – dim.

- Dylid cyflwyno **Cerdyn Siarad 38**:
A: Crad wyt ti. Helpa Ffion i chwarae pêl-droed. Yna, gofynna gwestiynau i Ffion.
B: Ffion wyt ti.

Dylai **Partner A** chwarae rhan Crad gyda **Partner B** yn chwarae rhan Ffion.

Atgoffwch y disgyblion fod Ffion ar y ffilm yn esgus nad yw hi'n gallu chwarae pêl-droed ac mae Crad yn ceisio'i helpu hi. Yna, ar ôl sylweddoli ei bod hi'n gallu chwarae'n dda iawn, mae'n gofyn iddi ydy hi'n hoffi pêl-droed a ble a phryd mae hi'n chwarae. Gallai'r disgyblion ddilyn patrwm eu sgwrs er mwyn cynnal eu sgysiau eu hunain.

Tynnwch sylw at y patrymau ar y cerdyn; adolygwch ddyddiau'r wythnos a chyflwynwch **bob** er mwyn ateb y cwestiwn **Pryd?**

dydd Llun	bob dydd Llun
dydd Mawrth	bob dydd Mawrth
dydd Mercher	bob dydd Mercher
dydd Iau	bob dydd Iau
dydd Gwener	bob dydd Gwener
dydd Sadwrn	bob dydd Sadwrn
dydd Sul	bob dydd Sul

- Dangoswch ran olaf y ffilm ble mae Ffion yn dweud wrth Sgrin i ble aeth hi ac yna'n mynegi barn:
Es i i'r cae pêl-droed gyda Crad.
Roedd e'n grêt.

Gallai'r disgyblion siarad am eu profiadau nhw, e.e.

Es i i'r cae pêl-droed gyda
Roedd e'n / o'n grêt / ffantastig / ardderchog / ofnadwy.

Petaech chi eisiau cyflwyno'r amser gorffennol ar gyfer **cicio**, gallech chi gyflwyno'r canlynol:

Ciciais i i'r chwith.
Ciciais i i'r dde.
Ciciais i'n uchel.
Ciciais i i mewn i'r gôl.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu cerdd fer, gan ddefnyddio'r patrymau hyn ac yna gwneud llun i gyd-fynd â'r darn, e.e.

Chwarae pêl-droed

Ciciais i i'r chwith.

Ciciais i i'r dde.

Ciciais i'n uchel.

Ciciais i i mewn i'r gôl.

Ffantastig!

- Dylid cyflwyno'r llyfr **Pêl-droed**. Dylid trafod y cwestiynau sydd i'w gweld yng nghefn y llyfr a gellir gwneud y gweithgareddau.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu cofnod mewn dyddiadur sy'n sôn am y digwyddiadau yn y llyfr o safbwynt Ffion, e.e.

Heddiw, es i i'r cae pêl-droed.

neu

Roedd heddiw'n wych. Es i i'r cae pêl-droed.

Roedd e'n wych.

Roedd y gêm yn anhygoel.

[Ciciais i ...]

Roedd (enw rheolwr tîm pêl-droed Cymru) yn y gêm.

Bobl bach!

- Ail-ddangoswch y rhan ble mae Crad a Ffion ar y cae pêl-droed. Gofynnwch am farn y disgyblion, e.e.

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi chwarae pêl-droed.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed.

Uned 5: Rhan 4 - Syrpreis arall

Nodau

- Defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn gweithgareddau addysg gorfforol, yn benodol nofio
- Parhau gyda gwaith mathemategol sy'n gysylltiedig â mesur, e.e. **un deg pum metr, dau ddeg metr**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Sylwer: Mae'r ferf **gallu** yn cael ei defnyddio llawer yn y rhan hon.

Dw i'n gallu ...

Dw i ddim yn gallu ...

Wyt ti'n gallu ...

Ydw. / Nac ydw.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Geirfa newydd
Dim ...! Dim gweiddi! Dim rhedeg! Dim neidio! Dim deifio! Dim sblasio! Dim gwthio! Dim fflippers! gallu Wyt ti'n gallu ... ? Ydw. / Nac ydw. Dw i'n gallu nofio ... i'r ochr arall chwarter wedi ... hanner awr wedi ...	pwll nofio bag nofio gwisg nofio trynocs nofio tywel hwyaden bandiau braich gogls snorkel fflippers ystafell newid bechgyn merched cawod cael cawod

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy syrpreis Ffion? Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Beth am nofio? Ga i gliw os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Wyt ti'n ...? Ydw. / Nac ydw. Beth sy yn y bag? Beth arall sy yn y bag? Ble mae Crad? Gorchmynion Edrycha ar Crad. Teimla fe / fo. Esgusodwch fi. Rhaid bod yn ofalus.	mwy o ... mwy o gliwiau sbectol haul pedair punt newid deg metr un deg pum metr dau ddeg metr pum deg metr

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Gwych!

Pardwn?

Dim ...!

Beth sy yn y ...?; Beth arall sy yn y ...?

Ble mae ...?

Wyt ti'n gallu ...?

Beth am nofio ...?

Rhaid bod yn ofalus.

Dim gwrthio!

Yn ogystal, gellid defnyddio llawer o'r patrymau a'r eirfa a restrir ar y dudalen flaenorol yn ystod gwersi nofio.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Syrpreis arall** (Uned 5, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r clip - y darn ble mae Crad yn ceisio dyfalu ble hoffai Ffion fynd hyd at y cyfeiriad at **wisg nofio**.

- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cliwiau cyn i Crad ddyfalu i ble maen nhw ar fin mynd:

Ble mae Ffion eisiau mynd? Dyfaluwch.

Beth ydy'r cliwiau?

bag

tywel

gwisg nofio

Mae hi'n nofio.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu syniadau. Os yw'r gair **pwll nofio** yn anghyfarwydd iddyn nhw, derbyniwch y gair Saesneg a chyflwynwch y gair Cymraeg.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm – hyd at y darn ble maen nhw'n gadael y Pod-antur Cymraeg.

Gellid rhoi'r cyfle i'r disgyblion actio sefyllfa debyg i'r un sydd ar y DVD, h.y. gallech chi gasglu ynghyd nifer o eitemau y byddech chi'n eu defnyddio mewn bath / pwll nofio ac yna gallai un o'r disgyblion chwarae rhan Crad, gan ddewis nifer o eitemau anaddas i fynd gydag e i'r pwll nofio, e.e.

A: **Beth ydy hwn?**

B: **Hwyaden.**

A: **Hwyaden? Hwyaden? Hwyaden? Bobl bach! Dim hwyaden!**

B: **O ... iawn.**

A: **Beth ydy hwn?**

B: **Pysgodyn.**

A: **Pysgodyn? Pysgodyn? Pysgodyn?! Bobl bach! Dim pysgodyn!**

B: **O ... iawn.**

a.y.b.

- Gallai'r disgyblion geisio dyfalu cynnwys bag nofio:

Beth sy yn y bag?

Teimla fe / fo.

Fflipers?

Na.

Gogls?

Gogls.

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad a Ffion yn cyrraedd y pwll nofio ac yn talu i fynd i mewn.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 39**:

A: Rwyf ti'n gweithio yn y pwll nofio.

B: Rwyf ti eisiau mynd i mewn i'r pwll nofio ond rhaid talu gynta.

Gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y cerdyn, dylai'r disgyblion actio sefyllfa debyg i'r un ar y DVD; mae un ohonyn nhw'n talu i fynd i mewn i'r pwll nofio. Gellid newid y pris fel eu bod nhw'n gorfod gweithio gyda gwahanol symiau o arian, rhoi newid ac ati.

- Dangoswch y rhan nesaf - hyd at y darn ble mae Crad a Ffion yn gadael y pwll nofio ac yn mynd i'r **gawod**.

Gofynnwch i'r disgyblion restru'r gorchmynion y mae'r cynorthwy-ydd yn eu rhoi i Crad:

Dim hwyaden!

Dim fflipers!

Dim snorcel!

Dim bwyd!

Symudwch ymlaen a thynnwch sylw at orchmynion eraill sy'n cael eu cyflwyno. Gofynnwch ydy'r disgyblion yn cofio rhai ohonyn nhw – yn Gymraeg neu yn Saesneg:

Dim gweiddi!

Dim rhedeg!; Rhaid cerdded!

Dim neidio!; Dim neidio i mewn i'r pwll nofio.

Dim deifio!

Dim sblasio!

Dim gwithio!

- Dylid cyflwyno'r cerdyn darllen **Yn y Pwll Nofio**.
Torrwch y lluniau a'r gorchmynion allan. Yna, dylai'r disgyblion geisio matsio'r lluniau â'r gorchmynion.

Gellid defnyddio'r rhain i chwarae gêm hefyd:

Dylid gosod y cardiau wyneb i waered ar y bwrdd.

Yn eu tro, dylai'r disgyblion godi cerdyn a meimio beth sydd arno.

Dylai'r disgyblion eraill ddyfalu beth yw'r gorchmyn. Bydd y person cyntaf i ddyfalu'n gywir yn cael un pwynt.

Y disgybl sydd â'r nifer mwyaf o bwyntiau ar ddiwedd y gêm fydd yn ennill.

- Gallai'r disgyblion wneud posteri, taflenni gwybodaeth (i'w rhoi i ddosbarthiadau eraill cyn gwers nofio o bosib), cyflwyniad PowerPoint (y gellid ei gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol) ac ati er mwyn cyflwyno'r rheolau sy'n gysylltiedig â mynd i nofio.

- Gallai'r rhan ble mae Crad a Ffion a'r disgyblion yn trafod pa mor bell maen nhw'n gallu nofio ysgogi'r disgyblion i siarad am ba mor bell maen nhw eu hunain yn gallu nofio:

Wyt ti'n gallu nofio?

Ydw, dw i'n gallu nofio ... metr.

Dw i'n gallu nofio ... metr.

Dw i'n dysgu.

Gallai'r disgyblion ddod â'u medalau / tystysgrifau nofio i'r dosbarth a dweud wrth y grŵp pa mor bell maen nhw'n gallu nofio.

- Dangoswch ran olaf y ffilm, ble mae Crad yn mwynhau cawod hir ac mae Ffion yn aros amdano tu allan.

Canolbwyntiwch ar y cyfeiriadau at amser:

(tri) o'r gloch ...

chwarter wedi ...

hanner awr wedi ...

Ewch drwy'r patrymau hyn er mwyn eu hymarfer.

Gofynnwch i'r disgyblion actio'r sefyllfa sydd ar y DVD:

Ffion:	O, ble mae Crad?
Crad (yn y cefndir):	La, la, la, la. O, dw i'n hoffi cawod.
Ffion:	Tri o'r gloch!
Crad (yn y cefndir):	La, la, la, la. O, dw i'n hoffi cawod.
Ffion:	Chwarter wedi tri
Crad (yn y cefndir):	La, la, la, la. O, dw i'n hoffi cawod.
Ffion:	Hanner awr wedi tri.
Crad (yn y cefndir):	La, la, la, la. O, dw i'n hoffi cawod.
Ffion:	O, ble mae Crad?
Crad (yn y cefndir):	Helo, Ffion.

Mewn parau, gallen nhw newid y sefyllfa, e.e. mae un ohonyn nhw'n aros gan fod y llall yn gorffen gêm o bêl-droed / yn siopa / yn chwarae / ar y ffôn ac ati.

Gellid ymgymryd â mwy o waith mathemategol sy'n gysylltiedig ag amser, os yw'n briodol.

- Ail-ddangoswch y rhan yma o'r uned eto. Gofynnwch am farn y disgyblion, e.e.

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi nofio.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi mynd i'r pwll nofio.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi nofio.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi mynd i'r pwll nofio.

Sylwer: Gellir defnyddio'r patrymau iaith a gyflwynwyd yn yr uned hon yn ystod ymweliadau â'r pwll nofio fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyd-destun ystyrlon. Sylwer ar y canlynol, sydd hefyd i'w clywed / gweld ar y ffilm:

I'r ystafell newid. [I'r ystafelloedd newid.]

ystafell newid y bechgyn.

ystafell newid y merched.

I'r pwll nofio.

Beth am nofio i'r (ochr arall)?

Uned 5: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nodau

- Adolygu mesur yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi eu cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geiriau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Chwytha!	

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Ydy'r plant yn ...? Gorchmynion Sefa tu ôl i'r llinell. Rheda. Neidia. Dim gweiddi! Dim gwithio! Arall Dyma'r llinell. Fy nhro i nawr / rŵan.	gwelltyn; gwellt pwll nofio bag nofio gwisg nofio trynys nofio tywel bandiau braich ardderchog

Sylwer: Mae patrymau penodol yn cael eu cysylltu yn y rhan hon er mwyn datblygu ac ymestyn sgysiaau a gwaith ysgrifennu, e.e.

Beth

Dw i'n chwarae pêl-droed
Dw i'n nofio

Ble

ar y cae pêl-droed
yn y pwll nofio

Pryd

bob dydd Sadwrn.
bob dydd Sadwrn.

Anogir y disgyblion i fynegi eu barn ... e.e.

Barn

Mae'n grêt.
Mae'n ffantastig.

... ac i roi rheswm, e.e.

Pam

Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n hwyl.
Dw i'n hoffi nofio achos mae'n hwyl ac mae'n dda i chi.

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau ...?; Ydw.; Nac ydw.; Ydych chi eisiau ...?; Ydyn.; Nac ydyn.

Sefa tu ôl i'r llinell.; Hefyd: Sefwch tu ôl i'r llinell.

Dim ...!

Ardderchog.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Eglurwch fod y gwaith sydd yn Uned 5, Rhan 5, **Ydych chi'n cofio?**, yn adolygu gwaith sydd wedi'i ei gyflwyno eisoes.

Adran 1

- Dangoswch ran gyntaf y ffilm.

Gan ddilyn esiampyl Crad a Ffion, gallai'r disgyblion chwythu pêl fach ar fwrdd er mwyn ceisio sgorio gôl. Dylen nhw fesur y pellteroedd, gosod y bêl ar y smotyn a cheisio sgorio gôl. Byddai hyn yn gyfle da i adolygu a defnyddio'r patrymau canlynol:

Tro pwy?

Fy nhro i.

Dy dro di.

Ti sy nesa.

Fi sy nesa.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion gymryd eu tro i fesur y pellter maen nhw wedi ei neidio:

Sefa tu ôl i'r llinell.

Rheda.

Neidia.

Sawl metr?

... metr ... centimetr.

Adran 2

- Dangoswch yr ail ran.
Gallai'r disgyblion naill ai ailadrodd y gorchmynion sy'n cael eu clywed ar y ffilm neu, ar ôl troi'r sain i lawr, gallen nhw geisio meddwl beth yw'r gorchmynion hyn yn Gymraeg.

Adran 3

- Dangoswch y drydedd ran.
Dylai'r disgyblion ddweud y geiriau Cymraeg am yr hyn a welir ar y sgrin.

Adran 4

- Mae'r adran hon yn adolygu gwaith a gyflwynwyd eisoes.

Wrth iddyn nhw wrando ar y sgwrs gyda Shane, anogwch y disgyblion i feddwl am y cwestiynau sy'n cael eu gofyn. Trafodwch y rhain a'u rhestru nhw ar y bwrdd gwyn.

Ewch drwy'r rhain a gofynnwch ydyn nhw'n cofio sut y cafodd y cwestiynau eu hateb.

- Dangoswch yr ail glip - y sgwrs gydag Alys. Dangoswch fod yr un cwestiynau'n cael eu gofyn. Dangoswch y clip hwn eto a'r tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar yr atebion.

Dylid cyflwyno **Cerdyn Siarad 40:**

Beth am ofyn ac ateb cwestiynau am un funud?

Nod y gweithgaredd hwn yw annog y disgyblion i ofyn ac ateb cwestiynau sy'n gysylltiedig â beth maen nhw'n hoffi ei wneud, a ble a phryd maen nhw'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Dylid rhoi stopwatsh iddyn nhw a'u hannog nhw i siarad am funud.

Adran 5

- Dangoswch y rhan olaf ar y DVD.

Yn y rhan yma, mae'r disgyblion ar y ffilm yn defnyddio'r patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd yn Adran 4, ond y tro hwn, maen nhw'n siarad yn rhydd, heb gymorth cwestiynau.

- Yna, gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 41**:
Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Beth wyt ti'n hoffi wneud? Pam? Ble? Pryd?
Siarada ... siarada ... siarada ...!

Mae'r cerdyn hwn yn annog y disgyblion i siarad amdany'n nhw eu hunain heb gymorth cwestiynau. Ceir rhai patrymau i'w helpu nhw ac fe'u hanogir i siarad cyn hired â phosib.

- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Llythyr**.

Gallai'r disgyblion gofnodi beth maen nhw wedi'i ddeall drwy lenwi grid, e.e.

Enw:	
Byw:	
Ysgol - ble?	
Ysgol - pryd?	
Tywydd:	
Hoffi:	
Hoffi bwyta:	

- Dylid tynnu sylw at drefn y llythyr:
 - ble mae'r cyfeiriad – **Dyma'r cyfeiriad**.
 - y dyddiad – **Dyma'r dyddiad**.
 - sut mae'r llythyr yn dechrau – **Annwyl ...**
 - sut mae'r llythyr yn gorffen – **Hwyl fawr!**

Yna, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion ysgrifennu llythyr er mwyn eu cyflwyno'u hunain i ffrind post. Dylid eu hannog i ddweud cymaint â phosib:

... ydw i.

Dw i'n byw yn ...

Dw i'n mynd i Ysgol ...

Dw i'n hoffi (nofio / reidio) ...

Dw i'n (nofio / reidio) yn / yn y ...

Dw i'n (nofio / reidio) bob ...

Dw i'n hoffi ... achos ...

Mae'n grêt / ffantastig / wych / ddiddorol / hwyl.

Uned 6

Er mai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith y mae'r gwaith hwn yn bennaf, mae'n targedu'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill fel y gwelir isod. Gweler y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau am fwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Mae nifer helaeth o ofynion Rhaglen Astudio CA2 yn cael eu targedu yn yr uned hon. Codir ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiadau ieithyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal, e.e. **allwedd** a **brwnt** sy'n cael eu defnyddio yn ne Cymru yn bennaf ac **agoriad** / **'goriad** a **budr** sy'n cael eu defnyddio yng ngogledd Cymru. Cânt eu hannog i ymateb i wahanol amgylchiadau mewn modd priodol, i fynegi barn ac i fynegi profiadau personol a dychmygus. Rhoddir cyfle iddyn nhw chwarae rôl mewn amryw sefyllfaoedd hefyd.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunyddiau darllen sy'n cyd-fynd â'r uned drwy ymateb i restr o gwestiynau sydd yng nghefn pob llyfr. Yn ogystal, mae cyfle i ymgymryd â gwaith creadigol (e.e. *collage*, gwaith celf) gwaith llafar (e.e. gweithgareddau chwarae rôl) a gwaith ysgrifenedig (e.e. creu llyfr lloffion) ar ôl darllen y deunyddiau.

Mae cyfle i ysgrifennu at "amrywiaeth o bwrpasau" wrth i'r disgyblion ysgrifennu cardiau post, gwahoddiadau, posteri a cherdd ac felly fe'u hanogir i ddewis ffurfiau priodol. Mae sawl cyfle i ysgrifennu'n greadigol, e.e. wrth iddyn nhw ysgrifennu straeon newydd sy'n seiliedig ar stori Madog.

Mae pwyslais arbennig ar ddatblygu ac ymestyn patrymau iaith, sy'n barhad o'r gwaith a wnaed mewn unedau blaenorol, e.e. dweud pryd / ble mae rhywbeth yn digwydd, rhoi rhesymau, e.e. **achos**, a mynegi barn.

Mathemateg

Cyflwynir / adolygir siapiau penodol yn yr uned hon: **cylch**, **hanner cylch**, **pentagon**, **petryal**.

Rhoddir cyfle i'r disgyblion adio rhifau ar ddiwedd yr uned ac mae cyfleoedd i weithio gydag arian.

Rhoddir sylw i amser yn yr uned hon eto, drwy adolygu **chwarter wedi** a **hanner awr wedi**.

Gwyddoniaeth

Mae cyfleoedd i drafod bwyta'n iach. Ar ddechrau Rhan 2, er enghraifft, cawn ein cyflwyno i'r môr-ladron a gwelwn fod un ohonyn nhw'n dioddef o sbotiau di-ri oherwydd mai bisgedi'n unig mae'n eu bwyta. Hefyd, ar ddiwedd yr uned, cyfeirir at **ddiet da** a gallai'r disgyblion ymgymryd â mwy o waith ar fwyd iach.

Mae rhannau o'r uned wedi eu fflmio ar lan y môr ac felly tynnir sylw penodol at **gregyn**. Gellid ymchwilio i wahanol blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw mewn cynefinoedd gwahanol, e.e. ar lan y môr / yn lleol. Gallai hyn olygu ymweliad â thraeth ble mae pyllau dŵr a **chregyn**, **gwymon** ac yn y blaen, os yw hynny'n briodol. Byddai hyn yn golygu darllen llyfrau cyfeiriol, defnyddio meddalwedd addas ac ati yn ogystal. Cyfeirir hefyd at **sbwriel** sydd wedi ei adael ar y traeth.

Caiff gwybodaeth sylfaenol am y parot ei chyflwyno ar y cerdyn **Parot** ac anogir y disgyblion i chwilio am fwy o wybodaeth a lluniau.

Celf a dylunio

Mae cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau celf ar ôl darllen y llyfr **Barti Ddu** ac anogir y disgyblion i greu gwaith celf ar ôl darllen y llyfr **Madog**.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r cyfeiriadau at **gregyn** yn Rhannau 1 a 2 roi cyfleoedd i ddylunio modelau sy'n cynnwys gwahanol fathau o gregyn.

Gallai'r disgyblion ddylunio model o long Madog (Rhan 4) yn ogystal.

Addysg gorfforol

Anogir y disgyblion i gyfansoddi dawns sy'n portreadu llanw a thrai'r môr. Wrth wneud hynny, bydden nhw'n cael cyfle i "gydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud".

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth sy'n portreadu llanw a thrai'r môr. Gellid ei recordio a'i defnyddio yn y sesiwn ddawns y cyfeiriwyd ati uchod.

Daearyddiaeth

Mae'r cyfeiriadau at Landudno a Chaerdydd yn adolygu gwaith a gafodd ei wneud yn yr uned gyntaf. Gallai hyn arwain at astudiaeth o ardal leol yr ysgol.

Ymgwymerir â gwaith map syml wrth i Crad a Ffion geisio darganfod trysor ar lan y môr. Gallai'r disgyblion wneud mapiau o dir yr ysgol a chynllunio helpa drysor.

Gallen nhw chwilio am leoliad Cymru ac America ar fap ar ôl iddyn nhw ddarllen y llyfr **Madog**.

TGCh

Mae cyfleoedd i ymgymryd â gwaith ymchwil, i gyflwyno gwybodaeth am barotiaid ac i wneud cyflwyniad PowerPoint am ailgylchu a chael gwared â sbwriel. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddylunio bwrdd stori i ddarlunio stori Madog.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Yn Rhan 2, mae un o'r môr ladron yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o **sbwriel** ar y traeth a bod rhaid tacluso, fel ei fod yn dangos parch tuag at yr amgylchedd naturiol. Gallai hyn arwain at drafodaeth am sut y mae cartrefi'n cael gwared â'u sbwriel a'r angen i ailgylchu.

Sgiliau

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith a phatrymau a geirfa sydd wedi'u cyflwyno eisoes, gan sicrhau cynnydd a pharhad.

Datblygu meddwl

Anogir y disgyblion i feddwl am beth sy'n eu gwneud nhw'n hapus, beth ddylen nhw fynd gyda nhw i lan y môr ar ddiwrnod heulog, sut dylen nhw gael gwared â sbwriel a ble hoffon nhw fynd petaen nhw'n teithio yn y Pod-antur Cymraeg.

Yn ogystal, mae diwedd yr uned yn adleisio dechrau'r uned gyntaf, ble gwelwyd Crad yn mwynhau ei hun yn y ffair a Ffion yn mwynhau ei hun yn y parc. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau bychain wedi eu hymgorffori yn y darn hwn a gofynnir i'r disgyblion ganfod y rhain a gwneud cofnod ohonyn nhw ar ôl ail-wyllo rhan gyntaf a rhan olaf y DVD.

Anogir y disgyblion i gymharu cyfraniad Crad a Ffion i **Llyfr Lloffion Crad a Ffion** ac i sylwi bod Ffion wedi cynnwys mwy o fanylion yn ei gwaith hi. Dylid trafod y manylion a dylid annog y disgyblion i gynnwys manylion tebyg yn eu gwaith nhw eu hunain, gan ddod i ddeall sut i'w wella.

Datblygu cyfathrebu

Yn yr uned hon, mae nifer o gyfleoedd i'r disgyblion wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac i ymateb i'r hyn maen nhw wedi ei ddarllen. Yn ogystal, darperir cyfleoedd i drefnu gwybodaeth a'i chyfathrebu, gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrdd, e.e. am barotiaid, a'i chyflwyno, gan ddefnyddio fformat addas. Dylid eu hannog i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer drafftio ac ail-ddrafftio gwaith ysgrifenedig. Yn ogystal, mae cyfleoedd i baratoi a chyflwyno cyflwyniad PowerPoint, e.e. i ddangos sut y dylid cael gwared â sbwriel mewn ffordd gyfrifol.

Yn ogystal, anogir y disgyblion i ddyfeisio ffilm a rhaglen deledu fer, ble maen nhw'n cyfweld môr-leidr, a gallen nhw ffilmio'u hunain yn adrodd hanes Madog neu eu straeon eu hunain.

Datblygu rhif

Gall y disgyblion ddatblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, e.e. wrth gyfrif pleidleisiau, cadw sgôr a'u cyfrifo a mesur yn y rhan olaf.

Uned 6: Rhan 1 - Dw i eisiau mynd adre.

Nodau

- Trafod teimladau - hapusrwydd yn benodol: **Dw i'n hapus** a cheisio rhoi rhesymau dros fod yn hapus
- Adolygu'r amser gorffennol: **Es i ...** a mynegi barn am ddigwyddiad yn y gorffennol. **Roedd e'n / o'n wych / ffantastig / grêt.**
- Ymestyn brawddegau: **Es i i Gastell Henllys gyda Ffion. Roedd o'n anhygoel – yn wych, yn ffantastig, yn grêt, yn ddiddorol.**
- Cyflwyno'r geiriau Cymraeg **hanner cylch, pentagon** ac adolygu **cylch** a **petryal**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Ble mae dechrau? O, Mam fach!	prynu anhygoel trysor gemau yna hanner cylch pentagon teimlo'n gyffrous llanw cyn bag traeth

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble ydych chi? Ble mae ...? Ga i ofyn cwestiwn? Cei, wrth gwrs. Ydych chi'n hapus? Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Ydy'r ... yn y / ar y ...? Ydy. / Nac ydy. Beth ydy hwn? Beth sy yn y bag? Beth arall sy yn y bag? Oes ... yn y bag? Oes. / Nac oes. Arall Mawredd mawr! Dyma ni. Dim problem! Rhaid chwilio am y trysor. Pa botel? Gorchmynion Edrycha. Chwiliwch am y trysor. Cerddwch ymlaen. Trowch i'r dde. Trowch i'r chwith.	arian / pres cylch petryal ochr cerrig patrwm igam-ogam castell tywod traeth môr-ladron chwarter wedi hanner awr wedi teimlo'n gyffrous teimlo'n ofnus

Byddwch yn ofalus. Berfau Rydych chi eisiau ... Es i i ... Roedd e'n / o'n ... Does dim ...	
---	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dim gweiddi, os gwelwch yn dda.

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin gyda fi. / Mae'n flin 'da fi.

Ga i ofyn cwestiwn?; Cei.; Na chei.; Cewch.; Na chewch.

Ydych chi'n hapus?; Ydyn.; Nac ydyn.; Wyt ti'n hapus?; Ydw.; Nac ydw.

Anhygoel! (e.e. wrth ganmol gwaith ardderchog)

Wyt ti eisiau ...?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.; Ydych chi eisiau ...?;

Ydyn, os gwelwch yn dda.; Nac ydyn, dim diolch.

Dim problem!

Edrychwch ar y map.; Edrycha ar y map.

Ydy'r ... yn y / ar y ...?; Ydy.; Nac ydy.

Byddwch yn ofalus!; Hefyd: Bydda'n ofalus!

Dyfalwch!; Dyfala!

Syniad da!

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyflwynwch y cerdyn darllen sy'n cynnwys y gerdd, **Dw i'n hapus, hapus, hapus.**

Darllenwch y gerdd a gofynnwch i'r disgyblion restru beth sy'n gwneud Crad (y bardd) yn hapus yn y gerdd hon. Gallen nhw drafod hyn neu ysgrifennu rhestr.

Gofynnwch iddyn nhw beth sy'n eu gwneud nhw'n hapus a rhestrwch eu hawgrymiadau:

Wyt ti'n hapus? / Ydych chi'n hapus?

Pam?

Achos dw i'n ...

Achos dw i'n hoffi ...

Achos mae ... yn grêt.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 42:**

Wyt ti'n hapus?

Siarada am hyn.

Mewn parau, dylai'r disgyblion ofyn y cwestiwn hwn ac wrth iddyn nhw wrando ar yr ymateb, dylen nhw restru beth sy'n gwneud eu partner yn hapus.

Gan ddefnyddio'r pwyntiau a drafodwyd uchod, dylai'r disgyblion ysgrifennu cerdd, **Dw i'n hapus, hapus, hapus.**

Gallen nhw ddilyn y patrwm sy'n cael ei gyflwyno ar y cerdyn darllen neu ysgrifennu cerdd hollol newydd. Does dim rhaid iddyn nhw gynnwys odl yn eu cerdd os nad ydyn nhw eisiau.

- Dangoswch y ffilm, **Dw i eisiau mynd adre.** (Uned 6, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y dechrau – hyd at y darn ble mae Ffion yn gorffen siarad am beth sy'n ei gwneud hi'n hapus a'r lleoedd mae hi wedi ymweld â nhw.

Dywedwch wrth y disgyblion am ymateb i Sgrin pan fydd e'n gofyn:

Ble mae Crad?

Tu ôl i'r bwrdd.

Gofynnwch i'r disgyblion pam mae Ffion yn hapus:

Pam mae Ffion yn hapus?

Mae Ffion yn hoffi ... / Mae hi'n hoffi ...

Tynnwch sylw at y patrymau hyn:

Es i i ...

Roedd e'n / o'n ...

Roedd e'n / o'n ddiddorol.

ac ati.

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio beth ddywedodd Ffion am ble mae hi wedi bod.

- Dangoswch y rhan ble mae Crad yn sôn am beth sy'n ei wneud e'n hapus a ble mae e wedi bod. Stopiwch y ffilm ar ôl i Crad gyfeirio at yr Arctig, gan orffen gyda'r gair **anhygoel**.

Gofynnwch i'r disgyblion pam mae Crad yn hapus:

Pam mae Crad yn hapus?

Mae Crad yn hoffi ...

Mae e'n / o'n hoffi ...

Tynnwch sylw at y patrymau hyn:

Es i i ...

Roedd e'n / o'n ...

Roedd e'n / o'n ddiddorol.

ac ati.

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio beth ddywedodd Crad am ble mae e wedi bod.

- Soniwch wrth y disgyblion am daith rydych chi wedi ei gwneud, e.e.
Es i i'r traeth. Roedd e'n / o'n anhygoel.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 43:**

Siaradwch am ddydd Sadwrn.

Dylai'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw wedi bod i un o'r lleoedd sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn siarad a dylen nhw fynegi barn am y lle hwnnw, e.e.

Es i i ...

Roedd e'n / o'n wych / grêt.

ffantastig

ddiddorol

dda iawn

hwyl

anhygoel

Roedd e'n / o'n ofnadwy

ddiflas

ddiflas iawn

ych a fi

- Dangoswch y rhan nesaf – ble mae Crad a Ffion yn siarad am fynd adref – hyd at y darn ble mae Ffion yn cyfeirio at Fflyffi, ei chath.

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw wedi bod yn y Pod-antur Cymraeg am amser hir a'u bod nhw eisiau mynd adref. Gofynnwch iddyn nhw restru pam maen nhw eisiau mynd adref, e.e.

Rydych chi yn y Pod-antur Cymraeg. Rydych chi eisiau mynd adref. Pam?

Dw i eisiau gweld ...

Dw i eisiau bwyta ...

Dw i eisiau mynd i ... achos dw i eisiau ...

Dw i eisiau siarad â ...

Dw i eisiau clywed ...

Dw i eisiau mynd i'r ysgol!

Gallai'r disgyblion ysgrifennu eu rhesymau dros fynd adref ac yna gallen nhw ddarllen eu rhestr i'w partner. Os yw'r partner wedi ysgrifennu'r un rheswm, dylai e / hi ddweud:
A fi, hefyd.

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad a Ffion yn chwilio am botel ac yna am fap. Stopiwch y ffilm pan fydd Ffion yn edrych ar y map.

Gallai'r disgyblion gau eu llygaid:
Caewch eich llygaid.
Dim pipo.

Gallai un ohonyn nhw guddio gwrthrych yn yr ystafell ddosbarth. Heb symud o'u seddi, gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau i geisio dod o hyd i'r gwrthrych:
Ydy'r ... yn y / ar y / o dan y / tu ôl i'r / o flaen y ...?

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae'r cymeriadau'n edrych ar y map – hyd at y darn ble mae Crad yn gadael.

Tynnwch sylw at y siapiau geometrig sy'n cael eu crybwyll:
cylch
hanner cylch
pentagon
petryal

Gellid adolygu siapiau eraill hefyd, e.e.:
triongl
sgwâr

Gellid ymgymryd â gwahanol weithgareddau mathemategol sy'n gysylltiedig â'r siapiau hyn.

Tynnwch sylw at yr ymadroddion yma:
Cerddwch igam-ogam.
Cerddwch ymlaen.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth ydy *Turn left* yn Gymraeg:
Beth ydy *Turn left* yn Gymraeg?
Trowch i'r chwith.

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio beth yw *Turn right* yn Gymraeg:
Beth ydy *Turn right* yn Gymraeg?
Trowch i'r dde.

Gellid tynnu llun y siapiau y sonnir amdanyn nhw uchod gyda sialc ar y buarth a gallai'r disgyblion roi gorchmynion i'w gilydd i symud o un siâp i'r llall, e.e.
Cerddwch igam-ogam i'r cylch. Trowch i'r dde ...
Cerddwch ymlaen i'r pentagon. Trowch i'r chwith ...

Gellid cyflwyno berfau eraill, e.e.
Rhedwch i'r petryal.
Neidiwch i'r triongl.
ac ati.

- Mae'r adran hon yn cyfeirio at **y llanw**. Efallai y bydd rhaid esbonio llanw a thrai - yn Saesneg o bosib. Yna, gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth i bortreadu llanw a thrai'r môr - ar wahanol adegau, e.e.
Mae'n braf – mae'r llanw'n dod i mewn.
Mae'n braf – mae'r llanw'n mynd allan.
Mae'n wyntog.
Mae'n stormus.

Mae'n stormus iawn (iawn).

Mae'n heulog iawn. ac ati.

Gallen nhw ddyfeisio symudiadau dawns i bortreadu'r llanw ar wahanol adegau a dawnsio i gyfeiliant y gerddoriaeth maen nhw wedi'i chyfansoddi.

Dawnsiwch yn araf.

Dawnsiwch yn gyflym.

Dawnsiwch yn uchel.

Dawnsiwch yn isel.

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad yn gofyn i'r disgyblion ddyfalu beth sydd yn y bag traeth. Stopiwch y ffilm a gofynnwch:

Beth sy yn y bag? Dyfalwch.

Dylen nhw restru'r hyn maen nhw'n meddwl sydd yn y bag ond, cyn gwneud hynny, gofynnwch am awgrymiadau a rhestrwch yr eirfa, e.e.

eli haul

sbectol haul

het haul

tywel

gwisg nofio

trynys nofio

fflipers

snorcel

bwced

rhaw

picnic

comic / llyfr

blanced

- Dangoswch y rhan nesaf, ble mae Crad yn dangos beth mae e wedi'i bacio. Gallai'r disgyblion roi dau farc iddyn nhw eu hunain am bob eitem maen nhw wedi ei rhestru sy'n cyfateb i'r eitemau ym mag Crad.

Yna, gellid chwarae gêm:

Dylid dangos bag traeth sy'n llawn eitemau addas ar gyfer y traeth. Gallai'r bag gynnwys yr eitemau a restrwyd uchod ac un eitem 'anarferol'. Gallai hwnnw fod yn **degan** (e.e. i chwarae gydag e ar y traeth) neu **sgarff** (oherwydd ei bod hi'n wyntog ar y traeth weithiau).

Dylai'r disgyblion geisio dyfalu beth sydd yn y bag a rhestru'r eitemau. Yna, yn eu tro, dylen nhw ofyn

Oes ... yn y bag?

Os ydyn nhw'n gywir, dylen nhw roi tic yn ymyl yr eitem ar eu rhestr a rhoi dau farc iddyn nhw eu hunain. Dylid dangos yr eitem. Os ydy'r disgyblion yn dyfalu'r eitem 'anarferol' yn gywir, dylen nhw roi pum marc iddyn nhw eu hunain. Yr enillydd yw'r un sydd wedi sgorio'r nifer mwyaf o farciau.

- I ddod â'r sesiwn i ben, dangoswch ddiwedd y clip – ble mae Sgrin yn dweud wrth y cymeriadau am fod yn ofalus oherwydd bod **môr-ladron** ar y traeth. Gofynnwch i'r disgyblion:

Oes môr-ladron yng Nghymru?

Gofynnwch iddyn nhw 'bleidleisio' - **Oes** neu **Nac oes**.

Cyfrwch yn Gymraeg i weld faint sy'n credu bod môr-ladron yng Nghymru a faint sydd ddim yn credu hynny. Cymharwch y rhifau a gorffennwch gyda: **Gawn ni weld**.

Uned 6: Rhan 2 - Môr-ladron

Nodau

- Parhau â'r stori am y trysor / môr-ladron a gyflwynwyd yn Rhan 1
- Adolygu'r bwydydd sy'n gysylltiedig â diet iach
- Dangos un ffordd o ofalu am yr amgylchedd, h.y. cael gwared â sbwriel mewn ffordd briodol. Gallai hyn arwain at drafodaeth am ailgylchu'n lleol.
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rhaid clirio'r sbwriel.	llong telesgop sbotiau / smotiau parot sbwriel

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Ble mae'r trysor? Ydych chi eisiau ...? Ydyn. / Nac ydyn. Gorchmynion Edrychwch! Rhaid cuddio. Arall Does dim ffrwythau ar y llong. Yma.	Ych a fi! traeth môr bisgedi trysor gemau poteli papurau bocsys ofnadwy cregyn hardd brwnt / budr

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi eisiau gweld y ...?; Ydyn.; Nac ydyn.

Edrychwch ar y

Rhaid clirio.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Môr-ladron** (Uned 6, Rhan 2) yn ei gyfanrwydd. Anogwch y disgyblion i ymateb i gwestiynau **Capten Du**.

Gofynnwch iddyn nhw am eu barn:

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n gyffrous.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi môr-ladron.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r môr-ladron yn wych / yn ddoniol.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi môr-ladron.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'r môr-ladron yn ofnadwy.

- Tynnwch sylw at y ffaith bod gan y môr-leidr ar y traeth broblemau gyda'i groen – mae ganddo **sbotiau / smotiau** am nad yw ei ddiety yn un iach.

Dylai'r disgyblion ysgrifennu rhestr o beth ddylai ei fwyta er mwyn cael diet iach, cytbwys.

Ar ôl cymharu rhestri, gallai'r disgyblion actio deialog ble mae un ohonyn nhw'n rhoi cyngor i **Capten Du** am ei ddiety, e.e.

Disgybl: **Beth ydych chi'n fwyta, Capten Du?**

Capten: **Bisgedi.**

Disgybl: **Rhaid bwyta ... / Bwytwch ...**

Capten: **Pam?**

Disgybl: **Achos mae ... yn dda i chi.**

Gallen nhw actio'r deialogau hyn o flaen y grŵp.

- Dangoswch ddechrau'r clip eto a chanolbwyntiwch ar y rhan ble mae **Capten Du** yn siarad am ei fywyd.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 44**:

A: Rwyf ti'n gweithio ar y teledu ac rwyf ti'n gofyn cwestiynau i Capten Du.

B: Capten Du wyt ti.

Eglurwch i'r disgyblion fod un ohonyn nhw'n mynd i ymgymryd â rôl cyflwynydd ar y teledu a'i fod yn mynd i gyfweld Capten Du.

Gwelir rhestr o giwiau addas ar y cerdyn a dylai'r disgyblion eu defnyddio i ffurfio cwestiynau / sgwrs. Am nad yw'r DVD yn rhoi llawer o fanylion am y capten, bydd rhaid i'r disgyblion ddefnyddio'u dychymyg i ateb rhai o'r cwestiynau.

Gellid ffilmio'r sgrysiâu a'u defnyddio ar gyfer creu "rhaglenni teledu" byr, e.e.

- gellid dewis cerddoriaeth ar gyfer dechrau a diwedd rhaglen

- gellid tynnu llun addas (y môr / llong / y capten) ac yna'i ffilmio er mwyn dynodi dechrau'r rhaglen

- gallai'r un sy'n cyfweld ddechrau gyda:

Helo. Heddiw, dw i'n siarad â Capten Du.

Dyma Capten Du.

Helo ...

Gellid ysgrifennu'r diolchiadau ar y diwedd, e.e.

Diolch i ...

Ffilmio ...

- Cyflwynwch y llyfr **Barti Ddu** ac eglurwch fod Barti Ddu, neu Bartholomew Roberts, yn fôr-leidr enwog iawn o Gymru - o Sir Benfro.

Gan ddefnyddio'r ciwiau ar **Cerdyn Siarad 44**, ac mewn parau, gallai'r disgyblion chwarae rôl wrth gyfweld **Barti Ddu** ar gyfer rhaglen deledu.

Mae rhestr o awgrymiadau am weithgareddau eraill yng nghefn y llyfr a gellid ymgymryd â rhai o'r rhain.

- Dangoswch y rhan nesaf, sy'n canolbwyntio ar **sbwriel** ar y traeth.

Gofynnwch i'r disgyblion pa fath o **sbwriel** sydd ar y traeth yn y clip.

Gofynnwch iddyn nhw holi ei gilydd, mewn parau, ynglŷn â pha fath o sbwriel maen nhw'n ei daflu gartref.

Beth wyt ti'n daflu?

Beth ydych chi'n daflu?

(Mae'r gair **taflu** wedi ei gyflwyno eisoes wrth drafod taflu pêl.)

Dw i'n taflu ... / Rydyn ni'n taflu ...

papur

pacedi

plastig

poteli

bwyd

Dangoswch fagiau, bocsys, biniau o wahanol liwiau sy'n cael eu defnyddio'n lleol ar gyfer cael gwared â sbwriel a gofynnwch beth sy'n mynd i bob bag:

Beth sy'n mynd i'r bag / bocs / bin ...?

Gan ddefnyddio'r bagiau / biniau a menig priodol, gofynnwch i'r disgyblion gael gwared ag amrywiaeth o eitemau glân, e.e. papurau amrywiol, cardfwrdd, caniau pop gwag, crystiau bara, hen fanana ac ati. Dylen nhw ddisgrifio'r broses:

Papur yn y bag (glas).

Tuniau yn y bag (pinc).

Bwyd yn y (bocs llwyd).

ac ati.

Rhaid rhoi'r papur yn y bag (glas).

Rhaid rhoi'r tuniau yn y bag (pinc).

Rhaid rhoi'r bwyd yn y bocs (llwyd).

Gellid cyflwyno'r gair **ailgylchu** e.e.

Rhaid ailgylchu'r papur - yn y bag (glas).

ac ati.

Gallai'r disgyblion wneud posteri, taflenni ac ati er mwyn dangos sut y dylid cael gwared â deunyddiau penodol neu gallen nhw baratoi cyflwyniad PowerPoint i'w ddangos yn ystod gwasanaeth ysgol.

- Dylid cyflwyno **Cerdyn Siarad 45:**
Rhaid clirio'r traeth. Sut?

Dylai'r disgyblion ddychmygu bod mwy o sbwriel amrywiol i'w gael ar y traeth nag sydd yn y llun a dylen nhw egluro sut i glirio'r sbwriel mewn modd priodol. Dylen nhw gyfeirio at liwiau'r bagiau / biniau sy'n cael eu defnyddio'n lleol wrth iddyn nhw glirio'r traeth.

Uned 6: Rhan 3 - Ar y traeth

Nodau

- Adolygu teimladau
- Adolygu amser a chyflwyno / adolygu **Faint o'r gloch ydy hi?**
- Ymgymryd â gwaith map sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu'r geiriau Cymraeg **hanner cylch, pentagon** ac adolygu **cylch** a **petryal**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n dri o'r gloch. Pa ffordd?	brysio bocs trysor

Yr amser

	Mae hi'n ... / Mae'n ...
	Sylwer: Wrth siarad am faint o'r gloch ydy hi yn Gymraeg, mae treigladd meddal ar ôl Mae hi'n ... ac Mae'n ... :
Un o'r gloch Dau o'r gloch Tri o'r gloch Pedwar o'r gloch Pump o'r gloch Chwech o'r gloch Saith o'r gloch Wyth o'r gloch Naw o'r gloch Deg o'r gloch Un ar ddeg o'r gloch Deuddeg o'r gloch	Mae hi'n un o'r gloch. Mae hi'n ddau o'r gloch. Mae hi'n dri o'r gloch. Mae hi'n bedwar o'r gloch. Mae hi'n bump o'r gloch. Mae hi'n chwech o'r gloch. Mae hi'n saith o'r gloch. Mae hi'n wyth o'r gloch. Mae hi'n naw o'r gloch. Mae hi'n ddeg o'r gloch. Mae hi'n un ar ddeg o'r gloch. Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble mae'r map? Ga i weld y map? Cei. / Na chei. Wyt ti'n clywed sŵn? Ydw. / Nac ydw. Beth ydy hwn? Dw i ddim yn gwybod. Gorchmynion Tyrd / Dere. Trowch i'r dde. Trowch i'r chwith. Arall Dw i'n teimlo'n nerfus. O, Mam fach! Dyma ti! Does dim ... Croeso.	yn gyflym môr-ladron parot llanw siâp cylch hanner cylch pentagon petryal castell tywod igam-ogam ymlaen

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dim problem!

Yn gyflym!

Ble mae'r (map)?

Ga i weld y map?; Cei.; Na chei.; Cewch.; Na chewch.

Wyt ti'n clywed sŵn?; Ydw.; Nac ydw.; Ydych chi'n clywed sŵn?; Ydyn.; Nac ydyn.

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n ... / Mae'n ...

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Tyrd / Dere.; Dewch.

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 46** er mwyn adolygu'r eirfa:
Rydych chi'n mynd i'r traeth. Mae'n braf. Mae'n boeth.
Beth ydych chi'n roi yn y bag?

Gofynnwch i'r disgyblion drafod hyn.

- Dangoswch y ffilm **Ar y traeth** (Uned 6, Rhan 3) yn ei chyfanrwydd ac anogwch y disgyblion i ymateb i'r cwestiynau.

Yna, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ardderchog.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi mynd i'r traeth.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r môr-ladron yn wych / yn ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r stori'n gyffrous.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi mynd i'r traeth.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'r môr-ladron yn ofnadwy.

- Dangoswch y rhan ble mae Crad a Ffion yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y map eto – hyd at y darn ble rydyn ni'n gweld y petryal ar y tywod.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 47:**

Sut mae mynd at y trysor?

Dylid ymgymryd â'r gweithgaredd ar y cerdyn hwn mewn grwpiau o dri – gydag un person yn arwain y ddau arall at ble mae'r trysor wedi'i guddio.

Dylai pob disgybl gael cyfle i roi'r cyfarwyddiadau.

- Yna, gallai'r disgyblion ddyfeisio'u helpa drysor eu hunain.
Dylen nhw guddio'r "trysor" yn rhywle ar dir yr ysgol a dylen nhw wneud map syml i ddangos ble mae e. Yn ogystal, dylen nhw ysgrifennu cyfarwyddiadau o dan y map sy'n egluro sut i'w gyrraedd:

Cerddwch ymlaen (pedwar).
Trowch i'r dde.
Trowch i'r chwith.

Byddai hyn yn gyfle da i adolygu'r canlynol:

Cerddwch heibio i'r ...
Cerddwch tu ôl i'r ...
Cerddwch o flaen y ...

- Canolbwyntiwrch ar amser:
Faint o'r gloch ydy hi ar y DVD?
Mae hi'n dri o'r gloch.

Adolygwch ymadroddion eraill sy'n gysylltiedig ag amser:

Yna, gallai'r disgyblion chwarae

Faint o'r gloch ydy hi, Mistar Blaidd?:

- Dylai'r disgyblion sefyll mewn rhes yn un pen yr iard a dylid dewis un disgybl i chwarae rhan Mistar Blaidd:

Pwy sy eisiau chwarae Mistar Blaidd?

- Dylai e / hi fynd i ben arall yr iard a sefyll gyda'i gefn / chefn tuag at weddill y disgyblion.

- Dylai'r disgyblion weiddi:

Faint o'r gloch ydy hi, Mistar Blaidd?

- Dylai Mistar Blaidd ateb, gan ddefnyddio un o'r ymadroddion amser yma:

Mae hi'n un o'r gloch.

Mae hi'n ddau o'r gloch.

Mae hi'n dri o'r gloch.

Mae hi'n bedwar o'r gloch.

Mae hi'n bump o'r gloch.

Mae hi'n chwech o'r gloch.

Mae hi'n saith o'r gloch.

Mae hi'n wyth o'r gloch.

Mae hi'n naw o'r gloch.

Mae hi'n ddeg o'r gloch.

Mae hi'n un ar ddeg o'r gloch.

Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.

Sylwer:

Dylid cyflwyno a dysgu'r ymadroddion hyn yn raddol; gellid chwarae'r gêm drwy ddefnyddio'r amseroedd mae'r disgyblion wedi'u dysgu.

Dylai'r disgyblion gamu tuag at Mistar Blaidd, gyda nifer eu camau'n cyfateb i faint o'r gloch ydy hi. Fodd bynnag, weithiau, dylai Mistar Blaidd weiddi **Nawr!** (De Cymru) neu **Rŵan** (Gogledd Cymru) a cheisio dal un o'r disgyblion. Os yw'n dal disgybl, dylai'r disgybl hwnnw gymryd lle **Mistar Blaidd** a dylid dechrau chwarae eto.

- Ail-ddangoswch y ffilm yma yn ei chyfanrwydd er mwyn crynhoi.
- Dylid cyflwyno'r cerdyn darllen **Parot**.

Ar ôl ei ddarllen a siarad am y lliwiau, gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth a lluniau o barotiaid ar y rhyngwrdd, tynnu llun un ohonyn nhw ac ysgrifennu darn syml amdano.

- Gallai'r disgyblion gymryd eu tro i chwarae rôl parot, e.e. gallai dau ddisgybl gynnal sgwrs yn Gymraeg a gallai'r parot ailadrodd beth mae un ohonyn nhw'n ei ddweud.
- Yn ogystal, gan ddefnyddio parot tegan, os oes un ar gael, gallai un disgybl ofyn cwestiwn i aelod o'r grŵp yn Gymraeg ac os ydy e / hi'n ateb yn gywir, gallai e / hi gael cyfle i ddal y parot a gofyn cwestiwn gwahanol i rywun arall.

Uned 6: Rhan 4 - Madog

Nodau

- Cyflwyno chwedl o Gymru mewn ffordd a fydd yn galluogi'r disgyblion i'w dysgu, ei pherfformio, ei haddasu a'i defnyddio yn sylfaen ar gyfer ysgrifennu stori arall
- Adolygu teimladau - **teimlo'n ofnus, teimlo'n well**
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'r môr yn dawel. Mae'r môr yn wyllt. Mae'n stormus. Wyt ti'n teimlo'n well? Ydw. / Nac ydw.	tywysog ymhladd gwlad gwlad newydd llong, llongau un diwrnod yn bell o

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n bod? Ble mae'r ...? Ydych chi eisiau ...? Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch. Beth am ... ? Gorchmynion Dewch yma! Edrychwch! Arall O, Mam fach! O, Nefi wen! Mawredd mawr! Berfau Dw i'n hoffi ... / Dw i ddim yn hoffi ... Rydych chi ... Mae e / o ...	sudd oren sâl môr teithio pawb croeso

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Mae'n iawn. Does dim problem.

Ble mae'r ...?

Does dim ...

Dyma ti.

Wyt ti'n teimlo'n well?; Ydw.; Nac ydw. Hefyd: **Ydych chi'n teimlo'n well? Ydyn.; Nac ydyn.**

Beth am gael stori?

Awgrymiadau cam wrth gam

- Dangoswch y ffilm **Madog** (Uned 6, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar y dechrau, ble mae Crad a Ffion yn glanio yn ôl yn y Pod-antur Cymraeg. Eglurwch:
Mae Crad a Ffion yn teimlo'n nerfus.
Mae Crad a Ffion yn teimlo'n ofnus.

Gofynnwch:

Beth maen nhw'n yfed?

Mae Ffion yn yfed lemonêd.

Mae Crad yn yfed sudd oren.

- Cyflwynwch y syniad o wrando ar / darllen stori:

Beth am gael stori?

Ymatebion posib:

Syniad da!

Gwych! / Grêt!

Os gwelwch yn dda.

Cyflwynwch y llyfr **Madog**.

Cyn dechrau, cyflwynwch y geiriau allweddol canlynol:

tywysog

Gwahoddwch y bechgyn i ddod i'r blaen ac i gerdded yn frenhinol, fel tywysog:

Y Tywysog (Jac).

Gwnewch hyn nifer o weithiau er mwyn ymarfer y gair **tywysog**.

Nawr, cyflwynwch:

ymladd

llongau (Mae'r gair **llong** wedi'i gyflwyno eisoes yn yr uned hon.)

un diwrnod

gwlad

gwlad newydd

Eglurwch fod y llyfr yn sôn am y Tywysog Madog, a oedd yn byw yng Nghymru yn y ddeuddegfed ganrif - **amser maith yn ôl**.

Darllenwch y llyfr gyda'r disgyblion.

Ar y diwedd, eglurwch mai America oedd y wlad newydd lle y cyrhaeddodd y Tywysog Madog, yn ôl y chwedl. Yna, gellid annog y disgyblion i chwilio am leoliad Cymru ac America ar fap. Gallen nhw labelu'r gwledydd hyn ar fap llai a thynnu llun y llongau'n teithio tuag at America. Gallen nhw ysgrifennu brawddegau i gyd-fynd â'r gwaith, e.e.

Mae Madog yn byw yng Nghymru.

Mae Madog yn mynd i America.

Mae ffrindiau Madog yn mynd i America hefyd.

Gofynnwch y cwestiynau sydd wedi'u rhestru yng nghefn y llyfr. Gallech chi ofyn i'r disgyblion ymgymryd â'r gwaith a awgrymir yng nghefn y llyfr yn ogystal.

- Dangoswch yr ail glip – ble mae Sgrin, Ffion a Crad yn adrodd y stori. Gorffennwch gyda **Hip, hip, hwrê!**
- Gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett*, helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori sydd yn y llyfr, e.e.:
 - Dywedwch y stori bob dydd.
 - Gwnewch fap stori e.e.



* Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007



Madog




Madog yn drist



Llongau, bwyd a diod




Mynd




Gweld
gwlad
newydd



Mynd i'r
wlad
newydd



Pawb yn
hapus



- Defnyddiwch y map stori y tro nesa y byddwch chi'n adrodd y stori a sicrhewch ei fod mewn lle amlwg fel bod y dosbarth yn gallu ei weld.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol.
- Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau rydych chi'n mynd i'w defnyddio i gyfleu'r stori.
- Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i adrodd y stori gyda chi.
- Wrth i'r disgyblion fagu hyder, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau sy'n eistedd o gwmpas bwrdd.
- Gellid sefydlu cylchoedd stori, ble mae'r disgyblion yn dweud y stori wrth ei gilydd, gan helpu'i gilydd lle bo angen.
- Gallai'r disgyblion adrodd y stori mewn parau, pan fyddan nhw'n ddigon hyderus.
- Hefyd, gellid amrywio'r ffordd y mae'r stori'n cael ei hadrodd.
- Gallai'r disgyblion actio'r stori o flaen y dosbarth – neu o flaen yr ysgol yn ystod gwasanaeth – a gellid defnyddio props addas, e.e. dillad, bocsys i ddynodi bwyd ac ati.
- Gallai'r disgyblion feimio neu actio rhai golygfeydd, e.e. gallen nhw chwarae rôl pobl sy'n cyfarfod ar y llong am y tro cyntaf. Gallen nhw drafod pwy ydyn nhw, sut maen nhw'n teimlo, beth maen nhw'n hoffi'i wneud (gan gynnwys manylion os yw'n bosib) ac yna gallen nhw gynnig bwyd/diod i'w gilydd. Gallen nhw actio'r sefyllfa ble mae Madog yn gwahodd ffrindiau i fynd ar y daith, neu'r olygfa ar ddiwedd y stori, ble mae brodor o'r wlad newydd yn siarad â'r teithwyr wrth iddyn nhw gyrraedd.
- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a pherfformio'r stori, dangoswch y clip sy'n dangos grŵp o blant yn perfformio'r stori a chymharwch gyflwyniad y disgyblion gyda chyflwyniad y plant ar y sgrin.
- Gallai gwaith ysgrifenedig gynnwys:
 - dylunio poster sy'n gwahodd pobl i fynd ar y fordaith:
Ydych chi eisiau mynd ...?
Beth am fynd ...?
Dewch gyda ni!
Pryd: (h.y. dyddiad gadael Cymru)
Ble: (h.y. o ble mae'r llong yn hwylio, e.e. Bae Penrhyn / Conwy mwy na thebyg)
 - rhestru bwyd, dillad a phethau eraill y byddai eu hangen ar y teithwyr
 - ysgrifennu gwahoddiad i ffrind i ofyn a hoffai fynd ar y fordaith:
Wyt ti eisiau mynd dros y môr – yn bell o Gymru?
Pryd: (h.y. dyddiad gadael Cymru)
Ble: (h.y. o ble mae'r llong yn hwylio)
 - ysgrifennu eitem newyddion syml i gyd-fynd â darlun o Madog e.e.
Dyma Madog.
Mae e'n / o'n ...
- Gellid ymgymryd â gweithgareddau celf a dylunio sy'n berthnasol i'r stori. Caiff un gweithgaredd ei awgrymu yng nghefn y llyfr – darlunio'r môr a'r fordaith yn ystod tywydd gwahanol.
- Gallai gweithgareddau dylunio a thechnoleg gynnwys:
 - gwneud model o'r llong
 - gwneud pypedau, e.e. pypedau bys / ffon sy'n portreadu Madog a rhai o'i ffrindiau. Yna, gellid defnyddio'r rhain ar gyfer chwarae rôl.
- Gellid ymgymryd â gweithgareddau cerddoriaeth a dawns, e.e. cyfleu'r ymladd yng Nghymru, y fordaith a llanw a thrai'r môr.
- Gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 48:**
A: Madog wyt ti.
B: Rhaid gofyn cwestiynau i Madog.

Yn y gweithgaredd hwn, caiff y disgyblion eu gwahodd i eistedd yn y gadair goch yn eu tro er mwyn chwarae rôl Madog. Dylen nhw ateb y cwestiynau a ofynnir gan bartner, aelodau o'r dosbarth / grŵp. Mae ciwiau addas i'w gweld ar y cerdyn.

- Pan fydd gan y disgyblion afael dda ar y stori, gellid eu hannog nhw i'w newid hi, e.e. gallen nhw newid:

- enwau'r cymeriadau
- y rheswm dros deithio
- cyfeiriadau at y tywydd ac ati.

Yn wir, gallen nhw greu stori hollol wahanol ar sail y stori hon. Yna, gallen nhw ddysgu'r stori newydd, gwneud map stori, ailadrodd y stori bob dydd, adrodd y stori mewn grwpiau, parau ac yn y blaen, cyn dechrau ei hysgrifennu hi fesul rhan.

Uned 6: Rhan 5 - Mynd adre

Nodau

- Dod ag antur Crad a Ffion yn y Pod-antur Cymraeg i ben
- Adolygu teimladau
- Adolygu geirfa a phatrymau sydd wedi'u cyflwyno eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ydy dau a dau? Enwch ... Mesurwch ...	llythrennau, llythrennau tasg, tasgau adio diet llyfr lloffion

Sylwer: Caiff y geiriau canlynol eu defnyddio mewn gwahanol rannau o Gymru. Defnyddiwch y gair sy'n cael ei ddefnyddio yn eich ardal chi:

De Cymru	Gogledd
allwedd brwnt	agoriad, 'goriad budr

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Beth am agor y bocs trysor? Ble mae'r ...? Ble ydw i? Ydy'r ... o dan y ...? Ydy. Dw i ddim yn meddwl. Beth sy yn y bocs? Oes ... yn y bocs? Oes. / Nac oes. Beth ydy'r cwestiwn? Beth nesa? Wyt ti'n teimlo'n well? Ydych chi'n teimlo'n well? Gorchmynion: Edrycha.; Edrychwch. Rhowch. Arall: Does dim ... Dy dro di nawr / rŵan.	bwrdd cwpwrdd drô bocs tocyn mynd adre broetsh papur cwestiwn ardderchog riwler ci ffair ceffylau bach ceir bach arogl ci poeth byrgyr tawel chwarae pêl-droed Hwyl fawr!

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau a gyflwynir ac a adolygir yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dyna stori dda!

Chwiliwch am ...

Ydy'r ... yn y / ar y?; Ydy.; Nac ydy.

Oes ... yn y bocs?; Oes.; Nac oes.

Beth ydy hwn?

Beth ydy (dau) a (dau)?

Beth ydy'r cwestiynau?

Meddylwch am ...

Enwch ...

Awgrymiadau cam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Mynd adre** (Uned 6, Rhan 5). Canolbwyntiwch ar y dechrau – hyd at y darn ble mae Crad yn tynnu'r darn o bapur o'r bocs.

Cyn i'r cymeriadau ddod o hyd i'r **allwedd** neu'r **agoriad**, gallech chi ofyn i'r disgyblion geisio cofio ble maen nhw wedi gweld allwedd / agoriad ar y ffilm:

Ble mae'r allwedd? (De Cymru)

Ble mae'r agoriad? (Gogledd Cymru)

[Ar y bêl-droed - yn Uned 5]

Gallai'r disgyblion guddio allwedd fach a chwilio amdani, yn union fel y mae Ffion a Crad yn chwilio am allwedd fach ar y DVD:

Ydy'r allwedd / agoriad yn y ...?

ar y ..

o dan y ...

tu ôl i'r ...

- Dangoswch y rhan nesaf - hyd at y darn ble maen nhw'n gadael y Pod-antur Cymraeg. Anogwch y disgyblion i wneud y tasgau a welir ar y sgrin, e.e.

Adio

Rhoddir swm i Crad a Ffion adio yn eu pennau. Gellid stopio'r ffilm cyn i'r ateb gael ei roi fel bod y disgyblion yn gallu meddwl am yr ateb eu hunain.

Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 49**:

Adiwch ...

Gan ddefnyddio'r ciwiau ar y cerdyn, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd adio dau neu dri rhif – yn Gymraeg.

Enwch ...

Rhaid i Crad a Ffion enwi ffrwyth ac anifail yn Gymraeg. Gellid stopio'r ffilm er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ateb a rhestru cynifer o ffrwythau, llysiau ac anifeiliaid â phosib.

Mesurwch ...

Gellid gosod tasgau sy'n gofyn i'r disgyblion fesur gwahanol eitemau yn Gymraeg – fel mae Ffion yn ei wneud ar y ffilm.

- Dangoswch y rhan olaf ble mae Crad a Ffion yn cael eu cludo'n ôl i'r ffair ac i'r parc.

Gofynnwch am farn y disgyblion:

Ydych chi'n hoffi'r DVD?
Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi Crad.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r stori'n dda / gyffrous.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r stori'n dda / gyffrous ac mae'r Pod-antur yn grêt.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi Crad.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'r stori'n ddiflas.

- Eglurwch fod y diwedd yn debyg i'r dechrau:

Mae Crad yn y ffair.

Mae Crad yn mynd ar y reids.

Mae Crad yn bwyta.

Tynnwch sylw at y ffaith bod ambell beth **yn wahanol**.

Beth sy'n wahanol?

Dangoswch y rhan hon eto, a gofynnwch i'r disgyblion wyllo'n ofalus. Yna, dangoswch ran gyntaf yr uned gyntaf eto a gofynnwch iddyn nhw gymharu'r ddwy ran er mwyn dod o hyd i ddau wahaniaeth:

Uned 1	Uned 6
Mae Crad yn bwyta ci poeth. Mae Crad yn ennill cwningen. [Hefyd: Mae Crad yn mynd ar y reids.]	Mae Crad yn bwyta byrgyr. Mae Crad yn ennill eliffant. [Hefyd: Mae Crad yn mynd adre. / Dim reids.]

Yna, cymharwch y ddwy ran sy'n cynnwys Ffion, er mwyn dod o hyd i un gwahaniaeth:

Uned 1	Uned 6
Mae Ffion yn hoffi bwyta picnic yn y parc.	Mae Ffion yn hoffi chwarae pêl-droed yn y parc.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 50**:
Rydych chi yn y Pod-antur Cymraeg. Rydych chi'n mynd i deithio. I ble ydych chi eisiau mynd?

Dylai'r disgyblion ddychmygu ble hoffen nhw fynd a pham.

Mae ciwiau addas wedi eu cynnwys ar y cerdyn i'w helpu nhw.

Cymharwch syniadau'r disgyblion.

- Cyflwynwch **Llyfr Lloffion Crad a Ffion**.
Mae'r llyfr hwn yn edrych yn ôl dros rai o anturiaethau Crad a Ffion.

Gellid annog y disgyblion i greu llyfr lloffion am daith /deithiau yn ystod y flwyddyn:

Es i i ...

Roedd e'n / o'n ...

Gellid adolygu'r canlynol:

Ces i ...

Gwelais i ... / Gweles i ...

Dylid eu hannog i ysgrifennu cymaint â phosib. Gellid cymharu gwaith Crad â gwaith Ffion, er mwyn tynnu sylw at y ffaith bod Ffion wedi cynnwys mwy o fanylion yn ei gwaith hi. Gellid trafod y manylion hyn ac annog y disgyblion i gynnwys manylion tebyg yn eu gwaith nhw eu hunain.